Department for Education

Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2013 a Chanllawiau i Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

Medi 2013

Cynnwys

Adran 1 - Rhagarweiniol 1

Cyflwyniad 1
Crynodeb o newidiadau a wnaed i gyflogau ac amodau ers 2012 1
Diwygiadau i ganllawiau Adran 3 2
Gwybodaeth arall 2

Adran 2 - Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2013 3

Rhan 1 – Cyflog – Cyffredinol 4
Hawl i gyflog a lwfansau 4
Polisi cyflog a gweithdrefnau cwyno 4
Amseriad penderfyniadau a hysbysiad am gyflog 4
Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir 6

Rhan 2 - Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth 8
Colofn cyflog i'r grŵp arweinyddiaeth 8
Pennu cyflog pennaeth yn flynyddol 9
Pennu grŵp pennaeth yr ysgol 10
Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arferol 11
Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arbennig 12
Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - achosion arbennig 14
Pennu ystod ysgol unigol (YYU) ysgol 14
Pennu taliadau dewisol i benaethiaid 16
Pennu cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn flynyddol 16
Pennu ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol 18

Rhan 3 - Athrawon Eraill 20
Ystodau cyflog o 1 Medi 2013 20
Y brif ystod cyflog o 1 Medi 2013 21
Yr ystod cyflog uwch o 1 Medi 2013 21
Cais i gael cyflog ar yr ystod cyflog uwch 22
Yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol o 1 Medi 2013 23
Ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2013 24
Athro heb gymhwyso yn dod yn athro cymwysedig 24
Datblygiad cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad 25
Athrawon Siartredig Llundain (ASLlau) 26

Rhan 4 - Lwfansau 27

Lwfansau i athrawon dosbarth 27
Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD) 27
Diogelu CAD 28
Lwfans anghenion addysgol arbennig (AAA) 30
Lwfans sy'n daladwy i athrawon heb gymhwyso 30
Diogelu lwfans athrawon heb gymhwyso 31
Lwfans dros dro 33
Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad 33

Rhan 5 - Atodol **35**
Pennu graddfa neu ystod cyflog berthnasol 35
Athrawon digyswllt 35
Diogelu cyffredinol sy'n berthnasol i athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005 35
Diogelu cyffredinol sy'n berthnasol i athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006 38
Diogelu i aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, cyn athrawon sgiliau uwch ac athrawon rhagorol a'r rheini ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol 41
Athrawon rhan amser - Dehongli 44
Pennu tâl athrawon rhan amser 44
Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd 44
Dyletswyddau preswyl 44
Taliadau ychwanegol 44
Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff 45
Lwfans ffi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 45
Trefniadau aberthu cyflog 46

Rhan 6 – Fframwaith Cytundebol ar gyfer Athrawon **47**
Cyflwyniad 47
Penaethiaid – prif ofynion 47
Dirprwyo 48
Cyfrifoldebau proffesiynol 48
Hawliau a Roddwyd 49
Athrawon – Cyfrifoldebau Proffesiynol 50
Dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol 50
Athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol 50
Athrawon nad ydynt yn bennaeth 50
Hawliau a Roddir - I Bob Athro 53
Hawliau cyffredinol 53

Atodiad 1 **56**
Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru) a Safonau Athrawon (Lloegr) 56
Cyflwyniad 56
Safonau Athrawon (Lloegr) 56
Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru) 58

Atodiad 2 **63**
Safonau i Athrawon Siartredig yn Llundain 63

Atodiad 3 **65**
Tasgau gweinyddol a chlerigol 65

Atodiad 4 **66**
Dehongli 66

Atodiad 5 – Pwyntiau colofn presennol (2012) ac wedi'u huwchraddio (2013) **74**

Adran 3 - Canllawiau i Awdurdodau Lleol, Arweinwyr Ysgol, Athrawon Ysgol a Chyrff Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir **75**

Polisi cyflog 75
Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir 76
Cyflog y grŵp arweinyddiaeth (paragraffau 5-14) 77
Symud i'r uwch raddfa gyflog (paragraff 18) 80
Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) (paragraffau 24 - 25) 81
Lwfans anghenion addysgol arbennig (AAA) (paragraff 26) 82
Athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol 83
Athrawon heb gymhwyso 84
Lwfans athrawon heb gymhwyso (paragraff 27) 84
Athrawon digyswllt (paragraff 32) 85
Tâl athrawon rhan amser 85
Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff 90
Trefniadau aberthu cyflog (paragraff 43) 91
Oriau gwaith (paragraffau 51.17-51.27) 92
Ffynonellau gwybodaeth bellach 94

Adran 4 - Canllawiau ar Newidiadau i'r Ddogfen o Ganlyniad i'r Cytundeb Cenedlaethol[()] **95**

Newidiadau 2003 **95**
Tasgau Gweinyddol a Chlerigol 95
Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith 98

Amser Arwain a Rheoli 100
Athrawon a Neilltuir 101

Newidiadau 2004 a 2009 **102**
Cyflenwi 102

Newidiadau 2005 **108**
Goruchwylio Arholiadau 108
Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu 108
Amser Prifathrawiaeth Penodedig 110

Adran 1 - Rhagarweiniol

Noder: Nid yw'r adran ragarweiniol hon yn rhan o'r statud (Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn Adran 2 o'r cyhoeddiad hwn) na'r canllawiau statudol (yn Adran 3 o'r cyhoeddiad hwn).

Cyflwyniad

1. Rhydd Deddf Addysg 2002 yr awdurdod i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar faterion yn ymwneud â chyflog ac amodau, a rhaid i'r rheini dan sylw eu dilyn.

2. Ers 2003 mae'r cyhoeddiad hwn wedi dwyn ynghyd ddwy ran y fframwaith ar gyfer trefniadau cyflog yng Nghymru a Lloegr - Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ('y Ddogfen') a'r canllawiau statudol. Mae angen darllen y Ddogfen (Adran 2 - "y statud") a'r canllawiau (Adran 3) gyda'i gilydd er mwyn cael darlun cyflawn o'r trefniadau cyflog ac amodau ar gyfer athrawon yng Nghymru a Lloegr.

3. Nodir y gofynion statudol ar gyfer cyflog ac amodau athrawon ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr yn y Ddogfen, ac mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol (ALlau) eu bodloni. Mae'n ofynnol i ALlau a chyrff llywodraethu ddilyn y canllawiau statudol, ac mewn perthynas â chanllawiau ar faterion gweithdrefnol, efallai y bydd llys neu dribiwnlys yn ystyried unrhyw fethiant i wneud hynny mewn unrhyw achos. Yn fras, mae hyn yn golygu y byddai angen i unrhyw barti nad yw'n dilyn y canllawiau hyn gael rheswm da i beidio â gwneud hynny a byddai angen iddo allu cyfiawnhau unrhyw wyriad oddi wrthynt.

4. Gwnaed sawl newid i'r Ddogfen ers fersiwn 2012. Nodir y manylion hyn ym mharagraff 7 isod.

5. Mae'r newidiadau a wnaed i'r Ddogfen a'r canllawiau statudol ers 2012 yn deillio'n bennaf o'r argymhellion yn 21ain adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012 a'r 22ain adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013.

6. Ymgynghorwyd â phob rhanddeiliad allweddol ynghylch y Ddogfen (Adran 2) a'r canllawiau statudol yn Adran 3 fel rhan o'r broses ymgynghori statudol arferol.

Crynodeb o newidiadau a wnaed i gyflogau ac amodau ers 2012

7. Mae'r prif newidiadau a wnaed i'r Ddogfen ers 2012 fel a ganlyn:

   (a) dileu datblygiad cyflog cynyddrannol blynyddol ar gyfer pob datblygiad cyflog ar ôl dyfarniad cyflog mis Medi 2013. **Bydd y dyfarniadau cyflog a wnaed ym mis Medi 2013 yn seiliedig ar system gyflog 2012 o gyflog cynyddrannol;**

   (b) **mae codiad cyflog o 1% ar gyfer pob athro mewn swydd ar neu ar ôl 1 Medi 2013 a chynnydd o 1% ymhob lwfans hefyd wedi cael eu dyfarnu drwy'r Ddogfen;**

(c) cyflwyno datblygiad cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer pob datblygiad cyflog o fis Medi 2013 ymlaen (paragraff 22);

(ch) dileu graddfeydd cyflog a threfniadau asesu Athrawon Sgiliau Uwch ac Athrawon Rhagorol;

(d) cyflwyno ystod cyflog newydd ar gyfer ymarferwyr arweiniol sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau athrawon (paragraff 19);

(dd) disodli'r prawf trothwy presennol ar gyfer datblygiad o'r brif ystod cyflog i'r ystod cyflog uwch gyda meini prawf symlach newydd (paragraff 18);

(e) rhoi mwy o ryddid i ysgolion bennu cyflogau cychwynnol athrawon sy'n newydd i'r ysgol (paragraffau 16-22);

(f) dileu unrhyw rwymedigaeth ar ysgolion wrth recriwtio i gyfateb cyflog presennol athro ar y brif ystod cyflog, yr ystod cyflog uwch neu'r ystod cyflog i athrawon heb gymhwyso (paragraff 15);

(ff) cyflwyno cyfrifoldeb addysgu a dysgu tymor penodol (TLR) - TLR3 (paragraff 24);

(g) dileu'r terfyn amser tair blynedd ar lwfansau recriwtio a chadw (paragraff 41);

(ng) dileu'r taliad anghyfunol o £250 i athrawon ar bwyntiau 1, 2 neu 3 o'r raddfa cyflog i athrawon heb gymhwyso.

Diwygiadau i ganllawiau Adran 3

8. Yn ogystal â diwygiadau sy'n deillio o'r newidiadau uchod mae Adran 3 bellach yn llawer byrrach na fersiwn 2012 ac mae ond yn cynnwys canllawiau y mae'n hanfodol eu cadw yn eu ffurf statudol.

Gwybodaeth arall

9. Gall ALlau ac ysgolion ddod o hyd i ddeunydd llawn gwybodaeth ar faterion cyflog ar wefan yr Adran Addysg. Mae'r deunydd hwn yn cynnwys cyngor adrannol anstatudol, polisi cyflog enghreifftiol a datganiadau cyflog enghreifftiol. Os oes gennych ymholiadau cyffredinol ynghylch cyflog ffoniwch 0370 000 2288 neu anfonwch e-bost drwy wefan yr Adran.

Adran 2 - Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2013

Mae'r Ddogfen hon yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag amodau statudol cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr ac fe'i paratowyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg gan ddisgwyl y bydd gorchymyn yn cael ei wneud yn unol ag 122 o Ddeddf Addysg 2002 ("y Ddeddf")[(1)]. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n cyfeirio at y Ddogfen hon ac yn rhoi cyfarwyddyd bod ei darpariaethau'n effeithiol yn unol ag ef, yn unol ag adran 124(3) o'r Ddeddf). Y gorchymyn a ddisgwylir fydd Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2013 ("y Gorchymyn").

Mae'r Ddogfen hon yn berthnasol i athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig (ac eithrio ysgol y mae gorchymyn a wnaed yn unol ag adran 128(2) o'r Ddeddf yn berthnasol iddi) er mwyn darparu addysggynradd neu uwchradd (heblaw mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol).

Pan ddaw'r Gorchymyn i rym ar 1af Medi 2013, bydd y Ddogfen hon yn disodli Dogfen 2012 a wnaed yn effeithiol gan Orchymyn Cyflog ac AmodauAthrawon Ysgol 2012[(2)].

Department for Education
Sanctuary Buildings
35 Great Smith Street
London SW1P 3BT

Ffôn: 0370 0002288

(1) 2002 (c.32.).
(2) O.S. 2012/2051.

Rhan 1 – Cyflog – Cyffredinol

Hawl i gyflog a lwfansau

1.1 Yn amodol ar baragraffau 31, 32 a 34, mae gan athro cymwysedig neu athro heb gymhwyso mewn swydd llawn amser yr hawl i gael tâl sy'n cynnwys cyflog a bennwyd yn unol â Rhannau 2 neu 3 ac unrhyw lwfansau sy'n daladwy yn unol â Rhannau 4 a 5.

1.2 Rhaid i'r corff perthnasol bennu bod athro graddedig neu athro ar y cynllun hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar gyflogaeth:

(a) yn mynd i gael eu talu a bod yn gymwys i hawlio lwfansau fel athro cymwysedig; neu neu

(b) yn mynd i gael eu talu a bod yn gymwys i hawlio lwfansau fel athro heb gymhwyso.

1.3 Mae gan athro a gyflogir o dan drefniant rhan amser yr hawl i gael tâl sy'n cynnwys cyflog ac unrhyw lwfansau y mae gan yr athro yr hawl i'w cael, wedi'u cyfrifo yn unol â pharagraffau 34.11, 36 a 37.

1.4 Mae gan athro a gyflogir mewn ysgol â chyllideb ddirprwyedig yr hawl i gael unrhyw dâl gan yr awdurdod y mae gan yr athro'r hawl i'w gael yn rhinwedd darpariaethau'r Ddogfen hon neu unrhyw benderfyniadau a wneir yn unol â hi.

Polisi cyflog a gweithdrefnau cwyno

2.1. Mae'n rhaid i'r corff perthnasol:

(a) mabwysiadu polisi sy'n nodi ar ba sail y mae'n pennu cyflog athrawon ac erbyn pa ddyddiad y bydd yn pennu adolygiad cyflog blynyddol yr athrawon;

(b) pennu gweithdrefnau er mwyn delio â chwynion athrawon mewn perthynas â'u cyflog yn unol â Chod Ymarfer ACAS.

Amseriad penderfyniadau a hysbysiad am gyflog

3.1 Yn unol â pharagraff 3.3, rhaid i dâl athro gael ei bennu:

(a) yn flynyddol, yn effeithiol o 1af Medi;

(b) pryd bynnag y bydd athro'n dechrau swydd newydd (gan gynnwys dechrau swydd yn y grŵp arweinyddiaeth, neu'r dyletswyddau a neilltuir i athro a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol) ar ddyddiad ac eithrio'r dyddiad a nodir ym mholisi cyflog yr ysgol ar gyfer y penderfyniad cyflog blynyddol, yn effeithiol o'r adeg y bydd yr athro'n dechrau'r swydd honno;

(c) pan ddaw athro'n gymwys i gael ei dalu ar yr ystod cyflog uwch (YCU) yn unol â pharagraff 17; neu

(ch) ar unrhyw adeg arall pan fydd angen newid cyflog athro mewn unrhyw amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn y Ddogfen hon.

3.2 Wrth bennu tâl athro, rhaid i'r corff perthnasol ystyried ei bolisi cyflog a swydd arbennig yr athro yn ei strwythur staffio.

3.3 Pan fydd y corff perthnasol yn penderfynu gostwng tâl athro, ni chaiff y penderfyniad hwnnw fod yn effeithiol cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad.

3.4 Pan fydd y corff perthnasol wedi pennu tâl athro, rhaid iddo sicrhau, cyn gynted ag y bo modd a heb fod dros fis ar ôl gwneud y penderfyniad, bod yr athro'n cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw, ac am unrhyw daliadau neu fuddiannau ariannol eraill a ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 41, unrhyw symiau a ddiogelir y mae gan yr athro yr hawl i'w cael yn unol â pharagraffau 25, 28, 34 a 35, lle mae modd archwilio copi o strwythur staffio a pholisi cyflog yr ysgol ac:

(a) pan fo'r athro'n aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, ar ba sail y gwnaed y penderfyniad ynghylch ei dâl, a'r meini prawf (gan gynnwys amcanion perfformiad pan nad yw'r athro yn destun Rheoliadau 2011 neu Reoliadau 2012) a ddefnyddir er mwyn adolygu'r cyflog yn y dyfodol;

(b) pan benodwyd yr athro yn aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol am gyfnod penodedig neu o dan gontract tymor penodol, am y dyddiad neu, lle y bo'n briodol, yr amgylchiadau a fydd yn dod â'r cyfnod penodol neu'r contract tymor penodol i ben;

(c) pan fo'r athro yn athro dosbarth neu'n athro heb gymhwyso a bod y corff perthnasol wedi gwneud penderfyniad amdano yn unol â pharagraff 1.2(a), am:

(i) safle'r athro o fewn yr ystodau cyflog a nodir ym mharagraffau 16 ac 17;

(ii) natur a gwerth unrhyw lwfans a ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 26;

(iii) mewn perthynas ag unrhyw Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR) a ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 24, ei werth, natur y cyfrifoldeb sylweddol y gwnaed y dyfarniad amdano ac, os gwneir y dyfarniad tra bydd yr athro mewn swydd arall tra bydd deiliad y swydd honno yn absennol dros dro, ar ba ddyddiad ac o dan ba amgylchiadau (os byddant yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw) y daw i ben ac, ar gyfer CAD3, datganiad na chaiff y CAD ei ddiogelu.

(ch) pan fo'r athro yn athro heb gymhwyso ac nid yw paragraff 3.4(c) yn berthnasol iddo, am:

(i) safle'r athro ar ystod cyflog athrawon heb gymhwyso a bennir yn unol â pharagraff 20;

(ii) gwerth unrhyw lwfans athro heb gymhwyso a ddyfernir yn unol â pharagraff 2 a'r cyfrifoldeb, y cymwysterau neu'r profiad ychwanegol y dyfarnwyd y lwfans yn eu cylch.

3.5 Yn y paragraff hwn, mae "tâl" yn golygu cyflog ac unrhyw lwfansau ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm a delir am ddyfarnu statws Athro Siartredig Llundain (CLT) neu yn unol â pharagraffau 39 a 40.

Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir

4.1 Mae cyflogau athrawon a arferai gael eu cyflogi fel Athrawon Sgiliau Uwch (ASUau) ac Athrawon Rhagorol (ARhau) yr oedd eu cyflogau'n cael eu diogelu yn unol â Dogfen 2012 yn parhau i gael eu diogelu yn unol â'r Ddogfen honno. Mae paragraffau 4.2 a 4.3 yn berthnasol i athro sy'n cael swm neu symiau a ddiogelir yn unol â pharagraffau 25, 28, 34 a 35.

4.2 Os bydd y symiau a ddiogelir yn werth mwy na £500 gyda'i gilydd, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a roddwyd i'r athro a dyrannu dyletswyddau ychwanegol i'r athro y mae'n rhesymol iddo ystyried eu bod yn briodol ac yn gymesur â'r swm a ddiogelir, am gyhyd ag y telir y swm a ddiogelir i'r athro.

4.3 Ni fydd yr athro yn cael y swm a ddiogelir os bydd yn gwrthod cyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath mewn ffordd afresymol, ar yr amod bod yr athro'n cael gwybod am benderfyniad y corff perthnasol i roi'r gorau i'r arfer o dalu'r swm a ddiogelir o leiaf fis cyn iddo ddod yn weithredol.

4.4 Mae paragraff 4.2 yn berthnasol i baragraffau 25, 28, 34 a 35, pryd bynnag y bydd yn ofynnol i'r corff perthnasol ystyried a yw cyflog o werth uwch ("y cyflog newydd") neu lwfans (gan gynnwys dyfarnu cynnydd yng ngwerth lwfans a wneir trwy benderfyniad y corff perthnasol) ("y lwfans newydd"), neu werth cyfunol cyflog newydd a lwfans newydd, yn gyfwerth â gwerth cyfunol cyflog blaenorol a swm a ddiogelir neu'n fwy na'r gwerth hwn.

4.5 Rhaid i'r corff perthnasol ystyried yr holl symiau a ddiogelir y gall yr athro eu hawlio a rhoi'r gorau i dalu dim ond y swm a ddiogelir neu gyfuniad o symiau a ddiogelir sy'n gyfwerth â chyfanswm y cynnydd yn nhâl yr athro y gellir ei briodoli i'r cyflog newydd neu'r lwfans newydd, neu'n llai na hyn.

4.6 At ddibenion paragraffau 25, 28 a 35, daw'r cyfnod diogelu i ben ar drydydd pen-blwydd y dyddiad perthnasol; ac yn achos penderfyniad a wneir gan y corff perthnasol rhwng:

(a) 1 Medi a 31 Rhagfyr, y dyddiad perthnasol yw 1 Ionawr yn syth ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw;

(b) 1 Ionawr a 31 Mawrth, y dyddiad perthnasol yw 1 Ebrill yn syth ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw;

(c) 1 Ebrill a 31 Awst, y dyddiad perthnasol yw 1 Medi yn syth ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw.

Rhan 2 - Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth

Colofn cyflog i'r grŵp arweinyddiaeth

5.1 Rhaid i bennaeth gael cyflog sy'n seiliedig ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir ym mharagraff 5.4, fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 6.

5.2 Rhaid i ddirprwy bennaeth gael cyflog sy'n seiliedig ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir ym mharagraff 5.4, fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 13.

5.3 Rhaid i bennaeth cynorthwyol gael cyflog sy'n seiliedig ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir ym mharagraff 5.4, fel y mae'r corff perthnasol yn ei bennu yn unol â pharagraff 13.

5.4 Dyma'r golofn cyflog ar gyfer aelodau'r grŵp arweinyddiaeth:

Colofn Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth 2013				
Pwynt colofn	***Cyflog Blynyddol***			
	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain)	***Ardal Llundain Fewnol***	***Ardal Llundain Allanol***	***Ardal y Cyrion***
	£	**£**	**£**	**£**
L1	37,836	44,986	40,838	38,878
L2	38,784	45,938	41,787	39,828
L3	39,752	46,910	42,752	40,795
L4	40,743	47,898	43,748	41,790
L5	41,757	48,917	44,762	42,806
L6	42,803	49,961	45,805	43,851
L7	43,957	51,117	46,961	45,006
L8	44,971	52,128	47,974	46,013
L9	46,094	53,248	49,096	47,140
L10	47,277	54,433	50,282	48,323
L11	48,505	55,656	51,503	49,547
L12	49,622	56,779	52,628	50,671
L13	50,863	58,020	53,869	51,912
L14	52,131	59,287	55,129	53,177
L15	53,429	60,580	56,428	54,470
L16	54,849	62,006	57,850	55,896
L17	56,109	63,267	59,112	57,162
L18	57,520	64,677	60,525	58,565

L19	58,946	66,103	61,952	59,992
L20	60,408	67,564	63,412	61,458
L21	61,901	69,059	64,907	62,955
L22	63,440	70,596	66,440	64,488
L23	65,011	72,162	68,012	66,054
L24	66,623	73,780	69,624	67,673
L25	68,279	75,433	71,281	69,323
L26	69,968	77,122	72,970	71,018
L27	71,701	78,853	74,702	72,746
L28	73,480	80,634	76,483	74,523
L29	75,300	82,457	78,301	76,349
L30	77,174	84,330	80,175	78,217
L31	79,081	86,238	82,087	80,130
L32	81,047	88,201	84,048	82,096
L33	83,061	90,216	86,066	84,110
L34	85,114	92,270	88,119	86,163
L35	87,229	94,386	90,231	88,279
L36	89,390	96,543	92,388	90,436
L37	91,612	98,771	94,616	92,658
L38	93,878	101,032	96,881	94,925
L39	96,166	103,319	99,167	97,209
L40	98,566	105,726	101,571	99,616
L41	101,029	108,190	104,034	102,076
L42	103,560	110,714	106,558	104,609
L43	106,148	113,303	109,151	107,199

Pennu cyflog pennaeth yn flynyddol

6.1 At ddiben pennu cyflog pennaeth nad yw'n destun Rheoliadau 2011 na Rheoliadau 2012:

(a) rhaid i'r corff perthnasol a'r pennaeth geisio cytuno ar amcanion perfformiad mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol a chynnydd disgyblion, ac os na fyddant yn cytuno, rhaid i'r corff perthnasol osod amcanion perfformiad o'r fath;

(b) rhaid i'r corff perthnasol werthuso perfformiad y pennaeth gan ystyried yr amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt neu a bennwyd yn unol ag is-baragraff 6.1(a).

6.2 Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyflog pennaeth yn unol â'r canlynol:

(a) yn unol â pharagraff 35, ni chaiff cyflog pennaeth fod yn llai nag isafswm yr ystod ysgol unigol (YYU) ac ni chaiff fod yn fwy nag uchafswm yr YYU;

(b) ac eithrio i'r graddau bod angen symud i fyny'r golofn cyflog er mwyn

sicrhau bod cyflog y pennaeth yr un fath ag isafswm yr YYU, ni cheir symud i fyny'r golofn cyflog o gwbl oni bai:

(i) os nad yw'r pennaeth yn destun Rheoliadau 2011 neu Reoliadau 2012, bod gwerthusiad o berfformiad y pennaeth wedi'i gynnal yn unol â pharagraff 6.1(b) ac y gwelwyd ansawdd uchel parhaus o ran perfformiad, gan ystyried yr amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt neu a bennwyd yn unol â pharagraff 6.1(a); neu

(ii) os yw'r pennaeth yn destun Rheoliadau 2011 neu Reoliadau 2012, y gwelwyd perfformiad o ansawdd uchel parhaus y pennaeth, gan ystyried canlyniadau'r gwerthusiad diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau hynny.

(c) wrth wneud unrhyw benderfyniad yn unol â pharagraff 6.2(b) yn achos pennaeth sy'n destun Rheoliadau 2012, rhaid i'r corff perthnasol ystyried unrhyw argymhelliad ynghylch cyflog a gofnodwyd yn adroddiad gwerthuso diweddaraf y pennaeth;

(ch) ac eithrio i'r graddau y mae angen symud i fyny'r golofn cyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y pennaeth yn gyfwerth ag isafswm yr ystod ysgol unigol, ni cheir codi cyflog pennaeth yn fwy na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol;

(d) pan gaiff ei benodi mewn ysgol benodol, gan gynnwys yn unol â pharagraff 11.5, rhaid i bennaeth gael cyflog sy'n gyfwerth â'r swm a nodir ar gyfer un o'r pedwar pwynt ar waelod yr YYU;

(dd) pan fydd y corff perthnasol yn codi'r YYU, rhaid cyfrifo unrhyw bwyntiau perfformiad a ddyfernir gan y corff perthnasol ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar sail yr YYU is cyn i gyflog y pennaeth gael ei gymhathu ar yr ystod uwch;

(e) pan fydd y corff perthnasol, yn unol â darpariaethau Dogfen gynharach, yn pennu YYU y mae ei huchafswm yn uwch na'r pwynt uchaf ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth, rhaid iddo barhau i bennu gwerth pob pwynt uwchlaw'r pwynt uchaf am gyhyd ag y bo'r YYU honno yn berthnasol.

Pennu grŵp pennaeth yr ysgol

7.1 Rhaid i'r corff perthnasol neilltuo ei ysgol i grŵp pennaeth at ddibenion paragraff 11 yn unol â'r paragraff hwn a pharagraffau 8, 9 a 10.

7.2 Rhaid i ysgol gael ei neilltuo i grŵp pennaeth pryd bynnag y bydd y corff perthnasol yn ystyried bod hynny'n addas.

7.3 Dyma'r grwpiau pennaeth, a'r ystodau cyflog mewn perthynas â hwy:

Ystodau Cyflog Penaethiaid 2013					
Grŵp	***Ystod pwyntiau colofn***	***Ystod Cyflog Flynyddol***			
		Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain)	***Ardal Llundain Fewnol***	***Ardal Llundain Allanol***	***Ardal y Cyrion***
		£	**£**	**£**	**£**
1	L6 – L18	42,803 – 57,520	49,961 – 64,677	45,805 – 60,525	43,851 – 58,565
2	L8 – L21	44,971 – 61,901	52,128 – 69,059	47,974 – 64,907	46,013 – 62,955
3	L11 – L24	48,505 – 66,623	55,656 – 73,780	51,503 – 69,624	49,547 – 67,673
4	L14 – L27	52,131 – 71,701	59,287 – 78,853	55,129 – 74,702	53,177 – 72,746
5	L18 – L31	57,520 – 79,081	64,677 – 86,238	60,525 – 82,087	58,565 – 80,130
6	L21 – L35	61,901 – 87,229	69,059 – 94,386	64,907 – 90,231	62,955 – 88,279
7	L24 – L39	66,623 – 96,166	73,780 – 103,319	69,624 – 99,167	67,673 – 97,209
8	L28 – L43	73,480 – 106,148	80,634 – 113,303	76,483 – 109,151	74,523 – 107,199

Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arferol

8.1 Yn unol â pharagraff 10, rhaid i ysgol arferol gael ei neilltuo i grŵp pennaeth yn unol â'r tabl canlynol, drwy gyfeirio at sgôr cyfanswm ei hunedau, a gyfrifir yn unol â pharagraff 8.2:

Sgôr cyfanswm yr unedau	***Grŵp ysgol***
Hyd at 1,000	1
1,001 i 2,200	2
2,201 i 3,500	3
3,501 i 5,000	4
5,001 i 7,500	5
7,501 i 11,000	6
11,001 i 17,000	7
17,001 a throsodd	8

8.2 Yn unol â pharagraffau 8.3 i 8.5, rhaid i sgôr cyfanswm yr unedau gael ei phennu yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol	*Unedau fesul disgybl*
I bob disgybl yn y cyfnod rhagarweiniol a phob disgybl yn y cyfnod allweddol cyntaf neu'r ail gyfnod allweddol	7
I bob disgybl yn y trydydd cyfnod allweddol	9
I bob disgybl yn y pedwerydd cyfnod allweddol	11
I bob disgybl yn y pumed cyfnod allweddol	13

8.3 Rhaid pennu nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol a nifer y disgyblion ym mhob cyfnod allweddol yn ôl y niferoedd fel y'u dangosir yn adroddiad diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion yr Adran Addysg, neu'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i'r Adran Addysg neu Lywodraeth Cymru yn y drefn honno ar ran yr ysgol.

8.4 Rhaid i bob disgybl y mae ganddo ddatganiad anghenion addysgol arbennig, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, gael ei gyfrif fel tair uned yn fwy nag y byddai'n cael ei gyfrif fel arall yn rhinwedd paragraff 8.2, ac os nad yw mewn dosbarth arbennig, rhaid ei gyfrif fel tair uned o'r fath dim ond os bydd y corff perthnasol yn pennu felly.

8.5 Rhaid i bob disgybl sy'n mynychu am hanner diwrnod ar y mwyaf bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol, gael ei gyfrif fel hanner yr unedau ag y byddai'n cael ei gyfrif fel arall, yn unol â pharagraffau 8.2 neu 8.4.

Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arbennig

9.1 Yn unol â pharagraff 10, rhaid neilltuo ysgol arbennig i grŵp pennaeth yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at gyfanswm addasedig ei sgôr unedau a gyfrifir yn unol â pharagraffau 9.2 i 9.5:

Cyfanswm addasedig sgôr yr unedau	*Grŵp*
Hyd at 2,200	2
2,201 i 3,500	3
3,501 i 5,000	4
5,001 i 7,500	5
7,501 i 11,000	6
11,001 i 17,000	7
17,001 a throsodd	8

9.2 Rhaid i'r corff perthnasol gyfrifo cyfran y staff i'r disgyblion yn yr ysgol, wedi'i mynegi fel canran ("y gymhareb staff-disgybl") yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \quad X \quad 100$$

lle mae A yn cyfateb i nifer yr athrawon a'r staff cymorth wedi'i phwysoli fel y darperir ym mharagraff 9.3, ac mae B yn cyfateb â nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i phwysoli fel y darperir ym mharagraff 9.4.

9.3 Y pwysoliad ar gyfer athro yw dwy uned ar gyfer pob athro cyfwerth â llawn amser, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o staff cymorth yw un uned ar gyfer pob unigolyn cyfwerth ag amser llawn.

9.4 Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn amser yw un uned a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan amser yw hanner uned.

9.5 Rhaid i'r corff perthnasol gyfrifo'r addasydd cymhareb staff-disgybl yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â pharagraff 9.2 - 9.4:

Cymhareb staff-disgybl	***Cymhareb staff-disgybl addasydd***
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

9.6 Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol (CA)	***Unedau fesul disgybl***
I bob disgybl yn y cyfnod rhagarweiniol a phob disgybl yn y cyfnod allweddol cyntaf neu'r ail gyfnod allweddol	10
I bob disgybl yn y trydydd cyfnod allweddol	12
I bob disgybl yn y pedwerydd cyfnod allweddol	14
I bob disgybl yn y pumed cyfnod allweddol	16

9.7 Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm addasedig sgôr unedau'r ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr unedau'r ysgol a bennir yn unol â pharagraff 9.6, gyda'r addasydd cymhareb staff-disgybl a gyfrifir yn unol â pharagraff 9.5.

9.8 Yn y paragraff hwn:

(a) rhaid i nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol gael ei phennu gan y niferoedd fel y'u dangosir yn adroddiad diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion yr Adran Addysg, neu'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i'r Adran Addysg neu Lywodraeth Cymru yn y drefn honno ar ran yr ysgol;

(b) mae "aelod o staff cymorth" yn golygu aelod o staff yr ysgol:

(i) nad yw'n athro;

(ii) nad yw'n rhywun a gyflogir mewn cysylltiad â darparu prydau;

(iii) nad yw'n rhywun a gyflogir mewn cysylltiad â diogelwch neu gynnal a chadw safle'r ysgol; neu

(iv) nad yw'n rhywun a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio disgyblion a gofalu am ddisgyblion y tu allan i oriau ysgol.

Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - achosion arbennig

Newidiadau disgwyliedig yn nifer y disgyblion cofrestredig a sefydliadau addysgu

10.1 Yn amodol ar baragraff 10.2, pan fydd y corff perthnasol yn disgwyl i gyfanswm sgôr unedau yn achos ysgol arferol, neu gyfanswm addasedig sgôr unedau yn achos ysgol arbennig, godi neu ostwng ar ôl y dyddiad y mae'r broses neilltuo yn cyfeirio ato, gall y corff perthnasol neilltuo'r ysgol i'r grŵp priodol a fyddai'n deillio o'r newid disgwyliedig mewn niferoedd.

10.2 Os mai corff llywodraethu ysgol â chyllideb ddirprwyedig yw'r corff perthnasol, ni cheir neilltuo'r ysgol hyd nes yr ymgynghorir â'r awdurdod.

Ysgolion newydd

10.3 Yn amodol ar baragraffau 10.4 a 10.5, yn achos ysgol sydd newydd agor neu ysgol nad yw wedi agor eto, rhaid i'r corff perthnasol neilltuo'r ysgol i'r grŵp sy'n briodol i gyfanswm sgôr unedau yn achos ysgol arferol ac, yn achos ysgol arbennig, i gyfanswm addasedig y sgôr unedau a ddisgwylir gan yr awdurdod neu, yn achos ysgol â chyllideb ddirprwyedig, a ddisgwylir gan y corff llywodraethu ar ôl ymgynghori â'r awdurdod, i fod yn berthnasol heb fod yn llai na phedair blynedd o'r dyddiad agor.

10.4 Rhaid i'r corff perthnasol, yn ôl yr angen, ddiwygio ei neilltuad wrth i'r disgwyliadau y seiliwyd ei gyfrifiad arno newid.

10.5 Os mai corff llywodraethu ysgol â chyllideb ddirprwyedig yw'r corff perthnasol, ni cheir neilltuo'r ysgol hyd nes yr ymgynghorir â'r awdurdod.

Pennu ystod ysgol unigol (YYU) ysgol

11.1 Rhaid i'r corff perthnasol bennu YYU ysgol yn unol â pharagraffau 11.2 i 11.5.

11.2 Rhaid i'r YYU gynnwys saith pwynt colofn olynol o fewn yr ystod a nodir ym mharagraff 7.3 mewn perthynas â grŵp pennaeth yr ysgol ("ystod grŵp pennaeth").

11.3 Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau:

(a) nad yw isafswm yr YYU yn is nag isafswm yr ystod grŵp pennaeth;

(b) bod isafswm yr ystod ysgol unigol o leiaf gyfwerth â'r pwynt uchaf nesaf ar y raddfa grŵp arweinyddiaeth nag uchafswm ystod cyflog unrhyw ddirprwy neu bennaeth cynorthwyol yn yr ysgol;

(c) bod isafswm yr ystod ysgol unigol o leiaf yn gyfwerth â'r pwynt uchaf nesaf ar raddfa'r athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf (a gyfrifir yn unol â pharagraffau 11.6 i 11.9);

a phan fyddai'r penderfyniad ynghylch yr YYU yn is oni bai am is-baragraffau (b) neu (c), rhaid i'r corff perthnasol beidio â'i gosod yn uwch na'r angen er mwyn sicrhau bod isafswm yr ystod ysgol unigol yn uwch nag uchafswm ystod y dirprwy neu'r pennaeth cynorthwyol neu gyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf gymaint ag un pwynt (yn ôl y digwydd).

11.4 Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau na fydd uchafswm yr YYU (pan gaiff ei phennu ar neu ar ôl 1 Medi 2011) yn uwch nag uchafswm ystod grŵp y pennaeth.

11.5 Pan fo'r pennaeth wedi cael ei benodi'n bennaeth ar fwy nag un ysgol o dan drefniant parhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y pennaeth neu, yn unol â'r Rheoliadau Cydlafurio[(3)], y corff sy'n cydweithio, bennu'r YYU drwy gymhwyso cyfanswm sgôr unedau'r holl ysgolion a gyfrifir yn unol â pharagraffau 8, 9 a 10.

11.6 At ddiben pennu'r YYU, ystod cyflog dirprwy bennaeth neu ystod cyflog pennaeth cynorthwyol, rhaid i'r corff perthnasol gyfrifo cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf yn unol â pharagraff 11.7.

11.7 Cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf yw swm:

(a) y cyflog isaf ar yr ystod cyflog uwch (YCU);

(b) gwerth unrhyw CAD a ddyfernir i'r athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf yn yr ysgol yn unol â pharagraff 24;

(c) gwerth unrhyw lwfans AAA a ddyfernir i'r athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf yn yr ysgol yn unol â pharagraff 26.

11.8 Ym mharagraff 11.7, yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf yn yr ysgol yw'r athro dosbarth sy'n cael y cyfanswm uchaf o ran lwfansau, sef cyfanswm unrhyw lwfans CAD neu AAA a ddyfernir.

---

(3) Rheoliadau Llywodraethu (Cydlafurio) Ysgolion (Lloegr) 2003 O.S. 2003/1962 a Rheoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 (2012/2655) (W.287).

11.9 Mae cyfrifiad cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf at ddiben Rhan 2 yn gyfrifiad amcanol ac ni ddylai effeithio ar hawl cyflog athro o'r fath.

Pennu taliadau dewisol i benaethiaid

12.1 Yn amodol ar baragraff 12.2, gall y corff perthnasol benderfynu y bydd pennaeth yn cael taliadau ychwanegol yn unol â pharagraffau 39, 40 a 41 neu yn unol â'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 12.3, ar yr amod nad yw'r corff perthnasol, ym mhob achos, wedi ystyried rheswm neu amgylchiadau o'r fath wrth benderfynu ar YYU yn unol â Dogfen gynharach.

12.2 Yn amodol ar baragraff 12.4, ni ddylai cyfanswm y taliadau a roddir i bennaeth yn unol â pharagraff 12.1 fod yn uwch na 25% o'r swm sy'n cyfateb â phwynt y pennaeth hwnnw ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

12.3 Mae'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 12.1 fel a ganlyn:

(a) pan fo'r ysgol yn ysgol sy'n peri pryder;

(b) heb daliad ychwanegol o'r fath, mae'r corff perthnasol o'r farn y byddai'r ysgol yn cael anhawster sylweddol wrth lenwi swydd wag y pennaeth;

(c) heb daliad ychwanegol o'r fath, mae'r corff perthnasol o'r farn y byddai'r ysgol yn cael anhawster sylweddol wrth gadw gafael ar y pennaeth presennol; neu

(ch) penodir y pennaeth yn bennaeth dros dro un ysgol ychwanegol neu fwy.

12.4 Nid yw paragraff 12.2 yn berthnasol i daliadau ychwanegol a wneir yn unol â:

(a) paragraff 39 lle mae'r dyletswyddau preswyl hynny yn rhan o ofynion y swydd; neu

(b) paragraff 41 i'r graddau ag y mae'r taliad mewn perthynas â threuliau adleoli sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol y pennaeth hwnnw yn unig.

12.5 Gall y corff perthnasol benderfynu y bydd pennaeth yn cael taliadau ychwanegol a fydd yn uwch na'r terfyn a bennwyd ym mharagraff 12.2 mewn amgylchiadau cwbl eithriadol, ac ar ôl sicrhau cytundeb y corff llywodraethu. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol cyn cytuno i'r fath drefniant.

Pennu cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn flynyddol

13.1 At ddiben pennu cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol nad yw'n destun Rheoliadau 2011 na Rheoliadau 2012:

(a) rhaid i'r corff perthnasol a'r dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol geisio cytuno ar amcanion perfformiad sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth a rheolaeth ysgol a chynnydd disgyblion, ac os na fyddant yn cytuno, rhaid i'r corff perthnasol osod amcanion perfformiad o'r fath;

(b) rhaid i'r corff perthnasol werthuso perfformiad y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol gan ystyried yr amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt neu a bennwyd yn unol â pharagraff 13.1(a).

13.2 Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn unol â'r canlynol:

(a) ac eithrio i'r graddau y bydd angen symud i fyny'r golofn cyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yr un faint ag isafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol a bennir ar gyfer yr unigolyn hwnnw yn unol â pharagraff 13 ("ystod cyflog berthnasol y dirprwy bennaeth" neu "ystod cyflog berthnasol y pennaeth cynorthwyol"), ni cheir symud i fyny'r golofn cyflog o gwbl oni bai:

(i) os nad yw'r dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yn destun Rheoliadau 2011 neu Reoliadau 2012, bod gwerthusiad o berfformiad y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol wedi'i gynnal yn unol â pharagraff 13.1(b) ac y cafwyd perfformiad o ansawdd uchel parhaus, gan ystyried yr amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt neu a bennwyd yn unol â pharagraff 13.1(a); neu

(ii) pan fo'r dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yn destun Rheoliadau 2011 neu Reoliadau 2012, cafwyd perfformiad o ansawdd uchel parhaus gan y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol, gan ystyried canlyniadau'r gwerthusiad diweddaraf a gynhaliwyd yn unol â'r Rheoliadau hynny;

(b) wrth wneud unrhyw benderfyniad yn unol â pharagraff (a) yn achos dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol sy'n destun Rheoliadau 2012, rhaid i'r corff perthnasol ystyried unrhyw argymhelliad ynghylch cyflog a gofnodwyd yn adroddiad gwerthuso diweddaraf y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol;

(c) ni chaiff cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol fod yn llai nag isafswm ystod cyflog berthnasol y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol ac ni chaiff fod yn fwy nag uchafswm yr ystod honno;

(ch) ac eithrio i'r graddau y bydd angen symud i fyny'r golofn cyflog er mwyn sicrhau bod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yr un faint ag isafswm ystod cyflog berthnasol y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol, ni cheir cynyddu cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol fwy na dau bwynt yn ystod un flwyddyn ysgol;

(d) pan fydd y corff perthnasol yn codi ystod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol, rhaid cyfrifo unrhyw bwyntiau perfformiad a

ddyfarnwyd gan y corff perthnasol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ar sail yr ystod cyflog is cyn cymhathu cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol ar yr ystod cyflog uwch.

13.3 Pan fyddant yn cael eu penodi i ysgol benodol, rhaid talu cyflog i ddirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol sy'n gyfwerth â'r swm a nodwyd ar gyfer un o'r tri phwynt ar waelod ystod cyflog berthnasol y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol.

Pennu ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol

1.4.1 Rhaid i'r corff perthnasol bennu ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol ar gyfer pob dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn unol â pharagraffau 14.3 i 14.7.

14.2 Rhaid i ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol gynnwys pum pwynt colofn olynol ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth.

14.3 Pan fydd ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn cael ei phennu yn unol â pharagraff 14.1, rhaid i'r corff perthnasol sicrhau nad yw isafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth cynorthwyol yn llai na'r pwynt nesaf ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth uwch ben cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf (a gyfrifir yn unol â pharagraff 11.3) ac nad yw isafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth yn llai na'r pwynt arweinyddiaeth nesaf uwch ben isafswm ystod cyflog y pennaeth cynorthwyol sy'n cael ei dalu fwyaf yn yr ysgol.

14.4 Pan gaiff ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol ei phennu yn unol â pharagraff 14.1, rhaid i'r corff perthnasol sicrhau nad yw uchafswm ystod cyflog y dirprwy bennaeth/pennaeth cynorthwyol yn gyfwerth ag isafswm yr ystod ysgol unigol nac yn fwy na hi. Os oes gan yr ysgol un dirprwy bennaeth neu fwy, ni ddylai uchafswm ystod cyflog y pennaeth cynorthwyol fod yn gyfwerth ag uchafswm ystod cyflog dirprwy bennaeth y dirprwy bennaeth sy'n cael ei dalu leiaf nac yn fwy na hynny.

14.5 Os nad oes digon o le ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth ar gyfer ystod cyflog dirprwy bennaeth o bum pwynt rhwng cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf neu isafswm ystod gyflog pennaeth cynorthwyol ac isafswm yr ystod ysgol unigol, rhaid codi'r ystod ysgol unigol i'r graddau y bydd angen ei chodi er mwyn darparu ar gyfer ystod cyflog y dirprwy bennaeth.

14.6 Os nad oes digon o le ar golofn cyflog y grŵp arweinyddiaeth ar gyfer ystod cyflog pennaeth cynorthwyol o bum pwynt rhwng cyflog yr athro dosbarth sy'n cael ei dalu fwyaf neu ac isafswm yr ystod ysgol unigol er mwyn darparu ar gyfer ystod cyflog dirprwy bennaeth unrhyw ddirprwy bennaeth yn yr ysgol yn unol â pharagraffau 13.1 a 13.2, rhaid codi'r ystod ysgol unigol i'r graddau y bydd angen ei chodi er mwyn darparu ar gyfer ystod cyflog y pennaeth cynorthwyol.

14.7 Yn unol â pharagraffau 13.1 a 13.3, ni chaiff y corff perthnasol bennu ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol ar lefel mor uchel nes bod yn

ofynnol iddo, yn rhinwedd unrhyw un o ddarpariaethau eraill y Ddogfen hon, godi'r ystod ysgol unigol y tu hwnt i uchafswm ystod y grŵp pennaeth.

Rhan 3 - Athrawon Eraill

Dyfarniad Cyflog Medi 2013

(i) Caiff yr athrawon canlynol ddatblygiad cyflog ym mis Medi 2013 yn unol â darpariaethau Dogfen 2012:

- athrawon cymwysedig ar y brif raddfa cyflog;
- athrawon cymwysedig ar yr uwch raddfa cyflog;
- athrawon cymwysedig a gyflogwyd fel Athrawon Sgiliau Uwch a/neu Athrawon Rhagorol ar 31 Awst 2013; neu
- athrawon heb gymhwyso ar y raddfa cyflog i athrawon heb gymhwyso.

(ii) Rhaid i bob penderfyniad cyflog ar gyfer mis Medi 2013 i bob athro **mewn swydd** ar neu ar ôl 1af Medi 2013 hefyd gynnwys y dyfarniad cyflog o 1%.

(iii) Bydd yr holl lwfansau sy'n daladwy o dan Ddogfen 2012 hefyd yn cynyddu 1%.

(iv) Ni fydd y cynnydd o 1% yn gymwys i'r gyfran honno o gyflog unrhyw athro sy'n cynnwys swm wedi'i ddiogelu (er enghraifft, mewn perthynas ag athrawon a gyflogwyd fel ASAau neu ARhau cyn 1 Medi 2013).

(v) Ceir tablau cyflog llawn, gan gynnwys pwyntiau colofn gorfodol wedi'u diweddaru sy'n adlewyrchu'r codiad cyflog o 1%, yn Atodiad 5 o'r Adran hon.

(vi) Pan fydd y penderfyniadau cyflog ar gyfer dyfarniad cyflog mis Medi 2013 wedi'u gwneud, daw paragraffau 15-22 isod yn weithredol a chaiff pob cyfeiriad at godiadau cyflog ac ystodau cyflog yn y Ddogfen hon eu darllen yn unol â hynny.

(vii) Gwneir y datganiad cyflog blynyddol cyntaf a fydd yn ystyried paragraffau 15-22 isod ym mis Medi 2014.

Ystodau cyflog o 1 Medi 2013

15.1 O 1 Medi 2013 mae pedair ystod cyflog ar gyfer athrawon eraill:

(i) y brif ystod cyflog (PYC) ar gyfer athrawon cymwysedig nad oes ganddynt hawl i gael eu talu ar unrhyw ystod cyflog arall;

(ii) yr ystod cyflog uwch (YCU);

(iii) yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain gwelliant sgiliau addysgu;

(iv) yr ystod ar gyfer athrawon heb gymhwyso.

15.2 Daw'r ystodau cyflog hyn, a pharagraffau 16 i 22 o'r Ddogfen hon, yn weithredol o 1af Medi 2013 ac fe'u defnyddir mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau cyflog a wneir ar ôl penderfyniad cyflog blynyddol Medi 2013.

15.3 Rhaid i unrhyw godiad cyflog neu swm a ddiogelir a ddyfernir i athro ar y brif ystod cyflog, yr ystod cyflog uwch, neu'r ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso, yn unol â Rhannau 3 a 4 neu unrhyw symudiad rhwng yr ystodau cyflog hynny fod yn barhaol am gyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi o fewn yr un ysgol, neu yn achos athrawon digyswllt, am gyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi gan yr un awdurdod lleol, ond nad ystyrir fel arall ei fod yn barhaol yn unol â gweithrediad telerau'r Ddogfen hon neu unrhyw Ddogfen gynharach.

Y brif ystod cyflog o 1 Medi 2013

16.1 Rhaid i athro ar y brif ystod cyflog gael cyflog o fewn isafswm ac uchafswm y brif ystod cyflog a nodir isod fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu.

16.2 Mae'r brif ystod cyflog ar gyfer athrawon fel a ganlyn:

Prif Ystod Cyflog ar gyfer Athrawon 2013				
	Cyflog Blynyddol			
	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain) **£**	***Ardal Llundain Fewnol*** **£**	***Ardal Llundain Allanol*** **£**	***Ardal y Cyrion*** **£**
Isafswm	21,804	27,270	25,369	22,853
Uchafswm	31,868	36,751	35,468	32,914

Yr ystod cyflog uwch o 1 Medi 2013

17.1 Rhaid i athro ar yr ystod cyflog uwch gael cyflog o fewn isafswm ac uchafswm yr ystod cyflog uwch a nodir isod fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu. Mae'r ystod cyflog uwch fel a ganlyn:

Ystod Cyflog Uwch 2013				
	Cyflog Blynyddol			
	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain) **£**	***Ardal Llundain Fewnol*** **£**	***Ardal Llundain Allanol*** **£**	***Ardal y Cyrion*** **£**
Isafswm	34,523	41,912	37,975	35,571
Uchafswm	37,124	45,450	40,838	38,173

17.2 **Rhaid** i gorff perthnasol dalu athro ar yr ystod cyflog uwch os:

(a) caiff yr athro ei gyflogi mewn ysgol fel athro ôl-drothwy, tra bo'r athro yn cael ei gyflogi yn yr ysgol honno heb fod unrhyw amharu ar ei gyfnod cyflogaeth;

(b) gwnaeth yr athro gais i gael ei dalu fel athro ôl-drothwy mewn ysgol yn unol â Dogfen 2012, y bu'r cais hwnnw'n llwyddiannus, ac y byddai'r athro yn symud i'r raddfa cyflog uwch yn yr ysgol honno ar 1 Medi 2013;

(c) gwnaeth yr athro gais i ysgol i gael ei dalu ar yr ystod cyflog uwch yn unol â pharagraff 18 o'r Ddogfen hon, y bu'r cais hwnnw'n llwyddiannus, bod yr athro yn dal i gael ei gyflogi yn yr ysgol honno ac ni fu unrhyw amharu ar ei gyfnod cyflogaeth;

(ch) cyflogwyd yr athro fel aelod o grŵp arweinyddiaeth yr ysgol honno, fe'i penodwyd yn y rôl honno gyntaf ar neu ar ôl 1 Medi 2000, a bu mewn swydd neu swyddi o'r fath am flwyddyn neu fwy gyda'i gilydd; neu

(d) cyflogwyd yr athro yn yr ysgol honno fel ASU neu ARh o dan Ddogfen 2012;

ac ni chaiff yr athro a nodwyd yn (a) i (d) ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol nac ar y golofn cyflog ar gyfer y grŵp arweinyddiaeth.

17.3 Yn achos athrawon sy'n cael eu talu ar yr ystod cyflog uwch yn rhinwedd paragraff 17.2 (a), (c), (ch) a (d), rhaid i'r corff perthnasol bennu ble o fewn yr ystod cyflog a nodir ym mharagraff 17.1 y caiff cyflog blynyddol yr athro ei bennu. Yn achos athrawon sy'n cael eu talu ar yr ystod cyflog uwch yn rhinwedd paragraff 17.2(b), gwneir y taliad ar isafswm yr ystod cyflog uwch.

17.4 Gall corff perthnasol dalu athro ar yr ystod cyflog uwch os:

(a) diffinnir yr athro fel "athro ôl-drothwy" ond nis cyflogwyd fel athro ôl-drothwy yn yr ysgol honno o dan Ddogfen gynharach;

(b) gwnaeth yr athro gais i gael ei dalu fel athro ôl-drothwy mewn ysgol arall yn unol â Dogfen 2012, y bu'r cais hwnnw'n llwyddiannus, ac y byddai'r athro yn symud i'r raddfa cyflog uwch ar 1 Medi 2013;

(c) gwnaeth yr athro gais i sefydliad addysgol arall i gael ei dalu ar yr ystod cyflog uwch yn unol â pharagraff 18 o'r Ddogfen hon ac roedd y cais hwnnw'n llwyddiannus; neu

(ch) cafodd yr athro ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn flaenorol.

Cais i gael cyflog ar yr ystod cyflog uwch

18.1 Gall athrawon cymwysedig wneud cais i gael eu talu ar yr ystod cyflog uwch (YCU) o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol â pholisi cyflog yr ysgol. Bydd cyrff

perthnasol yn asesu unrhyw gais o'r fath a dderbynnir ac yn gwneud penderfyniad, yn unol â'u polisi cyflog, ynghylch p'un a yw'r athro'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff 18.2. Pan fo athrawon yn ddarostyngedig i reoliadau 2011 neu reoliadau 2012, bydd y corff perthnasol yn ystyried yr asesiadau a'r argymhellion yn adroddiadau arfaru athrawon yn unol â'r rheoliadau hynny.

18.2 Bydd ffurflen gais gan athro cymwysedig yn llwyddiannus pan fydd y corff perthnasol yn fodlon:

(a) bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol;

(b) bod cyflawniadau a chyfraniad yr athro i sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol a pharhaus.

18.3 Bydd y polisi cyflog yn nodi'r broses o asesu ceisiadau ac egluro sut y bydd y corff perthnasol yn dehongli'r meini prawf ym mharagraff 18.2.

18.4 Gall athro cymwysedig hefyd wneud cais i'r corff perthnasol yn unol â pharagraff 20 o Ddogfen 2012, ar yr amod bod:

(a) yr athro yn ddarostyngedig i Reoliadau 2012;

(b) yr athro ar bwynt M6 ym mlwyddyn ysgol 2012/2013;

(c) gwneir y cais erbyn 31 Hydref 2013.

18.5 Mae unrhyw benderfyniad a wneir yn unol â pharagraff 18 ond yn gymwys i gyflogaeth yn yr un ysgol neu yn achos athrawon digyswllt yr un awdurdod lleol.

Yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol o 1 Medi 2013

19.1 Mae'r paragraff hwn yn gymwys i athrawon cymwysedig sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi y mae'r corff perthnasol wedi penderfynu sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu.

19.2 Ar gyfer unrhyw swydd o'r fath, bydd y corff perthnasol yn penderfynu yn unol â'i bolisi cyflog ar ystod swydd unigol o fewn yr ystod cyflog cyffredinol yn y paragraff hwn. Gall y corff perthnasol benderfynu y gellid talu swyddi gwahanol yn yr un ysgol ar ystodau swydd unigol gwahanol o fewn yr un ystod cyflog cyffredinol.

19.3 Bydd y corff perthnasol yn penderfynu ble, o fewn yr ystod swydd unigol ar gyfer y swydd benodol honno, y caiff pob athro a gwmpesir gan y paragraff hwn ei dalu. Mae'r ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol fel a ganlyn:

Ystod Cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol 2013				
	Cyflog Blynyddol			
	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain)	***Ardal Llundain Fewnol***	***Ardal Llundain Allanol***	***Ardal y Cyrion***
	£	**£**	**£**	**£**
Isafswm	37,836	44,986	40,838	38,878
Uchafswm	57,520	64,677	60,525	58,565

Ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2013

20.1. Rhaid i athro heb gymhwyso gael cyflog o fewn isafswm ac uchafswm yr ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso a nodir isod fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu. Mae'r ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso fel a ganlyn:

Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso 2013				
	Cyflog Blynyddol			
	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain)	***Ardal Llundain Fewnol***	***Ardal Llundain Allanol***	***Ardal y Cyrion***
	£	**£**	**£**	**£**
Isafswm	15,976	20,092	18,977	17,025
Uchafswm	25,267	29,379	28,272	26,313

Athro heb gymhwyso yn dod yn athro cymwysedig

21.1 Wrth sicrhau statws athro cymwysedig yn unol â rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 132 o'r Ddeddf[(4)] rhaid trosglwyddo athro heb gymhwyso i gyflog o fewn y brif ystod cyflog ar gyfer athrawon ym mharagraff 16. Pan fydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi gan yr un ysgol lle y cafodd ei gyflogi cyn iddo sicrhau statws athro cymwysedig (SAC) rhaid talu cyflog sydd yr un fath neu uwchlaw swm y cyflog sy'n daladwy yn unol â pharagraff 20.1 ac unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â pharagraff 28 (gan gynnwys unrhyw swm a ddiogelir sy'n daladwy yn unol â pharagraff 28.3), a ystyrir yn briodol gan y corff perthnasol.

(4) O.S. 2003/1662 mewn perthynas â Lloegr ac O.S. 2012/724 mewn perthynas â Chymru.

21.2 Rhaid i athro sy'n sicrhau SAC mewn ffordd ôl-weithredol yn unol â'r rheoliadau hynny gael cyfandaliad gan y corff perthnasol a oedd yn gyfrifol am ei dalu ar yr adeg pan sicrhaodd SAC.

21.3 Rhaid i'r cyfandaliad sy'n daladwy yn unol â pharagraff 21.2 fod y gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng y tâl a dalwyd i'r athro mewn gwirionedd fel athro heb gymhwyso a'r cyflog (heb gynnwys unrhyw lwfansau) y byddai'r athro wedi'i gael fel athro cymwysedig, o'r dyddiad y sicrhaodd SAC i bob pwrpas hyd at y dyddiad pan delir y cyfandaliad.

Datblygiad cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad

22.1 Rhaid i'r corff perthnasol ystyried bob blwyddyn p'un a fydd yn cynyddu cyflog athrawon sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y penderfyniad cyflog blynyddol blaenorol ac, os felly, i ba gyflog o fewn yr ystodau cyflog perthnasol a nodir ym mharagraffau 16-20.

22.2 Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sut y pennir y datblygiad cyflog, yn amodol ar y canlynol:

(a) rhaid i'r penderfyniad ynghylch p'un ai i ddyfarnu datblygiad cyflog ai peidio fod yn gysylltiedig â pherfformiad yr athro, fel yr aseswyd drwy drefniadau gwerthuso'r ysgol neu'r awdurdod yn unol â rheoliadau 2011 yng Nghymru neu reoliadau 2012 yn Lloegr;

(b) rhaid gwneud argymhelliad ar gyflog yn ysgrifenedig fel rhan o adroddiad gwerthuso'r athro, a rhaid i'r corff perthnasol ystyried yr argymhelliad hwn wrth wneud ei benderfyniad;

(c) pan nad yw athro'n ddarostyngedig i reoliadau 2011 na rheoliadau 2012, rhaid i'r corff perthnasol benderfynu pa broses a ddefnyddir i asesu perfformiad yr athro a gwneud argymhelliad cyflog at ddibenion gwneud ei benderfyniad, heblaw yn achos athrawon newydd gymhwyso (ANGau), y mae'n rhaid i'r corff perthnasol wneud penderfyniad mewn perthynas â hwy drwy'r broses ymsefydlu statudol a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005[(5)] neu Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012;[(6)]

(ch) rhaid gallu priodoli penderfyniadau ynghylch cyflog yn glir i berfformiad yr athro dan sylw;

(d) dylai perfformiad da parhaus fel y'i diffinnir gan bolisi cyflog ysgol unigol olygu y gall athro dosbarth neu athro heb gymhwyso ddisgwyl datblygu i frig ei ystod cyflog perthnasol;

(dd) gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad p'un a yw'r athro yn destun gweithrediadau galluogrwydd ai peidio.

---

(5) O.S. 2008/657, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1115.
(6) O.S. 2005/1818, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1675.

22.3 Rhaid i'r corff perthnasol nodi'n glir ym mholisi cyflog yr ysgol sut y pennir datblygiad cyflog, yn unol â pharagraff 22.2.

Athrawon Siartredig Llundain (ASLlau)

23.1 Rhaid i athro cymwysedig sy'n bwriadu ymgeisio am statws Athro Siartredig Llundain (ASLl) gofrestru ei fwriad i wneud hynny gyda'r Ysgrifennydd Gwladol neu gydag unigolyn neu gorff y mae modd i'r Ysgrifennydd Gwladol ei benodi at y diben hwnnw.

23.2 Er mwyn cofrestru, rhaid bod yr athro wedi'u cyflogi gan awdurdod neu gorff llywodraethu yn Ardal Llundain Fewnol neu Allanol.

23.3 Caiff athro cymwysedig sydd wedi cofrestru ei fwriad i wneud cais am statws ASLl wneud cais unwaith mewn blwyddyn ysgol i'r corff perthnasol am statws ASLl os bodlonir y gofynion ym mharagraff 23.4.

23.4 Mae'r gofynion, ar ddyddiad y cais, fel a ganlyn-

(a) bod yr athro wedi cwblhau o leiaf bedair blynedd o gyflogaeth mewn swydd addysgu neu bennaeth addysgu mewn academi, coleg technoleg dinas, coleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau, ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol yn Ardal Llundain Fewnol neu Allanol ac yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd fel athro gydag awdurdod neu gorff llywodraethu yn Ardal Llundain Fewnol neu Allanol;

(b) bod dwy flynedd wedi mynd heibio ers cofrestru'r bwriad i wneud cais;

(c) bod yr athro'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, yn aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, yn cael ei dalu ar yr ystod cyflog uwch, yn bodloni'r diffiniad o "athro ôl-drothwy", neu'n ASU neu'n ARh yn unol â Dogfen gynharach.

23.5 At ddibenion paragraff 23.4 mae "blwyddyn o gyflogaeth" a'r amgylchiadau cymhwyso sy'n gysylltiedig ag absenoldeb o'r gwaith wedi'u diffinio yn Atodiad 4.

23.6 Ac eithrio pan fo'r ymgeisydd yn athro digyswllt neu'n bennaeth, rhaid i'r corff perthnasol ddirprwyo'r gwaith o asesu'r cais i'r pennaeth.

23.7 Os yw'r ymgeisydd yn athro digyswllt, rhaid i'r corff perthnasol ddirprwyo'r gwaith o asesu'r cais i rywun sy'n gyfrifol am reoli'r ymgeisydd.

23.8 Rhaid i'r ymgeisydd gael ei asesu yn erbyn y safonau a nodir yn Atodiad 2 ac os penderfynir bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r holl safonau yn ystod y cyfnod rhwng cofrestru'r bwriad i wneud cais a gwneud y cais, rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu statws ASLl i'r ymgeisydd a thalu swm o £1000 i'r ymgeisydd yn ystod yr yn flwyddyn ysgol.

Rhan 4 - Lwfansau

Lwfansau i athrawon dosbarth

Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD)

24.1 Gall y corff perthnasol ddyfarnu CAD1 neu CAD2 i athro dosbarth am ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol parhaus yng nghyd-destun ei strwythur staffio er mwyn sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu cyflenwi a bod yr athro'n gyfrifol am hyn. Gallai'r dyfarniad fod tra bydd yr athro'n parhau yn yr un swydd neu'n llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, yn unol â pharagraff 3 a pharagraffau 24.2 a 24.3, ac yn amodol arnynt.

24.2. Ar ôl penderfynu dyfarnu CAD, rhaid i'r corff perthnasol bennu a yw'n mynd i ddyfarnu CAD cyntaf ("CAD1") neu ail CAD ("CAD2"), a'i werth, yn unol â'i bolisi cyflog, ar yr amod-

(a) na chaiff gwerth blynyddol CAD1 fod yn llai na £7,397 nac yn fwy na £12,517;

(b) na chaiff gwerth blynyddol CAD2 fod yn llai na £2,561 nac yn fwy na £6,259;

(c) os bydd y corff perthnasol yn dyfarnu CAD o wahanol werthoedd blynyddol i ddau athro neu fwy, y gwahaniaeth lleiaf yn y gwerth blynyddol fydd £1,500 rhwng pob dyfarniad CAD1 a £1,500 rhwng pob dyfarniad CAD2.

24.3 Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu trydydd CAD (CAD3) tymor penodol i athro drosbarth ar gyfer prosiectau gwella ysgol â therfyn amser clir, neu gyfrifoldebau allanol untro. Ni chaiff gwerth blynyddol CAD3 unigol fod yn llai na £505 nac yn fwy na £2,525. Dylid sefydlu hyd y tymor penodol o'r dechrau a dylid gwneud taliad bob mis dros gyfnod y tymor penodol. Er na all athro feddu ar CAD1 a CAD2 ar yr un pryd, gall athro sydd â CAD1 neu CAD2 hefyd feddu ar CAD3 ar yr un pryd.

24.4 Ac eithrio is-baragraffau (c) a (d) nad oes raid iddynt fod yn gymwys er mwyn dyfarnu CAD3, cyn dyfarnu unrhyw CAD, rhaid i'r corff perthnasol fod yn fodlon bod dyletswyddau'r athro yn cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol gan bob athro dosbarth a'i fod:

(a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;

(b) yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol;

(c) yn mynnu bod yr athro yn arwain, yn rheoli ac yn datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu'n arwain ac yn rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;

(ch) yn effeithio ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw'r dosbarthiadau neu'r

grwpiau o ddisgyblion a neilltuwyd i'r athro;

(d) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arfer addysgu staff eraill.

24.5 Yn ogystal, cyn dyfarnu CAD1, rhaid i'r corff perthnasol fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 24.2 yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl.

Diogelu CAD

25.1 Yn unol â pharagraff 25.2, os bydd y corff perthnasol yn pennu ("y penderfyniad"), boed hynny yn sgil newid ei bolisi talu neu newid strwythur staffio'r ysgol, naill ai:

(a) na fydd y dyletswyddau y dyfarnwyd CAD1 neu CAD2 i athro ar eu cyfer yn cynnwys y cyfrifoldeb sylweddol y'i dyfarnwyd ar ei gyfer mwyach; neu

(b) bod y cyfrifoldeb y dyfarnwyd CAD1 neu CAD2 i athro ar ei gyfer (os yw hwn wedi newid neu beidio) yn haeddu, yn unol â'i bolisi cyflog a'i strwythur staffio, lwfans o werth blynyddol is ("y taliad newydd");

rhaid iddo dalu'r swm a ddiogelir. Nid yw CAD3au yn cael eu diogelu.

25.2 Ni chaiff CAD1au na CAD2au a ddyfernir i athrawon a gyflogir o dan gontract tymor penodol neu tra byddant yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, ar ôl i'r contract tymor penodol ddod i ben nac ar ôl y dyddiad neu'r amgylchiadau (os bydd y rhain yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw) yr hysbyswyd yr athro yn eu cylch yn unol â pharagraff 3.4(c)(iii).

25.3 Y swm a ddiogelir yw gwerth yr hen lwfans neu pan gaiff lwfans newydd o werth is ei ddyfarnu'r un pryd ag y caiff yr hen lwfans ei ddileu, y gwahaniaeth rhwng gwerth yr hen lwfans a gwerth y lwfans newydd.

25.4 Cyn pen mis o ddyddiad y penderfyniad, rhaid i'r corff perthnasol hysbysu'r athro yn ysgrifenedig am:

(a) y rheswm dros y penderfyniad;

(b) y dyddiad y bydd yr hen daliad yn dod i ben ac, os yw'n berthnasol, y dyddiad y bydd y taliad newydd yn effeithiol;

(c) gwerth cyflog yr athro yn union cyn y gwneir y penderfyniad, heb gynnwys y swm a ddiogelir;

(ch) y swm a ddiogelir;

(d) y dyddiad y daw'r cyfnod diogelu i ben, a bennir yn unol â pharagraff 4.6;

(dd) (i) pan delir y swm wedi'i ddiogelu mewn perthynas â CAD a ddyfernir i athro a gyflogir o dan gontract tymor penodol, y dyddiad y bydd y

contract tymor penodol hwnnw a'r trefniant i dalu'r swm a ddiogelir, yn dod i ben; neu

(ii) pan delir y swm wedi'i ddiogelu mewn perthynas â CAD a ddyfernir i athro tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, y dyddiad neu'r amgylchiadau (os byddant yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw) yr hysbyswyd yr athro yn eu cylch yn unol â pharagraff 3.4(c)(iii) pan fydd y dyfarniad a'r trefniadau i dalu'r swm a ddiogelir yn dod i ben;

(e) ymhle y mae modd gweld copi o strwythur staffio a pholisi cyflog yr ysgol.

25.5 Yn unol â pharagraffau 4.1 i 4.5 a pharagraffau 25.6 a 25.7, rhaid talu'r swm a ddiogelir i'r athro:

(a) (i) hyd at pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben.

(ii) pan delir y swm a ddiogelir mewn perthynas â CAD a ddyfarnwyd i athro a gyflogir o dan gontract tymor penodol, hyd at y dyddiad y daw'r contract tymor penodol hwnnw i ben; neu

(iii) pan delir y swm a ddiogelir mewn perthynas â CAD a ddyfernir i athro tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, nes y dyddiad neu'r amgylchiadau (os byddant yn digwydd cyn y dyddiad hwnnw) yr hysbyswyd yr athro yn eu cylch yn unol â pharagraff 4.4(c)(iii);

(b) hyd at yr adeg nad yw'r athro yn athro dosbarth mwyach;

(c) hyd at pan ddyfernir CAD i'r athro o ganlyniad i benderfyniad dilynol gan y corff perthnasol sy'n gyfwerth â gwerth cyfunol y taliad newydd (os o gwbl) a'r swm a ddiogelir, neu'n fwy na'r gwerth hwnnw;

(ch) hyd at pan ddyfernir cyflog i'r athro sydd, o'i gyfuno â gwerth unrhyw daliad newydd, yn gyfwerth â gwerth cyfunol y cyflog gwreiddiol a'r swm a ddiogelir, neu'n fwy na'r gwerth hwnnw; neu

(d) hyd at pan ddaw cyflogaeth yr athro yn yr ysgol i ben ac eithrio mewn amgylchiadau y mae paragraff 33 neu 34 yn berthnasol iddynt;

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

25.6 Rhaid tynnu gwerth unrhyw CAD dilynol a ddyfernir i'r athro gan y corff perthnasol o bryd i'w gilydd o'r swm a ddiogelir ac, os bydd y CAD dilynol yn cael ei ddyfarnu i athro tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, ei adfer pan ddaw cyfnod y dyfarniad hwnnw i ben, heblaw bod unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir ym mharagraff 25.5 yn digwydd yn y cyfamser.

25.7 Rhaid rhoi'r gorau i dalu'r swm a ddiogelir tra bydd yr athro, yn absenoldeb deiliad swydd, mewn swydd fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, neu sy'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, neu swydd sy'n denu CAD sydd gyfwerth â gwerth y swm a ddiogelir neu'n fwy na'r swm hwnnw. Rhaid adfer yr arfer o dalu'r swm a ddiogelir wedyn, heblaw bod unrhyw un o'r

digwyddiadau a nodir ym mharagraff 25.5 yn digwydd yn y cyfamser.

Lwfans anghenion addysgol arbennig (AAA)

26.1 Mae lwfans AAA heb fod yn llai na £2,022 a heb fod yn fwy na £3,994 y flwyddyn yn daladwy i athro dosbarth yn unol â'r paragraff hwn.

26.2 Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu lwfans AAA i athro dosbarth:

(a) mewn unrhyw swydd AAA sy'n mynnu cymhwyster AAA gorfodol[7];

(b) mewn ysgol arbennig;

(c) sy'n addysgu disgyblion mewn un dosbarth neu uned arbennig ddynodedig neu fwy mewn ysgol neu, yn achos athro digyswllt, mewn uned neu wasanaeth awdurdod lleol;

(ch) mewn unrhyw leoliad nad yw'n ddynodedig (gan gynnwys unrhyw Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)) sy'n cyfateb i ddosbarth neu uned arbennig ddynodedig, lle bydd y swydd:

(i) yn cynnwys elfen sylweddol o weithio'n uniongyrchol gyda phlant ag AAA;

(ii) yn mynnu bod athro'n arfer barn a sgiliau proffesiynol wrth addysgu plant ag AAA;

(iii) yn ymwneud yn fwy ag addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig nag sy'n ofyniad arferol i athrawon drwy'r ysgol gyfan neu'r uned yn yr ysgol neu, yn achos athro digyswllt, yr uned neu'r gwasanaeth.

26.3 Pan delir lwfans AAA, rhaid i'r corff perthnasol bennu gwerth y lwfans ar y pryd, gan ystyried strwythur darpariaeth AAA yr ysgol a'r ffactorau canlynol:

(a) a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd;

(b) cymwysterau neu arbenigedd yr athro sy'n berthnasol i'r swydd;

(c) gofynion cymharol y swydd.

26.4 Yn ei bolisi talu, rhaid i'r corff perthnasol nodi'r trefniadau ar gyfer gwobrwyo athrawon dosbarth y mae ganddynt gyfrifoldebau AAA.

Lwfans sy'n daladwy i athrawon heb gymhwyso

27.1 Rhaid i'r corff perthnasol bennu lwfans ychwanegol o fath ag y bydd yn ei ystyried yn briodol i'w dalu i athro heb gymhwyso lle y bydd yn ystyried, yng

(7) Rheoliadau Cymwysterau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003 a Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999.

nghyd-destun ei strwythur staffio a'i bolisi cyflog, bod yr athro:

(a) wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol parhaus sydd:-

(i) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;

(ii) yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol; neu

(b) yn meddu ar gymwysterau neu brofiad sy'n dod â gwerth ychwanegol i'r rôl yr ymgymerir â hi.

Diogelu lwfans athrawon heb gymhwyso

28.1 Pan fydd y corff perthnasol yn penderfynu, mewn perthynas ag athro heb gymhwyso sy'n cael lwfans, p'un a yw o ganlyniad i newid i'w bolisi cyflog neu i strwythur staffio'r ysgol:

(a) nad yw dyletswyddau'r athro bellach yn cynnwys y cyfrifoldeb ychwanegol y dyfarnwyd y lwfans ar ei gyfer ac, felly, y dylai'r lwfans ddod i ben;

(b) mae'r cyfrifoldeb ychwanegol y dyfarnwyd y lwfans ar ei gyfer bellach yn haeddu taliad lwfans is ("y lwfans newydd"); neu

(c) nad yw dyletswyddau'r athro bellach yn cynnwys y cyfrifoldeb ychwanegol y dyfarnwyd y lwfans ar ei gyfer ond eu bod yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol gwahanol sy'n haeddu taliad lwfans is ("y lwfans newydd");

rhaid iddo dalu'r swm a ddiogelir i'r athro.

28.2 Y swm a ddiogelir yn achos unrhyw athro y cyfeirir ato yn:

(a) paragraff 28.1(a) yw gwerth y lwfans yr oedd gan yr athro hawl i'w gael yn union cyn y gwnaed y penderfyniad i'w ddileu;

(b) paragraff 28.1(b) neu (c) yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth y lwfans yr oedd gan yr athro hawl i'w gael yn union cyn y gwnaed y penderfyniad i ostwng y lwfans a gwerth y lwfans newydd.

28.3 Rhaid tynnu gwerth unrhyw lwfans dilynol a ddyfernir i'r athro gan y corff perthnasol o bryd i'w gilydd o'r swm a ddiogelir ac, os bydd y lwfans dilynol yn cael ei ddyfarnu i athro tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, ei adfer pan ddaw cyfnod y lwfans hwnnw i ben, heblaw bod unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir ym mharagraff 28.5 yn digwydd yn y cyfamser.

28.4 Pan fydd swm a ddiogelir yn daladwy yn unol â pharagraff 28.2, rhaid i'r corff perthnasol hysbysu'r athro yn ysgrifenedig, o fewn mis i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, o:

(a) y rheswm dros y penderfyniad;

(b) y swm a ddiogelir;

(c) y dyddiad y caiff lwfans yr athro ei ddileu'n gyfan gwbl neu ei ddisodli â lwfans is newydd, yn ôl y digwydd;

(ch) pan ddyfarnwyd yr hen lwfans am gyfnod penodol, y dyddiad y daw'r cyfnod penodol i ben;

(d) pan ddyfarnwyd yr hen lwfans i athro a gyflogwyd o dan gontract tymor penodol, y dyddiad y daw'r contract tymor penodol hwnnw i ben;

(dd) y dyddiad y daw'r cyfnod diogelu i ben (a bennir yn unol â pharagraff 4.6);

(e) gwerth y cyflog yn union cyn y gwnaed y penderfyniad am gyflog yr athro heb gymhwyso yn unol â pharagraff 20.1 gan ystyried y penderfyniad blynyddol sy'n ofynnol yn unol â pharagraff 3.1 ("y cyflog gwreiddiol");

(f) manylion ble y mae modd gweld copi o strwythur staffio a pholisi cyflog yr ysgol.

28.5 Yn unol â pharagraffau 4.1 i 4.5, rhaid talu'r swm a ddiogelir i'r athro:

(a) yn achos athro y telir y swm a ddiogelir iddo yn unol â pharagraff 28.2, hyd at y dyddiad pan ddaw'r cyfnod a ddiogelir i ben (a bennir yn unol â pharagraff 4.6);

(b) pan ddyfarnwyd y lwfans am gyfnod penodol, hyd at y dyddiad y daw'r cyfnod penodol i ben;

(c) pan ddyfarnwyd y lwfans i athro a gyflogwyd o dan gontract tymor penodol, hyd at y dyddiad y daw'r contract tymor penodol hwnnw i ben;

(ch) hyd at y dyddiad pan nad yw'r athro yn athro heb gymhwyso mwyach;

(d) hyd at y dyddiad y dyfernir lwfans i'r athro o ganlyniad i benderfyniad dilynol gan y corff perthnasol sy'n gyfwerth â gwerth cyfunol y lwfans newydd (os o gwbl) a'r swm a ddiogelir;

(dd) hyd at y dyddiad y rhoddir yr athro ar gyflog uwch ar yr ystod cyflog a nodir ym mharagraff 20.1 a gwerth cyfunol y cyflog hwnnw ac unrhyw daliad newydd sydd gyfwerth â gwerth cyfunol cyflog gwreiddiol yr athro a'r swm a ddiogelir, neu'n fwy na'r gwerth hwnnw; neu

(e) hyd at y dyddiad pan ddaw cyflogaeth yr athro yn yr ysgol i ben, ac eithrio mewn amgylchiadau y mae paragraff 34 yn berthnasol iddynt,

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

28.6 Yn y paragraff hwn, mae unrhyw gyfeiriad at lwfans yn gyfeiriad at lwfans sy'n daladwy yn unol â'r paragraff hwn

Lwfans dros dro

29.1 Yn unol â pharagraff 29.6, pan fydd athro wedi cael ac yn cyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, ond heb gael eu penodi'n bennaeth, yn ddirprwy bennaeth neu'n bennaeth cynorthwyol dros dro, rhaid i'r corff perthnasol bennu, cyn pen cyfnod o bedair wythnos a fydd yn cychwyn ar y diwrnod y caiff dyletswyddau o'r fath eu rhoi a'u cyflawni gyntaf, a oes yn rhaid talu lwfans neu beidio yn unol â'r darpariaethau canlynol ("lwfans dros dro").

29.2 Os bydd y corff perthnasol yn penderfynu, fel y cyfeirir ato yn is-baragraff 29.1, na thelir lwfans dros dro i'r athro, ond bod yr athro'n parhau i gael a chyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol (a heb gael ei benodi'n bennaeth, yn ddirprwy bennaeth neu'n bennaeth cynorthwyol dros dro), gall y corff perthnasol wneud penderfyniad pellach, ar unrhyw adeg ar ôl y penderfyniad hwnnw, ynghylch a oes yn rhaid talu lwfans dros dro neu beidio.

29.3 Os bydd y corff perthnasol yn pennu bod yn rhaid talu lwfans dros dro i'r athro, yn amodol ar baragraff 29.4, rhaid i'r swm gyfateb i'r swm sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr athro'n cael tâl sy'n gyfwerth â phwynt o'r fath ar golofn gyflog y grŵp arweinyddiaeth a nodir ym mharagraff 5.4, a ystyrir yn briodol gan y corff perthnasol.

29.4 Ni chaiff tâl athro sy'n cael ac sy'n cyflawni dyletswyddau pennaeth fod yn is nag isafswm yr ystod ysgol unigol, a phan fydd athro'n cael ac yn cyflawni dyletswyddau dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol a bod ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol wedi'i phennu mewn perthynas â'r swydd honno (yn ôl y digwydd), ni chaiff y tâl fod yn is nag isafswm yr ystod honno.

29.5 Gellir talu lwfans dros dro i'r athro, yn effeithiol o'r diwrnod neu'r diwrnod ar ôl iddo gael a chyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol am y tro cyntaf, fel y pennir gan y corff perthnasol.

29.6 Pan delir lwfans i athro yn unol â'r paragraff hwn, cyhyd ag y bydd y lwfans hwnnw yn cael ei dalu:

(a) pan fydd yr athro'n cael ac yn cyflawni dyletswyddau pennaeth, mae Rhan 9 yn berthnasol fel pe bai'r athro wedi'i benodi i swydd pennaeth, ac ni fydd paragraffau 49.1 i 51.16 yn berthnasol;

(b) pan fydd yr athro'n cael ac yn cyflawni dyletswyddau dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, mae paragraff 49 yn berthnasol fel pe bai'r athro wedi'i benodi i swydd dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol, ac ni fydd paragraff 51 yn berthnasol.

Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad

30.1. Pan fydd:

(a) athro wedi'i secondio dros dro i swydd pennaeth mewn ysgol sy'n peri gofid, ac nid honno yw lle gwaith arferol yr athro;

(b) corff perthnasol yr ysgol honno o'r farn bod yr athro'n haeddu pwynt neu bwyntiau ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r perfformiad o ansawdd uchel parhaus trwy gydol y secondiad,

gall y corff perthnasol hwnnw dalu cyfandaliad i'r athro, sy'n gyfwerth â'r pwynt neu'r pwyntiau ychwanegol ar ystod ysgol unigol yr ysgol honno, os na fyddai'r athro fel arall yn cael gwerth llawn y pwynt neu'r pwyntiau o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn dychwelyd i'r ysgol wreiddiol.

Rhan 5 - Atodol

Pennu graddfa neu ystod cyflog berthnasol

31.1 Pan fydd athro a gyflogir o dan gontract y mae'n ofynnol iddo weithio yn Ardal Llundain fel arfer, yn gorfod gweithio yn rhywle arall dros dro, rhaid parhau i'w dalu yn unol â'r raddfa neu'r ystod cyflog sy'n berthnasol i fan cyflogaeth arferol yr athro.

31.2 Rhaid parhau i dalu athro a oedd yn cael ei dalu'n unol ag un o raddfeydd neu ystodau cyflog Ardal Llundain ar 31 Awst 2013, yn unol â'r raddfa neu'r ystod cyflog honno er na fyddai'r athro'n gallu ei hawlio fel arall yn unol â darpariaethau'r Ddogfen hon, cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau yn y swydd sydd ganddo ar y dyddiad hwnnw.

31.3 Gellir parhau i dalu athro sy'n symud allan o Ardal Llundain Fewnol yn unol ag ystod cyflog Llundain Fewnol, cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi fel athro mewn swydd lle mae'r un awdurdod yn talu'r cyflog.

31.4 Gellir parhau i dalu athro sy'n symud allan o Ardal Llundain Allanol, i unrhyw le ond Ardal Llundain Fewnol, ar ystod Ardal Llundain Allanol ar y gyfradd sy'n cael ei thalu cyn symud, cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi fel athro mewn swydd lle mae'r un awdurdod yn talu'r cyflog.

31.5 Gellir parhau i dalu athro sy'n symud allan o Ardal y Cyrion, i unrhyw le ac eithrio Ardal Llundain Fewnol neu Ardal Llundain Allanol, ar ystod Ardal y Cyrion, cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi fel athro mewn swydd lle mae'r un awdurdod yn talu'r cyflog.

Athrawon digyswllt

32.1 Rhaid pennu tâl athro digyswllt yn unol â pha ddarpariaethau bynnag o'r Ddogfen hon y mae'r corff perthnasol o'r farn eu bod yn briodol yn amgylchiadau'r achos, gan ystyried ei bolisi cyflog a swydd benodol yr athro o fewn y strwythur staffio.

32.2 Pan fydd tâl athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion, yn unol â pharagraff 3, yn cael ei bennu yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i bennaeth, mae Rhan 6 yn berthnasol, ac nid yw paragraffau 49.1-51.14 yn berthnasol.

32.3 Pan fydd tâl athro digyswllt (ac eithrio athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion), yn unol â pharagraff 32.1, yn cael ei bennu yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, nid yw paragraffau 49-52 yn berthnasol ac mae'n rhaid i'r athro a'r corff perthnasol gytuno ar amodau cyflogaeth yr athro mewn perthynas â dyletswyddau proffesiynol ac oriau gwaith.

Diogelu cyffredinol sy'n berthnasol i athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005

33.1 Yn amodol ar baragraffau 33.7 i 33.10:

33.2 oherwydd-

(a) cau neu ad-drefnu sefydliad addysgol; neu

(b) cyfarwyddyd sy'n gysylltiedig â chwrs hyfforddi athrawon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 3(2) o Reoliadau Addysg Bellach 1975[8], yn unol â rheoliad 15 neu 16 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach) 1981[9] neu yn unol â rheoliad 12 neu 13 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Addysg Uwch) 1989[10],

pan fydd athro (gan gynnwys athro mewn addysg bellach neu addysg uwch) yn colli swydd, ac yn cael ei gyflogi fel athro o dan drefniant llawn amser ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005 er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd (boed hynny mewn ysgol neu beidio) mewn swydd lle mae'r tâl yn cael ei dalu gan yr un awdurdod ag o'r blaen, rhaid ystyried bod yr athro, at bob diben cyflog, yn parhau i fod yn y swydd a oedd ganddo, a'i fod yn gallu hawlio unrhyw lwfans i athrawon heb gymhwyso (paragraff 29) yr oedd ganddo'r hawl i'w gael yn syth cyn y cau, yr ad-drefnu neu'r cyfarwyddyd.

33.3 pan fydd athro o'r fath, mewn amgylchiadau ac eithrio'r rhai y soniwyd amdanynt ym mharagraff 33.2, yn colli swydd ac yn cael ei gyflogi fel athro o dan drefniant llawn amser ar neu cyn 31ain Rhagfyr 2005 er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd mewn swydd (boed hynny mewn ysgol neu beidio) lle mae'r tâl yn cael ei dalu gan yr un awdurdod ag o'r blaen, gellir barnu bod yr athro, yn unol â disgresiwn yr awdurdod, at bob diben cyflog, yn parhau i ddal y swydd a ddaliwyd, a bod ganddo'r hawl i gael unrhyw lwfans i athrawon heb gymhwyso yr oedd ganddo'r hawl i'w gael yn syth cyn i'r amgylchiadau ddigwydd; ac ni chaff yr awdurdod wrthod arfer ei ddisgresiwn mewn ffordd afresymol mewn perthynas â'r mater hwn, o blaid yr athro.

33.4 yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 33.2 neu 33.3, pan fydd athro llawn amser o'r fath neu athro o'r fath mewn cyflogaeth ran amser reolaidd yn colli swydd yn y fath amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 33.2, ac yn cael ei gyflogi gyda hynny fel y nodwyd yn y ddarpariaeth honno ond fel athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd, mae'r athro (yn unol, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 33.3, â'r un disgresiwn i'w weithredu mewn modd tebyg) yn gallu hawlio'r gyfran honno o'r cyflog a'r lwfans i athrawon heb gymhwyso yr oedd ganddo'r hawl i'w gael yn syth cyn y newid perthnasol mewn amgylchiadau y mae'r gyflogaeth ran amser yn ei golygu i gyflogaeth llawn amser.

33.5 Mae gan athro y diogelir ei dâl yn unol â'r paragraff hwn yr hawl i gael lwfans dros dro (paragraff 29), ond dim ond pan fydd hynny'n briodol i amgylchiadau cyflogaeth bresennol yr athro.

33.6 Yn unol â pharagraff 33.7, mae'r cyflog i'w ddiogelu yn unol â pharagraff 30.1 i 33.4 yn golygu-

---

(8) O.S. 1975/1054; di-rymwyd gan O.S. 1983/74 a 1986/541.
(9) O.S. 1981/1086; di-rymwyd rheoliadau 15 a 16 gan O.S. 1999/3181.
(10) O.S. 1989/351; di-rymwyd rheoliadau 12 a 13 mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2004/571.

(a) unrhyw gyflog neu lwfans, ac eithrio'r rhai a ddyfarnwyd ar gyfer tymor penodol y cytunwyd arno, yr oedd yr athro'n ei gael yn union cyn i'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 30.1 i 33.4 godi;

(b) unrhyw swm a ddiogelir y mae gan yr athro'r hawl i'w gael yn unol â pharagraff 35, ond dim ond i'r graddau y mae'r paragraff perthnasol yn darparu ar gyfer parhau i dalu'r swm hwnnw.

33.7 Pan fydd aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, yn cynnwys y rheini a delir ar y raddfa a arferai fod ar gyfer athrawon sgiliau uwch, yn syth cyn i amgylchiadau y sonnir amdanynt ym mharagraffau 33.2 neu 33.3 godi, yn cael ei dalu ar bwynt ar golofn gyflog y grŵp arweinyddiaeth yn unol â pharagraff 5 o'r Ddogfen hon neu golofn cyflog athro sgiliau uwch yn unol â pharagraff 26 o Ddogfen 2012, rhaid i'r aelod neu'r athro hwnnw barhau i gael ei dalu ar y pwynt hwnnw (yn unol â'r un disgresiwn yn yr amgylchiadau y sonnir amdanynt ym mharagraff 33.3).

33.8 Os bydd tâl a ddiogelir yr athro yn unol â'r paragraff hwn yn mynd £500 neu ragor yn uwch na'r tâl y byddai gan yr athro'r hawl i'w gael fel arall yn unol â'r Ddogfen hon, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a neilltuir i'r athro a dyrannu dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhesymol iddo farnu eu bod yn briodol ac yn gymesur â'r tâl a ddiogelir.

33.9 Ni fydd paragraffau 33.2 i 33.4 yn berthnasol neu, yn ôl y digwydd, ni fydd yn berthnasol, yn achos athro:

(a) sydd ar unrhyw adeg yn cael cynnig swydd arall mewn sefydliad addysgol a gynhelir gan yr awdurdod sy'n talu cyflog yr athro, ond yn gwrthod derbyn y cynnig mewn ffordd afresymol;

(b) os yw'r tâl sy'n daladwy yn rhinwedd paragraffau eraill y Ddogfen hon yn gyfwerth â'r tâl sy'n daladwy yn unol â'r paragraff hwn neu'n fwy nag ef;

(c) sy'n cael ei roi ar bwynt ar raddfa neu ystod cyflog gwahanol, ond nid yw hyn yn berthnasol i athro dosbarth pan gaiff ei roi gyntaf ar ystod cyflog a nodir ym mharagraff 17 neu i athro y mae penderfyniad a wnaed gan gorff perthnasol yn unol â pharagraff 34.11 yn effeithio arno; neu

(ch) y mae ei gyflogaeth yn dod i ben ac eithrio yn yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'r paragraff hwn.

33.10 At ddibenion y paragraff hwn-

(a) mae "sefydliad addysgol" yn golygu sefydliad yng Nghymru a Lloegr sydd:

(i) yn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch a gynhelir neu a gynorthwyir gan awdurdod;

(ii) yn ysgol;

(iii) yn ganolfan athrawon; neu

(iv) sefydliad (ac eithrio ysgol), lle y darperir addysg gynradd neu

uwchradd gan awdurdod;

(b) mae “swydd grŵp arweinyddiaeth” yn golygu swydd pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol;

(c) mae “tâl” yn golygu cyflog ac unrhyw lwfansau ond nid yw’n cynnwys unrhyw swm sy’n cael ei dalu yn unol â pharagraffau 39, 40 a 41;

(ch) mae "cyflog" yn golygu:

(i) yn achos athro ysgol, y cyflog sy’n daladwy yn unol â pharagraffau 5, 16, 17 ac 20 gan gynnwys unrhyw lwfans sy’n daladwy yn unol â pharagraff 26,

(ii) yn achos athro mewn addysg bellach neu addysg uwch, cyflog sylfaenol yr athro ac eithrio pob lwfans;

(d) mae ysgol yn cael ei had-drefnu lle yr oedd neu'n cael ei had-drefnu yn unol â chynigion a wnaed yn unol ag adran 28 neu 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[(11)] neu gynigion y cyfeirir atynt yn rheoliad 14 o Reoliadau Addysg (Trosglwyddo i Fframwaith Newydd) (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) 1999[(12)];

(dd) mae’n rhaid diystyru unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb dros gynnal a chadw sefydliad.

Diogelu cyffredinol sy’n berthnasol i athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006

34.1 Mae’r paragraff hwn yn berthnasol i athro sy’n colli swydd (“yr hen swydd”) o ganlyniad i:

(a) dirwyn ysgol i ben;

(b) newid penodedig i ysgol, neu ad-drefnu ysgol; neu

(c) cau neu ad-drefnu unrhyw sefydliad neu wasanaeth addysgol arall;

ac sydd wedyn yn dechrau swydd newydd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006 (“y swydd newydd”) ac yn cael ei gyflogi gan yr un awdurdod neu mewn ysgol a gynhelir gan yr un awdurdod, ac yn achos athro ym mharagraff (b), mae'r swydd newydd mewn ysgol wahanol.

34.2 Ym mharagraff 34.1(b), mae “newid penodedig” yn golygu newid sy’n cael ei ragnodi gan Reoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Lloegr) 1999,[(13)] Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999,[(14)] neu Reoliadau Ad-drefnu Ysgolion (Newidiadau Penodedig i Ysgolion a Gynhelir)

(11) 1998 (c.31) fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf, Deddf Addysg 2005 (c.18) a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (c.40).
(12) O.S. 1999/704.
(13) O.S. 1999/2213; di-rymwyd a disodlwyd gan O.S. 2007/1288.
(14) O.S. 1999/1671, diwygiwyd gan O.S. 2004/908 ac O.S. 2006/173.

(Lloegr) 2007[15].

Ailbennu cyflog

34.3. Rhaid i'r corff perthnasol benderfynu ar y canlynol mewn perthynas â'r athro:

(a) y cyflog sy'n berthnasol i'r athro yn y swydd newydd, yn unol â pharagraffau perthnasol y Ddogfen hon ("y cyflog newydd"); ac os bydd yr athro'n cael ei osod, o ganlyniad, ar gyflog o werth is na'r hyn oedd yn cael ei dalu yn yr hen swydd ("yr hen gyflog"), rhaid talu swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hen gyflog a'r cyflog newydd ("y swm cyntaf a ddiogelir") ar ddyddiad gweithredu'r penderfyniad, i'r athro hefyd;

(b) unrhyw CAD sy'n berthnasol i'r swydd newydd yn unol â pharagraff 24 ac mae gan yr athro'r hawl i gael swm a ddiogelir ("yr ail swm a ddiogelir") o ran y gwahaniaeth rhwng gwerth y CAD hwnnw a gwerth unrhyw CAD o werth uwch a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd neu, os na fydd CAD o gwbl yn cael ei ddyfarnu yn unol â'r paragraff hwn, o ran y CAD a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd;

(c) unrhyw lwfans AAA sy'n berthnasol i'r swydd newydd yn unol â pharagraff 26; ac mae gan yr athro'r hawl i gael swm a ddiogelir ("y trydydd swm a ddiogelir") o ran y gwahaniaeth rhwng gwerth y lwfans anghenion AAA hwnnw a gwerth unrhyw lwfans AAA o werth uwch a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd neu, os na fydd lwfans AAA o gwbl yn cael ei ddyfarnu yn unol â'r paragraff hwn, o ran y lwfans AAA a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd;

(ch) yn achos athro heb gymhwyso, unrhyw lwfans sy'n daladwy yn unol â pharagraff 27 mewn perthynas â'r swydd newydd; ac mae gan yr athro'r hawl i gael swm a ddiogelir ("y pedwerydd swm a ddiogelir") o ran y gwahaniaeth rhwng gwerth y lwfans hwnnw a gwerth unrhyw lwfans o'r fath o werth uwch a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd neu, os na ddyfernir unrhyw lwfans yn unol â'r paragraff hwn, o ran y lwfans a dalwyd mewn perthynas â'r hen swydd;

(d) gwerth unrhyw lwfansau eraill sy'n daladwy yn unol â'r Ddogfen hon.

Lleihau gwerth y symiau a ddiogelir

34.4 Rhaid tynnu gwerth unrhyw CAD neu lwfans AAA a ddyfernir i'r athro gan y corff perthnasol o bryd i'w gilydd i ffwrdd o'r swm cyntaf a ddiogelir a, phan fydd athro'n cael CAD1 neu 2 tra bydd yn llenwi swydd arall yn absenoldeb deiliad y swydd honno, neu CAD3, ei adfer pan ddaw cyfnod y dyfarniad hwnnw i ben, oni bai bod unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir ym mharagraff 34.7 yn digwydd yn y cyfamser.

34.5 Os bydd y corff perthnasol, wedi hyn, yn dyfarnu CAD o werth uwch na'r CAD a

(15) O.S. 2007/1289.

ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 34.3(b), rhaid tynnu gwerth y CAD neu swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y ddau CAD i ffwrdd o'r ail swm a ddiogelir, yn ôl y digwydd.

34.6 Os bydd y corff perthnasol, wedi hyn, yn dyfarnu lwfans AAA i'r athro, neu un o werth uwch na'r lwfans AAA a ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 34.3(c), rhaid tynnu gwerth y lwfans AAA neu swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y ddau lwfans i ffwrdd o'r trydydd swm a ddiogelir, yn ôl y digwydd.

34.7 Os bydd y corff perthnasol, wedi hyn, yn dyfarnu lwfans i'r athro yn unol â pharagraff 27, neu un o werth uwch na'r lwfans a ddyfarnwyd yn unol â pharagraff 34.3(ch), rhaid tynnu gwerth y lwfans neu swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y ddau lwfans i ffwrdd o'r pedwerydd swm a ddiogelir, yn ôl y digwydd.

Diwedd diogelu

34.8 Yn unol â pharagraff 4, rhaid i'r corff perthnasol dalu i'r athro y symiau a ddiogelir y mae gan yr athro'r hawl i'w cael yn unol â pharagraff 34.8:

(a) hyd at y dyddiad pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben, sef trydydd pen-blwydd y dyddiad y dechreuodd yr athro weithio yn y swydd newydd;

(b) hyd nes caiff yr athro ei roi ar gyflog ar ystod cyflog gwahanol, ond nid yw hyn yn berthnasol i athro dosbarth pan gaiff ei osod gyntaf ar ystod cyflog a nodir ym mharagraff 17 nac i athro y mae penderfyniad a wnaed gan gorff perthnasol yn unol â pharagraff 35 wedi effeithio arno;

(c) hyd at pan ddaw cyflogaeth yr athro i ben ac eithrio mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i'r paragraff hwn; neu

(ch) hyd nes caiff yr athro ei osod ar bwynt uwch ar yr ystod cyflog, neu'n cael ei roi gyntaf ar ystod cyflog a nodir ym mharagraff 17 a bod gwerth y cyflog hwnnw'n gyfwerth â gwerth cyfunol yr hen gyflog ac unrhyw un neu ragor o'r symiau a ddiogelir, neu'n fwy na'r swm hwnnw, ac os felly, rhaid rhoi'r gorau i dalu'r symiau hynny a ddiogelir;

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Symiau a ddiogelir presennol sy'n cael eu cadw a buddiannau recriwtio a chadw a ddiogelir

34.9 Yn unol â pharagraff 4.6, yn ogystal ag unrhyw symiau y mae gan yr athro'r hawl i'w cael yn unol â pharagraff 34.8, rhaid talu i'r athro:

(a) unrhyw symiau a ddiogelir y mae gan yr athro'r hawl i'w cael o hyd yn unol â pharagraffau 25 a 35, hyd nes bod hawl o'r fath yn dod i ben mewn amgylchiadau a nodir yn y paragraffau hynny;

(b) unrhyw fudd neu gymhelliad recriwtio neu gadw yr oedd gan yr athro'r hawl i'w cael yn unol â pharagraff 41 yn yr hen swydd, hyd naill ai:

(i) diwedd y cyfnod penodol y'i dyfarnwyd ar ei gyfer; neu

(ii) nes bod yr athro'n cael cymhelliad neu fudd recriwtio neu gadw gwahanol yn ei le,

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Hysbysiad am benderfyniad

34.10. Wrth hysbysu'r athro o'i benderfyniad yn unol â pharagraff 3.3, rhaid i'r corff perthnasol gynnwys manylion ynghylch gwerth y cyflog, y lwfansau a'r holl symiau a ddiogelir yr oedd gan yr athro'r hawl i'w cael mewn perthynas â'r hen swydd ac y mae gan yr athro'r hawl i'w cael mewn perthynas â'r swydd newydd, ac o ran symiau a ddiogelir a delir yn unol â'r paragraff hwn neu yn unol â pharagraffau 25, 28 neu 35, y dyddiad y daw'r cyfnod diogelu i ben.

Athrawon rhan amser

34.11. P'un a oedd yr athro'n athro llawn amser neu'n athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd cyn colli swydd, os caiff ei gyflogi wedyn fel y nodir ym mharagraff 34.1 fel athro mewn cyflogaeth ran amser reolaidd, rhaid talu cyfran i'r athro o'r tâl y byddai wedi bod â'r hawl i'w gael pe byddai wedi cael ei gyflogi fel athro llawn amser, a gyfrifir yn unol â pharagraff 36-37.

Diogelu i aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, cyn athrawon sgiliau uwch ac athrawon rhagorol a'r rheini ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

35.1 Ac eithrio pan fo paragraff 33 yn berthnasol ac yn unol â pharagraff 35.4, mae'r paragraff hwn yn berthnasol pan fydd y corff perthnasol yn penderfynu ("y penderfyniad), p'un a yw hynny o ganlyniad i newid yn ei bolisi talu neu yn strwythur staffio'r ysgol-

(a) gostwng nifer yr aelodau yn y grŵp arweinyddiaeth;

(b) lleihau neu ad-drefnu nifer yr athrawon a delir ar yr ystod ar gyfer ymarferwyr arweiniol;

(c) adleoli athro a arferai gael ei gyflogi fel ASU neu ARh i rôl wahanol a byddai hyn yn arwain at leihau cyflog yr athro hwnnw;

(ch) gostwng yr ystod ysgol unigol, a byddai hyn yn arwain at leihau cyflog y pennaeth;

(d) gostwng ystod cyflog dirprwy bennaeth, a byddai hyn yn arwain at leihau cyflog y dirprwy bennaeth;

(dd) gostwng ystod cyflog pennaeth cynorthwyol, a byddai hyn yn arwain at leihau cyflog y pennaeth cynorthwyol;

(e) gostwng ystod cyflog athro a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr

arweiniol, a byddai hyn yn arwain at leihau cyflog yr athro hwnnw.

35.2 Rhaid talu'r swm a ddiogelir i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, athro a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, cyn ASU neu gyn ARh y lleihawyd ei gyflog o ganlyniad i weithredu'r penderfyniad neu o ddiwedd y dynodiadau ar gyfer athrawon sgiliau uwch ac athrawon rhagorol.

35.3 Yn achos athro y mae penderfyniad ym mharagraff 35.1 (a) i (c) yn effeithio arno, y swm a ddiogelir yw'r gwahaniaeth rhwng y cyflog gwreiddiol (gan gynnwys gwerth unrhyw bwyntiau perfformiad a ddyfernir gan y corff perthnasol ar gyfer y flwyddyn flaenorol) a gwerth y cyflog newydd, wedi'i gyfuno ag unrhyw CAD neu lwfans AAA a ddyfernir.

35.4 Yn achos athro y mae penderfyniad ym mharagraffau 35.1(ch) i 1(e) yn effeithio arno, y swm a ddiogelir yw'r gwahaniaeth rhwng y cyflog gwreiddiol (gan gynnwys gwerth unrhyw bwyntiau perfformiad a ddyfernir gan y corff perthnasol ar gyfer y flwyddyn flaenorol) a gwerth y cyflog ar yr ystod cyflog newydd.

35.5 Rhaid i'r corff perthnasol, cyn pen mis (ac ar ôl gwneud y penderfyniad blynyddol sy'n ofynnol yn unol â pharagraff 3.1), roi hysbysiad ysgrifenedig i athro y gallai neu y mae'r penderfyniad am y ffaith honno yn effeithio arno, ac am:

(a) y rheswm dros y penderfyniad;

(b) y dyddiad y bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu mewn perthynas â'r athro hwnnw (os yw'n hysbys);

(c) y dyddiad pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben (a bennir yn unol â pharagraff 4.6) neu, yn achos athro a gyflogir fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, athro a gaiff ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol neu a arferai gael ei gyflogi fel athro sgiliau uwch neu fel athro rhagorol am gyfnod penodol neu o dan gontract tymor penodol, y dyddiad neu'r amgylchiadau a fydd yn dod â'r cyfnod penodol hwnnw neu'r contract tymor penodol hwnnw i ben a'r trefniant o dalu'r swm a ddiogelir i ben;

(ch) y cyflog gwreiddiol;

(d) y swm a ddiogelir neu, os bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu yn nes ymlaen ac nid yw ei union effaith ar yr athro yn hysbys eto, yr uchafswm y mae modd lleihau'r cyflog gwreiddiol;

(dd) ymhle y mae modd darllen copi o bolisi cyflog a strwythur staffio'r ysgol.

35.6 Yn unol â pharagraffau 4.1 i 4.5 a pharagraff 35.7; rhaid talu'r swm a ddiogelir i'r athro:

(a) nes bod y cyfnod diogelu yn dod i ben neu, yn achos athro a gyflogir fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, athro ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol neu a arferai gael ei gyflogi fel athro sgiliau uwch neu athro rhagorol am gyfnod penodol neu o dan gontract tymor penodol, y dyddiad y daw'r cyfnod penodol neu'r contract tymor penodol hwnnw i ben;

(b) yn achos athro y mae penderfyniad ym mharagraffau 35.1(a) i (c) yn effeithio arno):

(i) hyd at yr adeg pan na fydd yr athro yn athro dosbarth mwyach;

(ii) hyd nes bod yr athro, o ganlyniad i benderfyniad dilynol gan y corff perthnasol, yn cael ei osod ar gyflog uwch ar yr ystod cyflog a nodir ym mharagraff 16, 17 neu 19, neu hyd nes y bydd ganddo'r hawl i gael ei dalu ar yr ystod cyflog arweinyddiaeth am y tro cyntaf, a bod gwerth y pwynt hwnnw ynghyd ag unrhyw CAD neu lwfans AAA a ddyfernir, yn gyfwerth â chyflog gwreiddiol yr athro neu'n fwy nag ef; neu

(iii) hyd nes bydd yr athro, o ganlyniad i benderfyniad dilynol gan y corff perthnasol, yn cael CAD neu lwfans AAA neu'r ddau, a bod gwerth cyfunol y taliad neu'r lwfans hwnnw a'r cyflog newydd yn gyfwerth â chyflog gwreiddiol yr athro neu'n fwy nag ef;

(c) yn achos athro y mae penderfyniad yn is-baragraffau 35.1(ch) i 1(dd) wedi effeithio arno, hyd nes bod gwerth pwynt yr athro ar y golofn gyflog arweinyddiaeth, neu ei safle ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, yn gyfwerth â chyflog gwreiddiol yr athro neu'n fwy nag ef; neu

(ch) tan bod cyflogaeth yr athro yn yr ysgol yn dod i ben ac eithrio mewn amgylchiadau y mae paragraff 33 neu 34 yn sôn amdanynt,

pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

35.7 Rhaid rhoi'r gorau i dalu'r swm a ddiogelir tra bydd yr athro'n llenwi swydd fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth neu'n cyflawni dyletswyddau athro sy'n cael ei dalu ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn absenoldeb deiliad y swydd honno, ond ei adfer wedyn, oni bai bod unrhyw un o'r digwyddiadau a nodir ym mharagraff 35.6 yn digwydd yn y cyfamser.

35.8 Yn y paragraff hwn mae "cyflog gwreiddiol" yn golygu:

(a) yn achos aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, gwerth y pwynt ar y golofn cyflog arweinyddiaeth yr oedd gan yr athro'r hawl i'w gael yn syth cyn gweithredu'r penderfyniad;

(b) yn achos cyn-ASU, gwerth y pwynt ar y golofn gyflog i ASUau ym mharagraff 27.1 o Ddogfen 2012 yr oedd gan yr athro'r hawl i'w gael yn syth cyn gweithredu'r penderfyniad;

(c) yn achos cyn-ARh, y cyflog yr oedd gan yr athro'r hawl i'w gael yn syth cyn gweithredu'r penderfyniad;

(ch) yn achos athro ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, y cyflog yr oedd gan yr athro'r hawl i'w gael yn syth cyn gweithredu'r penderfyniad,

gan ystyried unrhyw benderfyniad blynyddol a wnaed yn unol â pharagraff 3.1

ond nad yw wedi cael ei weithredu eto.

Athrawon rhan amser - Dehongli

36.1 Yn y paragraff hwn:

mae “egwyddor ar gyfartaledd” yn golygu’r gyfran honno o gyfanswm y tâl sy’n cyfateb gyda nifer yr oriau y mae’r athro’n cael ei gyflogi yn y swydd honno yn ystod wythnos amserlen addysgu’r ysgol, fel cyfran o gyfanswm yr oriau yn wythnos amserlen addysgu’r ysgol; (ac at y diben hwn, mae “cyfanswm y tâl” yn golygu’r tâl a fyddai’n daladwy i’r unigolyn hwnnw pe byddai'n cael eu cyflogi yn yr un swydd o dan drefniant llawn amser);

mae “wythnos amserlen addysgu’r ysgol” yn golygu’r cyfnod o amser crynswth yn amserlen yr ysgol pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu fel arfer.

36. 2 Pan fydd yn ofynnol i gorff perthnasol bennu cyflog athro rhan amser yn unol â’r egwyddor pro rata, rhaid iddo wneud hynny nid yn unig mewn perthynas â’r oriau hynny y mae athro rhan amser yn eu gweithio fel arfer o dan y contract cyflogaeth, ond hefyd, mewn perthynas ag unrhyw oriau ychwanegol y gallai’r athro gytuno i’w gweithio o bryd i’w gilydd ar gais y pennaeth neu, os yw’r athro rhan amser yn bennaeth, ar gais y corff perthnasol.

Pennu tâl athrawon rhan amser

37.1 Rhaid pennu cyflog ac unrhyw lwfansau, ar wahân i CAD3au, athro rhan amser yn unol â'r egwyddor pro rata.

Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd

38.1 Rhaid i athrawon a gyflogir o ddydd i ddydd neu fel arall ar fyr rybudd gael eu talu yn unol â darpariaethau’r Ddogfen hon ar sail ddyddiol, a gyfrifir gan dybio bod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 195 diwrnod, a bydd cyfnodau cyflogaeth sy’n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.

38.2 Os yw paragraff 38.1 yn berthnasol i athro a’i fod yn cael ei gyflogi gan yr un awdurdod trwy gydol cyfnod o 12 mis yn cychwyn ym mis Awst neu fis Medi, ni chaiff fwy o dâl am y cyfnod hwnnw nag y byddai wedi ei gael pe bai’n athro mewn cyflogaeth reolaidd trwy gydol y cyfnod.

Dyletswyddau preswyl

39.1. Rhaid i unrhyw daliad i athrawon am ddyletswyddau preswyl gael ei bennu gan y corff perthnasol.

Taliadau ychwanegol

40.1 Yn unol â pharagraff 40.2, gall y corff perthnasol wneud taliadau o'r fath sy'n addas yn ei farn ef i athro, gan gynnwys pennaeth, mewn perthynas â:

(a) datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei gyflawni y tu allan i'r diwrnod ysgol;

(b) gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon fel rhan o weithgarwch arferol yr ysgol;

(c) cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu y tu allan i oriau ysgol, y cytunwyd arno rhwng yr athro a'r pennaeth neu, yn achos y pennaeth, rhwng y pennaeth a'r corff perthnasol;

(ch) cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol oherwydd, neu mewn perthynas â, darparu gwasanaethau gan y pennaeth sy'n ymwneud â chodi safonau addysgol i un neu fwy o ysgolion ychwanegol.

40.2 Nid yw paragraff 40.1(ch) yn berthnasol i sefyllfa lle mae pennaeth yn darparu gwasanaethau i ysgol ac mae'r pennaeth wedi cael ei benodi i'r ysgol o dan drefniant parhaol yn unol â pharagraff 11.5 neu o dan drefniant dros dro.

Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff

41.1 Yn unol â pharagraff 41.2, caiff y corff perthnasol a'r awdurdod, os mai hwn yw cyflogwr yr athro digyswllt, wneud taliadau o'r fath neu roi cymorth ariannol, cefnogaeth neu fuddiannau eraill i athro sy'n angenrheidiol yn ei farn ef fel cymhelliad er mwyn recriwtio athrawon newydd a chadw athrawon presennol yn eu swydd.

41.2 Pan fydd y corff perthnasol neu'r awdurdod, os mai hwn yw cyflogwr yr athro digyswllt, yn gwneud un neu fwy o daliadau o'r fath, neu'n rhoi cymorth ariannol, cefnogaeth neu fuddiannau o'r fath mewn un achos neu fwy, rhaid i'r corff perthnasol neu'r awdurdod gynnal adolygiad ffurfiol o bob dyfarniad o'r fath. Dylai'r corff perthnasol neu'r awdurdod nodi'n glir o'r cychwyn hyd disgwyliedig unrhyw gymhellion a buddiannau o'r fath, a dyddiad yr adolygiad sy'n dynodi pryd y gellir eu dileu.

Lwfans ffi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

42.1 Rhaid i'r corff perthnasol dalu'r swm o £33 y flwyddyn i athro y mae'n ofynnol iddo gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, am y ffi gofrestru flynyddol, os bydd gofyn i'r athro hwnnw dalu ffi o'r fath.

42.2 Cyn gwneud penderfyniad yn unol â pharagraff 42.1, rhaid i'r corff perthnasol gymryd camau rhesymol i fodloni ei hun nad yw'r athro wedi cael taliad am y flwyddyn honno o dan y ddarpariaeth honno gan unrhyw gorff perthnasol arall.

42.3 Rhaid i awdurdod lleol, ar gais, gymryd camau rhesymol i roi gwybodaeth i gorff perthnasol ynghylch a yw athro sy'n cael neu sydd wedi cael ei gyflogi mewn ysgol neu fel athro digyswllt o fewn yr awdurdod hwnnw, wedi cael taliad yn unol â pharagraff 42.1.

42.4 Nid yw paragraffau 36-37 o'r Ddogfen hon yn berthnasol i'r lwfans hwn.

Trefniadau aberthu cyflog

43.1 At ddibenion y paragraff hwn, mae'r term "trefniant aberthu cyflog" yn golygu unrhyw drefniant sy'n golygu bod yr athro yn ildio'r hawl i gael rhan o'i gyflog gros, yn gyfnewid am gytundeb y cyflogwr i ddarparu budd o fath arall yn unol ag unrhyw un o'r cynlluniau canlynol:

(a) taleb gofal plant neu gynllun budd-dal gofal plant arall;

(b) cynllun beic neu offer diogelwch beiciwr; neu

(c) cynllun ffôn symudol;

bod y budd hwnnw o fath arall wedi'i eithrio o dreth incwm[16].

43.2 Pan fo'r cyflogwr yn gweithredu trefniant aberthu cyflog, caiff yr athro gyfranogi mewn unrhyw drefniant o'r fath ac mae modd lleihau cyflog gros yr athro yn unol â hynny tra bydd y cyfranogiad hwnnw'n parhau.

43.3 Nid yw cymryd rhan mewn unrhyw drefniant aberthu cyflog yn cael unrhyw effaith ar y penderfyniad ynghylch unrhyw swm a ddiogelir y gallai'r athro ei hawlio yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddogfen hon.

[16] Mae Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (2003 c.1) yn darparu nad oes unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â threth incwm yn codi o ran darparu unrhyw rai o'r buddion hyn o fath arall i gyflogai, lle y bodlonir yr amodau penodedig.

Rhan 6 – Fframwaith Cytundebol ar gyfer Athrawon

Cyflwyniad

44.1 Mae'r adran hon yn nodi'r fframwaith cytundebol y mae pob athro, gan gynnwys penaethiaid, yn gweithredu ynddo. Yn ogystal, mae'n cynnwys cyfrifoldebau lefel uchel i bob athro a phennaeth a'u hawliau statudol.

44.2 Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn y Ddogfen hon yn mynd yn groes i Gyfarwyddeb Cyngor 93/104/EC, 23 Tachwedd 1993, ynghylch agweddau penodol ar drefnu oriau gwaith[17].

Penaethiaid – prif ofynion

45.1 Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn amodol ar y canlynol:

(a) darpariaethau pob deddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996 a'r Ddeddf;

(b) unrhyw orchmynion a rheoliadau sy'n effeithiol yn unol â'r ddeddfwriaeth gymwys ac yn benodol Deddf Addysg 1996 a'r Ddeddf;

(c) offeryn llywodraethu ysgol y pennaeth;

(ch) os yw'n ysgol wirfoddol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol arbennig sefydledig, unrhyw ddogfen ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'r ysgol;

(d) unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan yr awdurdod yn unol ag adran 48 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. [18]

45.2 Rhaid i ddyletswyddau pennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r canlynol ac yn amodol ar y canlynol:

(a) yn achos ysgol y mae ganddi gyllideb ddirprwyedig:

(i) unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaed gan y corff llywodraethu ac y mae'r corff hwnnw yn gyfrifol amdanynt;

(ii) unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaed gan yr awdurdod o ran materion nad yw'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt;

(b) mewn unrhyw achos arall, unrhyw reolau, rheoliadau neu bolisïau a wnaed gan gyflogwyr y pennaeth;

---

(17) O.J. Rhif.L307, 13.12.93 t.18 a weithredwyd gan Reoliadau Oriau Gwaith 1998 (O.S. 1998/1833).

(18) 1998 (c.31) fel y'i diwygiwyd gan adran 40 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf a chan adran 57 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (c. 40).

(c) amodau penodi'r pennaeth.

Dirprwyo

46.1 Ni cheir dirprwyo cyfrifoldebau proffesiynol pennaeth yn unol â pharagraff 47.16 ac eithrio yn unol â pharagraff 49.2.

46.2 Yn unol â pharagraff 46.1, gellir dirprwyo cyfrifoldebau pennaeth i ddirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol neu aelod arall o staff mewn modd sy'n cyd-fynd â'u hamodau cyflogaeth, gan ystyried natur a graddau eu cyfrifoldebau rheoli, a chan gynnal cydbwysedd rhesymol i bob athro rhwng gwaith a wneir yn yr ysgol a gwaith a wneir rywle arall.

Cyfrifoldebau proffesiynol

47.1 Efallai y bydd yn ofynnol i bennaeth gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan

47.2 Darparu arweinyddiaeth strategol gyffredinol a, gydag eraill, arwain, datblygu a chefnogi cyfeiriad strategol, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol.

47.3 Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol .

Addysgu

47.4 Arwain a rheoli'r addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol gyfan, gan gynnwys sicrhau, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bod athro'n cael ei neilltuo yn amserlen yr ysgol i bob dosbarth neu grŵp o ddisgyblion:

(a) yn y cyfnod allweddol cyntaf, ac yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol, ar gyfer pynciau craidd a sylfaen ac addysg grefyddol;

(b) yn y cyfnod rhagarweiniol.

47.5 Addysgu.

Lechyd, diogelwch a disgyblaeth

47.6 Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion a staff.

47.7 Sicrhau trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion a staff.

Rheoli staff ac adnoddau

47.8 Arwain, rheoli a datblygu gweithlu'r ysgol, gan gynnwys gwerthuso a rheoli perfformiad.

47.9 Trefnu a lleoli adnoddau yn yr ysgol.

47.10 Hyrwyddo perthnasoedd gwaith cytûn yn yr ysgol.

47.11 Cynnal cysylltiadau gyda sefydliadau sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o weithlu'r ysgol.

47.12 Arwain a rheoli gweithlu'r ysgol gan ystyried eu lles a'u disgwyliadau dilys mewn ffordd briodol, gan gynnwys y disgwyliad ynghylch cydbwysedd iach rhwng gwaith ac ymrwymiadau eraill.

Datblygiad proffesiynol

47.13 Hyrwyddo cyfranogiad staff mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

47.14 Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, perfformiad athrawon eraill a staff cymorth.

47.15 Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

Ystod cyflog uwch

47.16 Cynghori'r corff perthnasol p'un a ddylai athro yn yr ysgol sy'n gymwys i gael ei dalu ar yr ystod cyflog uwch gael ei dalu ar yr ystod honno.

Cyfathrebu

47.17 Ymgynghori a chyfathrebu gyda'r corff llywodraethu, staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

47.18 Cydweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol, gan gynnwys cyrff ac asiantaethau allanol perthnasol.

Hawliau a Roddwyd

48.1 Yn ogystal â darpariaethau paragraff 51, mae'r hawliau canlynol yn gymwys:

Amser penodedig i benaethiaid

48.2 Mae hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain.

Egwyl ddyddiol

48.3 Mae gan bennaeth yr hawl i egwyl resymol yn ystod pob diwrnod ysgol, ac mae'n rhaid iddo drefnu bod rhywun addas yn gyfrifol am gyflawni ei swyddogaethau fel pennaeth yn ystod yr egwyl honno.

Athrawon – Cyfrifoldebau Proffesiynol

Dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol

49.1 Rhaid i rywun a benodir yn ddirprwy bennaeth neu'n bennaeth cynorthwyol mewn ysgol, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau proffesiynol athro ac eithrio'r pennaeth, gan gynnwys y dyletswyddau penodol hynny sy'n cael eu neilltuo gan y pennaeth:

- gyflawni rôl bwysig dan gyfarwyddyd cyffredinol y pennaeth wrth:

  (a) llunio nodau ac amcanion yr ysgol;

  (b) pennu'r polisïau er mwyn cyflawni'r rhain;

  (c) rheoli staff ac adnoddau i'r perwyl hwnnw;

  (ch) monitro cynnydd tuag at eu cyflawni.

- cyflawni unrhyw un o ddyletswyddau proffesiynol y pennaeth a ddirprwyir iddo mewn ffordd resymol gan y pennaeth.

49.2 Os bydd y pennaeth yn absennol o'r ysgol, rhaid i ddirprwy bennaeth gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol i'r graddau ag sy'n ofynnol gan y pennaeth neu'r corff perthnasol neu, yn achos ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, y corff llywodraethu.

Athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

50.1. Ac eithrio lle y nodir yn wahanol yn y Ddogfen hon, mae gan athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yr un cyfrifoldebau proffesiynol ac maent yn cael budd o'r un hawliau a roddir â phob athro arall, ac eithrio'r pennaeth. Fodd bynnag, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'w rôl yn modelu ac yn arwain gwelliant mewn sgiliau addysgu yn nisgrifiadau swyddi unigol athrawon o'r fath.

Athrawon nad ydynt yn bennaeth

51.1 Efallai y bydd yn ofynnol i athro (ac eithrio'r pennaeth) gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

Addysgu

51.2 Cynllunio ac addysgu gwersi a dilyniannau gwersi i'r dosbarthiadau y caiff ei neilltuo i'w haddysgu yng nghyd-destun cynlluniau, cwricwlwm a chynlluniau gwaith yr ysgol.

51.3 Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion a neilltuwyd.

51.4 Cymryd rhan mewn trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol.

Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan

51.5 Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol mewn ffordd sy'n cynorthwyo gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol.

51.6 Gweithio gydag eraill ar ddatblygiad disgyblion a/neu y cwricwlwm, er mwyn sicrhau canlyniadau cydgysylltiedig.

51.7 Yn unol â pharagraff 52.10, goruchwylio, ac i'r graddau sy'n ymarferol, addysgu unrhyw ddisgyblion os nad yw'r sawl a nodwyd yn yr amserlen i addysgu'r dosbarth ar gael i wneud hynny.

Iechyd, diogelwch a disgyblaeth

51.8 Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion.

51.9 Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

Rheoli staff ac adnoddau

51.10 Cyfarwyddo a goruchwylio staff cymorth a neilltuwyd iddynt ac athrawon eraill pan fo hynny'n briodol.

51.11 Cyfrannu at recriwtio, dewis, penodi a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth.

51.12 Trefnu adnoddau a ddirprwywyd iddynt.

Datblygiad proffesiynol

51.13 Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, perfformiad athrawon eraill a staff cymorth.

51.14 Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

Cyfathrebu

51.15 Cyfathrebu gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr.

Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill

51.16 Cydweithio â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol.

Oriau Gwaith

51.17 Nid yw darpariaethau paragraffau 51.2-51.27 yn berthnasol i:

(a) benaethiaid, dirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol neu athrawon sy'n cael lwfans

dros dro am gyflawni dyletswyddau pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn unol â pharagraff 29;

(b) athrawon digyswllt sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, y pennir eu tâl yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i benaethiaid yn unol â pharagraff 32;

(c) athrawon digyswllt (ac eithrio'r rhai sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion) y pennir eu tâl yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i aelod o'r grŵp arweinyddiaeth yn unol â pharagraff 32.

Diwrnodau gwaith

51.18 Rhaid i athro a gyflogir o dan drefniant llawn amser fod ar gael i weithio 195 diwrnod, ac o blith y rhain:

(a) rhaid i 190 o ddiwrnodau fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill;

(c) rhaid i 5 diwrnod fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro gyflawni dyletswyddau eraill yn unig;

mae'n rhaid i'r 195 o ddiwrnodau hynny gael eu nodi gan y cyflogwr neu, os bydd y cyflogwr yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, gan y pennaeth.

51.19 Nid yw paragraff 51.18 yn berthnasol i athro a gyflogir o dan drefniant llawn amser yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn addysgu neu gyflawni dyletswyddau eraill mewn perthynas â disgyblion mewn sefydliad preswyl.

Oriau gwaith penodedig

51.20 Rhaid i athro a gyflogir o dan drefniant llawn amser fod ar gael i gyflawni dyletswyddau o'r fath ar yr adegau ac yn y lleoedd a nodir gan y pennaeth (neu, os nad yw'r athro wedi cael ei neilltuo i ysgol benodol, gan y cyflogwr neu gan bennaeth unrhyw ysgol lle y gallai fod yn ofynnol i'r athro weithio fel y cyfryw am y tro), am 1265 awr, a bydd yr oriau hynny yn cael eu dyrannu mewn ffordd resymol trwy gydol y diwrnodau hynny yn ystod y flwyddyn ysgol pan fydd gofyn i'r athro fod ar gael i weithio.

51.21 Mae paragraff 51.20 yn berthnasol i athro a gyflogir o dan drefniant rhan amser, ac eithrio bod yn rhaid i nifer yr oriau y mae'n rhaid i'r athro fod ar gael i'w gweithio gyfateb i'r gyfran honno o 1265 awr sy'n cyfateb i gyfran o gyfanswm y tâl y mae gan yr athro'r hawl i'w gael yn unol â pharagraffau 36 a 37.

51.22 Yn ogystal â'r oriau y mae'n ofynnol i athro fod ar gael i'w gweithio yn unol â pharagraff 51.20 neu 51.21, yn ôl y digwydd, rhaid i athro weithio oriau ychwanegol rhesymol o'r fath y bydd angen eu gweithio efallai er mwyn galluogi'r athro i gyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol mewn ffordd effeithiol, gan gynnwys, yn arbennig, cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi; ac asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau disgyblion a neilltuwyd.

51.23 Ni chaiff y cyflogwr bennu faint o'r oriau ychwanegol y cyfeirir atynt ym

mharagraff 51.22 y mae'n rhaid eu gweithio neu pryd y mae'n rhaid gweithio'r oriau hyn.

51.24 Yn amodol ar baragraff 51.25, ni fydd modd mynnu bod unrhyw athro a gyflogir o dan drefniant rhan amser ar gael i weithio ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos neu ran o unrhyw ddiwrnod o'r wythnos nad yw'n ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio arnynt fel arfer o dan ei gontract cyflogaeth (os bydd hynny at ddibenion addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill neu er mwyn cyflawni dyletswyddau eraill yn unig).

51.25 Yn amodol ar baragraffau 51.21 a 51.26, efallai y bydd gofyn i athro rhan amser gyflawni dyletswyddau, ac eithrio addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau ysgol ar unrhyw ddiwrnod y mae'n ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio fel arfer (p'un a fydd yn ofynnol i'r athro fod ar gael i weithio'r diwrnod cyfan hwnnw neu ran o'r diwrnod hwnnw yn unig fel arfer).

51.26 Ni chaiff cyfanswm yr amser y bydd modd gofyn i'r athro fod ar gael er mwyn cyflawni dyletswyddau, ac eithrio addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau ysgol yn unol â pharagraff 51.25, pan gaiff ei fynegi fel cyfran o gyfanswm yr amser y byddai gofyn i'r athro fod ar gael i wneud gwaith o'r fath, pe byddai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd o dan drefniant llawn amser, fod yn fwy na'r amser sy'n gyfwerth â'r gyfran honno o gyfanswm y tâl y mae gan yr athro hawl i'w gael yn unol â pharagraffau 36 a 37.

51.27 Nid yw'r amser y bydd athro yn ei dreulio yn cymryd yr egwyl y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 52.3 neu'n teithio i'w fan gwaith ac oddi yno, yn cyfrif tuag at y 1265 awr y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 51.20 neu'r amser cyfwerth â pro rata y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 51.21, yn ôl y digwydd.

Hawliau a Roddir - I Bob Athro

Hawliau cyffredinol

52.1 Ni fydd yn ofynnol i unrhyw athro weithio ar unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul na gŵyl gyhoeddus oni fydd ei gontract cyflogaeth yn nodi hyn yn benodol (er enghraifft yn achos athrawon mewn sefydliadau preswyl).

52.2 Ni fydd yn ofynnol i unrhyw athro ymgymryd â gwaith goruchwylio canol dydd o dan ei gontract cyflogaeth fel athro.

Egwyl ddyddiol

52.3 Rhaid i athro y mae'n ofynnol iddo fod ar gael i weithio mwy nag un sesiwn ysgol yn ystod unrhyw ddiwrnod ysgol gael cyfnod rhesymol o egwyl naill ai rhwng sesiynau ysgol neu rhwng canol dydd a 2.00pm. Mae hawl gan ddirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol ac athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol i gael cyfnod rhesymol o egwyl tua chanol dydd bod diwrnod ysgol fel y bo'n rhesymol ymarferol.

Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

52.4 Rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid, wrth gyflawni eu dyletswyddau, ystyried yr angen i'r pennaeth a'r athrawon yn yr ysgol allu sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol, gan gynnwys yn benodol, yn achos athrawon y mae paragraffau 51.18 i 51.27 yn berthnasol iddynt, eu dyletswyddau yn unol â pharagraff 51.22 a'r amser sydd ei angen arnynt i ddilyn eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Gan ystyried hyn, dylai Cyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau eu bod yn cadw at y terfynau gwaith a nodir yn y Rheoliadau Amser Gwaith[19].

Amser cynllunio a pharatoi wedi'i warantu

52.5 Mae gan bob athro sy'n addysgu disgyblion yr hawl i gael cyfnodau rhesymol o amser i Gynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) er mwyn eu galluogi i gyflawni cyfrifoldebau proffesiynol addysgu ac asesu. Rhaid caniatáu amser CPA i athro y mae paragraffau 51.18 i 51.27 yn berthnasol iddo, fel rhan o'r 1265 o oriau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 51.20 neu, yn achos athro a gyflogir drwy drefniant rhan amser, fel rhan o'r oriau cyfwerth â pro rata y cyfeirir atynt ym mharagraff 51.21.

52.6 Rhaid i amser CPA gyfateb i o leiaf 10% o amser addysgu athro o fewn yr amserlen (ac at y diben hwn, mae "amser addysgu o fewn yr amserlen", mewn perthynas ag athro, yn golygu cyfanswm yr amser y caiff athro ei neilltuo gan y pennaeth i addysgu disgyblion o fewn amserlen yr ysgol).

52.7 Rhaid darparu amser CPA mewn unedau heb fod yn llai na hanner awr yn ystod wythnos addysgu'r ysgol.

52.8 Ni ddylid ei gwneud yn ofynnol i athro gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ystod amser CPA yr athro.

Amser rheoli

52.9 Mae gan athro sydd â chyfrifoldebau arwain neu reoli, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yr hawl i fanteisio ar amser rhesymol yn ystod sesiynau ysgol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Cyflenwi

52.10 Dim ond ar adegau prin y dylid gofyn i athrawon gyflenwi yn unol â pharagraff 51.7, a dim ond o dan amgylchiadau annisgwyl (nid yw hyn yn berthnasol i athrawon a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn darparu gwasanaeth cyflenwi o'r fath).

Arholiadau allanol

52.11 Nid yw cymryd rhan mewn trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol yn ei gwneud yn ofynnol i athro gyfranogi'n rheolaidd mewn unrhyw drefniadau nad ydynt yn galw am arfer barn a sgiliau proffesiynol athro, megis goruchwylio.

---

[19] Rheoliadau Oriau Gwaith 1998 a Rheoliadau Oriau Gwaith (Diwygio) 2007.

Gweinyddu

52.12 Nid yw cymryd rhan mewn tasgau gweinyddol a threfniadol, gan gynnwys cyfarwyddo neu oruchwylio unigolion sy'n cynnig cymorth i athrawon yn yr ysgol, yn ei gwneud yn ofynnol i athro gyflawni tasgau o natur glerigol neu weinyddol yn rheolaidd, nad ydynt yn galw am arfer barn a sgiliau proffesiynol athro.

52.13 Heb amharu ar gyffredinolrwydd paragraff 52.12, mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr o dasgau a gwmpesir gan y paragraff hwnnw.

Hyfforddiant a datblygiad

52.14 Dylai pob aelod o staff yn yr ysgol allu manteisio ar gyngor, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sy'n briodol i'w hanghenion, gan gynnwys anghenion a nodwyd mewn amcanion neu ddatganiadau gwerthuso pan fo athrawon yn destun Rheoliadau 2011, neu mewn adroddiadau gwerthuso pan fo athrawon yn destun Rheoliadau 2012, yn unol â pholisïau'r awdurdod a'r corff llywodraethu.

52.15 Ni chaiff athro ar gyfnod ymsefydlu yn unol â'r Rheoliadau Ymsefydlu addysgu am fwy na 90% o'r amser y byddai disgwyl i athro yn yr ysgol nad yw'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ei dreulio yn addysgu.

Atodiad 1

Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru) a Safonau Athrawon (Lloegr)

Cyflwyniad

Cyflwynir Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru) a Safonau Athrawon (Lloegr) yn y Ddogfen hon gan eu bod yn tanategu'r broses o asesu'r ystod cyflog uwch.

Safonau Athrawon (Lloegr)

Rhaglith

Mae athrawon yn rhoi'r pwys mwyaf ar addysg eu disgyblion, ac maent yn atebol am gyflawni'r safonau uchaf posibl o ran eu gwaith a'u hymddygiad. Mae athrawon yn gweithredu mewn ffordd onest a didwyll; mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu pwnc, maent yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau fel athrawon ac maent yn hunanfeirniadol; maent yn meithrin cydberthnasau proffesiynol cadarnhaol; ac yn gweithio gyda rhieni er budd eu disgyblion.

Rhan Un: Addysgu

Rhaid i athro wneud y canlynol:

1. **Pennu disgwyliadau uchel sy'n ysbrydoli, yn cymell ac yn herio disgyblion**
   - creu amgylchedd diogel ac ysgogol i ddisgyblion, sy'n seiliedig ar barch tuag at y naill a'r llall;
   - pennu nodau sy'n ymestyn ac yn herio disgyblion o bob cefndir, gallu a chymeriad;
   - arddangos yr agweddau, gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan ddisgyblion yn gyson.

2. **Hyrwyddo cynnydd a deilliannau da gan ddisgyblion**
   - bod yn atebol am gyrhaeddiad, cynnydd a deilliannau disgyblion;
   - bod yn ymwybodol o allu disgyblion a'u gwybodaeth flaenorol, a chynllunio'r addysgu mewn modd sy'n eu datblygu;
   - tywys disgyblion i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed ganddynt a'u hanghenion sy'n dod i'r amlwg;
   - arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu a sut mae hyn yn effeithio ar addysgu;
   - annog disgyblion i fabwysiadu agwedd gyfrifol a chydwybodol tuag at eu gwaith a'u hastudiaethau eu hunain.

3. **Arddangos gwybodaeth dda am y pwnc a'r cwricwlwm**
   - meddu ar wybodaeth gadarn am y pwnc/pynciau a'r meysydd cwricwlwm perthnasol, meithrin a chynnal diddordeb disgyblion yn y pwnc, a rhoi sylw i unrhyw gamddealltwriaeth;
   - arddangos dealltwriaeth feirniadol o ddatblygiadau yn y pwnc a'r meysydd cwricwlwm, a hyrwyddo gwerth ysgolheictod;

- arddangos dealltwriaeth o lythrennedd, llafaredd a'r defnydd cywir o Saesneg safonol a bod yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel yn eu cylch, beth bynnag fo pwnc arbenigol yr athro;
- os ydynt yn addysgu sgiliau darllen cynnar, dangos dealltwriaeth glir o ffoneg synthetig systematig;
- os ydynt yn addysgu sgiliau darllen cynnar, dangos dealltwriaeth glir o strategaethau addysgu priodol.

4. **Cynllunio ac addysgu gwersi wedi'u strwythuro'n dda**
   - trosglwyddo gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth drwy ddefnyddio amser gwersi'n effeithiol;
   - hyrwyddo cariad at ddysgu a chwilfrydedd deallusol plant;
   - gosod gwaith cartref a gweithgareddau eraill y tu allan i'r dosbarth er mwyn ategu ac ymestyn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae'r disgyblion wedi'u meithrin;
   - myfyrio mewn ffordd systematig ar effeithiolrwydd gwersi a dulliau addysgu;
   - cyfrannu at y broses o gynllunio a darparu cwricwlwm diddorol o fewn ymaes/meysydd pwnc perthnasol.

5. **Addasu dulliau addysgu er mwyn ymateb i gryfderau ac anghenion pob disgybl**
   - gwybod pryd a sut i wahaniaethu'n briodol, gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n galluogi disgyblion i gael eu haddysgu mewn ffordd effeithiol;
   - meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r modd y gall amrywiaeth o ffactorau atal disgyblion rhag dysgu, a'r ffordd orau o oresgyn y rhain;
   - arddangos ymwybyddiaeth o ddatblygiad corfforol, cymdeithasol a deallusol plant, agwybod sut i addasu addysgu er mwyn cefnogi addysg disgyblion ar gamau datblygu gwahanol;
   - meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig; y rheini sy'n alluog iawn; y rheini mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; y rheini ag anableddau; a'r gallu i ddefnyddio a gwerthuso dulliau addysgu gwahanol er mwyn ymgysylltu â hwy a'u cefnogi.

6. **Gwneud defnydd cywir a chynhyrchiol o ddulliau asesu**
   - gwybod a deall sut i asesu pynciau a meysydd cwricwlwm perthnasol, gan gynnwys gofynion asesu statudol;
   - defnyddio dulliau asesu ffurfiannol a chyfunol er mwyn sicrhau cynnydd disgyblion
   - defnyddio data perthnasol i fonitro cynnydd, pennu targedau a chynllunio gwersi dilynol;
   - rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion, ar lafar a thrwy waith marcio manwl, ganannog disgyblion i ymateb i'r adborth.

7. **Rheoli ymddygiad yn effeithiol er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu da a diogel**
   - meddu ar reolau ac arferion clir o ran ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth, a bod yn gyfrifol amhyrwyddo ymddygiad da a chwrtais yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol, yn unolâ pholisi ymddygiad yr ysgol;
   - meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, a phennu fframwaith ar gyfer disgyblaeth gydag amrywiaeth o strategaethau, gan ddefnyddio canmoliaeth, sancsiynau a gwobrau mewn ffordd gyson a theg;
   - rheoli dosbarthiadau'n effeithiol, gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n briodol i anghenion disgyblion er mwyn eu cynnwys a'u cymell;
   - cynnal cydberthnasau da â disgyblion, arfer awdurdod priodol, a gweithredu mewn modd pendant yn ôl yr angen.

8. **Cyflawni cyfrifoldebau proffesiynol ehangach**
   - gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd ac ethos ehangach yr ysgol;
   - meithrin cydberthnasau proffesiynol effeithiol â chydweithwyr, gan wybod sut a phryd i fanteisio ar gyngor a chymorth arbenigol;
   - defnyddio staff cymorth yn effeithiol;
   - bod yn gyfrifol am wella addysgu drwy ddatblygiad proffesiynol priodol, gan ymateb i gyngor ac adborth gan gydweithwyr;
   - cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ynghylch cyflawniadau a lles disgyblion.

Rhan Dau: Ymddygiad Personol a Phroffesiynol

Disgwylir i athro arddangos safonau uchel cyson o ran ei ymddygiad personol a phroffesiynol. Mae'r datganiadau canlynol yn diffinio'r ymddygiad a'r agweddau sy'n pennu'r safon ofynnol ar gyfer ymddygiad athro drwy gydol ei yrfa.

- Bydd athrawon yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn ac yn cynnal safonau uchel o ran moeseg ac ymddygiad, o fewn yr ysgol a thu hwnt, drwy wneud y canlynol:
  - trin disgyblion ag urddas, meithrin cydberthnasau sy'n seiliedig ar barch tuag at y naill a'r llall, a chadw at derfynau sy'n briodol i sefyllfa broffesiynol athro bob amser;
  - ystyried yr angen i ddiogelu lles disgyblion, yn unol â darpariaethau statudol;
  - dangos goddefgarwch a pharch tuag at hawliau pobl eraill;
  - peidio â thanseilio gwerthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid unigol a pharch tuag at y naill a'r llall, a goddefgarwch tuag at y rheini y mae ganddynt ffydd a chredoau gwahanol;
  - sicrhau na chaiff credoau personol eu mynegi mewn ffordd sy'n manteisio ar natur fagored i niwed disgyblion neu mewn ffordd a allai beri iddynt dorri'r gyfraith.

- Rhaid i athrawon roi ystyriaeth briodol a phroffesiynol i ethos, polisïau ac arferion yr ysgol y maent yn addysgu ynddi, a chynnal safonau uchel o ran eu presenoldeb a'u prydlondeb eu hunain.

- Rhaid i athrawon feddu ar ddealltwriaeth o'r fframweithiau statudol sy'n nodi eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau proffesiynol, a gweithredu'n unol â hwy bob amser.

Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru)

Rhaid i athrawon gyrraedd Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu a pharhau i'w cyrraedd drwy gydol eu gyrfa addysgu.

Gwerthoedd a nodweddion proffesiynol

1. Gwerthfawrogi anghenion amrywiol plant a phobl ifanc.
2. Gwerthfawrogi cydberthnasau teg, parchus, cefnogol, adeiladol a llawn ymddiriedaeth â phlant a phobl ifanc.
3. Meddu ar ddisgwyliadau uchel o blant a phobl ifanc er mwyn gwella deilliannau a lles pob dysgwr.

4. Gwerthfawrogi pwysigrwydd meithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol.

5. Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae plant a phobl ifanc yn ei chwarae o ran eu cynnydd, eu datblygiad a'u lles eu hunain.

6. Gwerthfawrogi'r rhan weithredol y mae rhieni a gofalwyr yn ei chwarae yng nghynnydd, datblygiad a lles plant a phobl ifanc.

7. Gwerthfawrogi a dathlu'r cyfraniad y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud o fewn eu cymunedau.

8. Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae staff cymorth a gweithwyr proffesiynol eraill yn ei wneud at ddysgu, datblygiad a lles plant a phobl ifanc.

9. Chwarae rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol a chymunedau dysgu sy'n rhannu rhagdybiaethau a dealltwriaeth a'u treialu, a chyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ysgol a'r proffesiwn.

10. Gwerthfawrogi pwysigrwydd gwella ymarfer drwy fyfyrio a chymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

11. Meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran datblygu'r iaith Gymraeg yn unol â natur ddwyieithog Cymru.

Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

12. Meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol a ddilynir ganddynt.

13. Deall y cyd-destun polisi addysg cenedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, gan gynnwys deall egwyddorion y Cwricwlwm Cymreig a sut y dylid ei ddefnyddio i lywio eu hymarfer.

14. Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg yn y cyfnodau allweddol neu'r cyfnodau cyn a/neu ar ôl y rheini a addysgir ganddynt er mwyn llywio eu hymarfer a'u gwaith cynllunio.

15. Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.

16. Cynnal dealltwriaeth gyfredol o'u pynciau/meysydd cwricwlwm ac addysgeg berthnasol er mwyn llywio eu hymarfer.

17. Deall eu rôl o ran gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

18. Cynnal gwybodaeth a dysgu ym maes TGCh er mwyn cefnogi'r addysgu a'r dysgu, ac yn eu rôl broffesiynol ehangach.

19. Deall Cod Ymarfer AAA Cymru a'i gymhwyso er mwyn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr.

20. Deall pryd y mae'n briodol gofyn am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol, gan gynnwys gweithdrefnau diogelu, a sut i wneud.

21. Bod yn ymwybodol o amrywiaeth o strategaethau a gwybod sut i'w

defnyddio i annog ymddygiad da a chreu amgylchedd dysgu pwrpasol.

22. Deall sut y gellid defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc i lywio eu hymarfer a gwella deilliannau dysgwyr.

23. Deall disgwyliadau'r cwricwlwm mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu Gymraeg Ail Iaith.

Sgiliau proffesiynol

Cynllunio a phennu targedau

24. Pennu amcanion addysgu a dysgu heriol sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau deallus o ddysgwyr unigol yn unol â gwybodaeth am safonau disgwyliedig y grŵp oedran perthnasol ac amrywiaeth a chynnwys y gwaith sy'n briodol i ddysgwyr yn y grŵp oedran hwnnw.

25. Defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a chyfresi o wersi, sy'n dangos yn glir sut y caiff gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr eu hasesu.

26. Personoli'r dysgu er mwyn diwallu anghenion unigol gan gynnwys ceisio barn dysgwyr ynghylch yr hyn a fyddai'n eu helpu i gyflawni eu potensial.

27. Nodi adnoddau i gefnogi'r dysgu a fydd yn ysgogi ac yn cymell pob dysgwr i gyflawni'r deilliannau dymunol.

28. Gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a chydweithio â chydweithwyr i gynllunio gwaith a phennu targedau.

29. Cynllunio i gynnwys staff cymorth yn briodol yn y gwaith o gefnogi'r dysgu a sicrhau eu bod yn deall y rolau y disgwylir iddynt eu cyflawni.

30. Cynllunio cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

31. Rheoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol o fewn eu rôl broffesiynol ehangach.

32. Cychwyn a chynnal cyfathrebu effeithiol â phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

Monitro ac asesu

33. Defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chyfunol, i werthuso cynnydd dysgwyr tuag at gyflawni amcanion dysgu a gynlluniwyd, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain.

34. Bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau a addysgir ganddynt, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag arholiadau a chymwysterau cyhoeddus.

35. Defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys: y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr mwy abl a thalentog; dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag

anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

36. Cynnwys dysgwyr yn y gwaith o bennu targedau a myfyrio ar eu perfformiad a'i werthuso.

37. Monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr er mwyn rhoi tystiolaeth o amrywiaeth eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr.

38. Rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, gwendidau, cyrhaeddiad, cynnydd a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

39. Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr a meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall.

Addysgu a rheoli'r dysgu

40. Creu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus.

41. Addysgu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwyr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol.

42. Cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

43. Herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlïo ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

44. Addysgu gwersi neu gyfresi o waith wedi'u strwythuro'n glir er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig ac yn eu bodloni.

45. Defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol.

46. Datblygu amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau dysgwyr er mwyn eu helpu i wneud cynnydd.

47. Rheoli amser addysgu a dysgu yn effeithiol.

48. Rheoli'r amgylchedd dysgu ffisegol, cyfarpar, deunyddiau, testunau ac adnoddau eraill mewn modd diogel ac effeithiol.

49. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol.

50. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

51. Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da ymhlith dysgwyr dros gyfnod estynedig o amser.

52. Defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu.

53. Annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd eraill i astudio y tu allan i oriau ysgol,

sy'n ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol ac yn ei ymestyn.

54. Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, er mwyn gwella dysgu a lles y rheini a addysgir ganddynt.

55. Hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a meithrin eu sgiliau dwyieithog fel y bo'n briodol.

Atodiad 2

Safonau i Athrawon Siartredig yn Llundain

Rhaid i'r ymgeisydd ddangos sut mae gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd yr ymgeisydd yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu o ran addysg yn Llundain, drwy weithio'n unigol ac ar y cyd i gyrraedd y safonau canlynol:

Addysgeg a dysgu disgyblion

1. Creu a rheoli amgylchedd ystafell ddosbarth sy'n sicrhau ymddygiad a diwylliant cyflawni cadarn a chefnogol er mwyn diwallu anghenion disgyblion amrywiol a symudol yn Llundain.

2. Defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu er mwyn lleihau rhwystrau unigol at ddysgu a diwallu anghenion amrywiol disgyblion yn Llundain.

3. Datblygu a gweithredu arferion cynhwysol mewn amrywiaeth o leoliadau dysgu sy'n briodol i amrywiaeth y disgyblion yn Llundain a chymhlethdod eu dysgu personol, gan gynnwys cymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion.

4. Meithrin partneriaethau yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt â staff cymorth, athrawon, gweithwyr proffesiynol eraill, asiantaethau ac adnoddau cymunedol, er mwyn hyrwyddo cyflawniadau, dysgu, datblygiad a lles disgyblion.

5. Dadansoddi a defnyddio data perthnasol i lywio a hyrwyddo'r dyheadau uchaf posibl ymhlith disgyblion a thargedu disgwyliadau a chamau gweithredu er mwyn gwella cyflawniadau disgyblion.

Pwnc, arbenigedd a chyfnod

6. Datblygu a chymhwyso arbenigedd a gwybodaeth am bwnc, maes penodol a/neu gyfnod yn barhaus, gan fanteisio ar gyfleoedd ac adnoddau yn Llundain i gyfoethogi'r profiad dysgu.

7. Nodi a defnyddio'r wybodaeth a'r profiadau y mae disgyblion, eu teuluoedd a chymunedau eraill yn eu cyflwyno o'r tu allan i'r ysgol, er mwyn cyfoethogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm ac arferion addysgu.

Ysgol gyfan

8. Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chymhwyso polisïau a gweithgareddau ysgol gyfan, ermwyn ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion ac ysgolion gyflawni yn Llundain.

9. Hyrwyddo a chymhwyso dysgu proffesiynol a rennir a mathau eraill o gymorth a datblygiad i alluogi athrawon i ddysgu a chydweithio â'i gilydd, gan ystyried symudedd athrawon, er mwyn ategu gwybodaeth ac arbenigedd cyfunol athrawon yn Llundain.

Amrywiaeth, cymunedau a diwylliannau

10. Datblygu gwybodaeth am ystod y cymunedau, y diwylliannau a'r isddiwylliannau

ynLlundain, gan ymestyn a chymhwyso'r wybodaeth hon er mwyn llywio a hyrwyddodysgu gan ddisgyblion unigol.

11. Hyrwyddo a gweithredu polisïau ac arferion sy'n annog goddefgarwch a pharch tuag at amrywiaeth, herio gwahaniaethu ac ehangu dealltwriaeth disgyblion o'u cyfraniad at gymdeithas.

12. Arddangos y gallu i ymdrin â gwerthoedd cymunedol a diwylliannol sy'n gwrthdaro mewn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion mewn modd adeiladol a sensitif.

Atodiad 3

Tasgau gweinyddol a chlerigol

1. Casglu arian gan ddisgyblion a rhieni.
2. Ymchwilio i absenoldeb disgybl.
3. Gwaith llungopïo mewn swmp.
4. Teipio neu greu fersiynau o ddeunydd llawysgrif ar brosesydd geiriau allunio diwygiadau o fersiynau o'r fath.
5. Prosesu geiriau, copïo a dosbarthu gohebiaeth dorfol, gan gynnwys llythyrau safonol i rieni a disgyblion.
6. Llunio rhestrau dosbarth ar sail gwybodaeth gan athrawon.
7. Cadw a ffeilio cofnodion, gan gynnwys cofnodion sy'n seiliedig ar ddata gan athrawon.
8. Paratoi, gosod a dadosod arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth yn unol â phenderfyniadau athrawon.
9. Paratoi dadansoddiadau o ffigurau presenoldeb.
10. Paratoi dadansoddiadau o ganlyniadau arholiadau.
11. Coladu adroddiadau disgyblion.
12. Gweinyddu profiad gwaith (ond nid dewis lleoliadau na chynorthwyo disgyblion drwy roi cyngor neu gynnal ymweliadau).
13. Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol.
14. Gweinyddu trefniadau cyflenwi ar gyfer athrawon absennol.
15. Archebu, gosod a chynnal a chadw cyfarpar a meddalwedd TGCh.
16. Archebu cyflenwadau a chyfarpar.
17. Catalogio, paratoi, cyhoeddi a chynnal a chadw deunyddiau a chyfarpar a chyfrif y stoc hon.
18. Cymryd nodiadau gair am air neu baratoi cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd.
19. Cydlynu a chyflwyno ceisiadau (am gyllid, statws ysgol ac ati) gan ddefnyddio cyfraniadau gan athrawon ac eraill.
20. Trosglwyddo data am ddisgyblion, nad yw'n ymwneud â'r uchod, â llaw i systemaurheoli cyfrifiadurol yr ysgol.
21. Rheoli'r data yn systemau rheoli'r ysgol.

Atodiad 4

Dehongli

1.1 Yn y Ddogfen hon:

mae “Rheoliadau 2011” yn golygu Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011[20] a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at “adolygydd”, “adolygiad”, “canlyniadau’r adolygiad” neu "datganiad cynllunio ac adolygu" yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn, yn unol â hwy;

mae “Rheoliadau 2012” yn golygu Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012[21] a dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at “gwerthuswr”, “gwerthusiad” neu “canlyniadau’r gwerthusiad" yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn, yn unol â hwy;

mae “y Ddeddf” yn golygu Deddf Addysg 2002;[22]

mae “athro sgiliau uwch” yn golygu athro a gyflogwyd fel athro sgiliau uwch yn unol â Dogfen 2012 neu ddogfen flaenorol;

dylid dehongli "gwerthusiad" yn unol â rheoliadau 2011 (yng Nghymru) neu Reoliadau 2012 (yn Lloegr);

mae "pennaeth cynorthwyol" yn golygu athro cymwysedig â chyfrifoldebau arwain ar draws yr ysgol gyfan a benodwyd i swydd pennaeth cynorthwyol;

mae "awdurdod" yn golygu awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr; ac mewn perthynas ag ysgol, mae’n golygu’r awdurdod sy’n cynnal yr ysgol;

mae “Athro Siartredig Llundain” yn golygu athro cymwysedig sydd wedi ennill statws Athro Siartredig Llundain yn unol â pharagraff 23;

mae "athro ystafell ddosbarth" yn golygu athro cymwysedig nad yw'n aelod o'r grŵp arweinyddiaeth nac ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol;

mewn perthynas â Lloegr mae "dirpwy bennaeth" yn golygu[23], athro cymwysedig a benodwyd i staff addysgu ysgol fel dirprwy bennaeth yn unol â Rheoliadau Staffio Ysgol (Lloegr) 2009[24] ac mae'n cynnwys athro a benodwyd yn ddirprwy bennaeth dros dro ond nad yw'n athro sydd wedi'i neilltuo ac sy'n cyflawni dyletswyddau dirprwy bennaeth heb gael ei benodi felly;

mewn perthynas â Chymru, mae "dirprwy bennaeth" yn golygu athro cymwysedig a benodwyd i staff addysgu ysgol fel dirprwy bennaeth yn unol â Rheoliadau

---

[20] O.S. 2011/2940.
[21] O.S. 2012/115 fel y'i diwygiwyd gan 2012/431.
[22] 2002 (c.32.).
[23] Mewn perthynas â Chymru, mae “dirprwy bennaeth” yn cael ei ddiffinio gyda “phennaeth”.
[24] O.S. 2009/2680, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1740.

Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 ac mae'n cynnwys athro a benodwyd yn ddirprwy bennaeth dros dro ond nad yw'n athro sydd wedi'i neilltuo ac sy'n cyflawni dyletswyddau dirprwy bennaeth heb gael ei benodi felly;

mae “Dogfen flaenorol” yn golygu unrhyw Ddogfen y cyfeirir ati mewn unrhyw orchymyn a wneir yn unol ag adran 122 o'r Ddeddf neu adran 2 o Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2012[25] ac eithrio'r Ddogfen hon;

mae "sefydliad addysgol" yn golygu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig arbennig (heblaw am ysgol y mae gorchymyn a wnaed o dan adran 128(2) o'r Ddeddf yn gymwys) ac unrhyw sefydliad arall sy'n dod o dan y diffiniad o athro ôl-drothwy a lle mae'r athro yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi i ddarparu addysg gynradd neu uwchradd.

mae “ERA 1996" yn golygu Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;[26]

mewn perthynas â Lloegr mae "cynllun hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar gyflogaeth" yn golygu'r cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003[27], neu, mewn perthynas â Chymru, unrhyw gynllun a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2012;[28]

mae “athro rhagorol” yn golygu athro a gyflogwyd fel athro rhagorol yn unol â Dogfen 2012 neu ddogfen flaenorol;

mae “Ardal y Cyrion” yn golygu:

(a) yn Berkshire - Rhanbarthau Bracknell Forest, Slough a Windsor a Maidenhead;

(b) yn Swydd Buckingham - Rhanbarthau De Swydd Buckingham a Chiltern;

(c) yn Essex - Rhanbarthau Basildon, Brentwood, Epping Forest, Harlow a Thurrock;

(ch) yn Swydd Hertford - Rhanbarthau Broxbourne, Dacorum, Dwyrain Swydd Hertford, Hertsmere, St Albans, Three Rivers, Watford a Welwyn Hatfield;

(d) yng Nghaint - Rhanbarthau Dartford a Sevenoaks;

(dd) yn Surrey - y sir gyfan;

(e) yng Ngorllewin Sussex - Rhanbarth Crawley;

---

[25] 1991 (c.49), diddymwyd gan y Ddeddf.

[26] 1996 (c.18.) Disodlwyd Rhan VIII gan Ran 1 Atodlen 4 o Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (c. 26). 26). Cafodd Rhan VIIIA ei mewnosod gan adran 47 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (c. 22). 22).

[27] O.S. 2003/1662, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2782.

[28] O.S. 2012/724.

mewn perthynas â Lloegr, mae "athro graddedig" yn golygu athro sydd wedi cael awdurdod i addysgu yn unol â pharagraffau 5 i 9 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999[29] cyn 1af Medi 2002 neu, mewn perthynas â Chymru, yn unol â pharagraffau 5 i 9 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999[30] cyn 1af Medi 2004;

mae "pennaeth" yn golygu, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, unigolyn a benodwyd i staff addysgu ysgol fel pennaeth, ac mae'n cynnwys unigolyn a benodwyd yn bennaeth dros dro i gyflawni swyddogaethau pennaeth yn unol ag adran 35(3) neu 36(3) o'r Ddeddf ond nid athro sy'n cyflawni dyletswyddau pennaeth heb gael ei benodi i'r swydd honno;

mae "nam ar y clyw" yn golygu byddar neu rannol fyddar;

mae "ystod ysgol unigol" yn golygu ystod cyflog y pennaeth a bennir yn unol â pharagraff 11;

mae "Rheoliadau Ymsefydlu" yn golygu Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012[31] neu Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005[32], fel y'u diwygiwyd;

mae "Ardal Llundain Fewnol" yn golygu'r ardal sy'n cwmpasu ardaloedd bwrdeistrefi Barking a Dagenham, Brent, Camden, Dinas Llundain, Ealing, Greenwich, Hackney, Hammersmith a Fulham, Haringey, Islington, Kensington a Chelsea, Lambeth, Lewisham, Merton, Newham, Southwark, Tower Hamlets, Wandsworth a Westminster yn Llundain;

mae "sefydliad addysg bellach neu addysg uwch" yn cynnwys sefydliad sy'n darparu addysg bellach ac addysg uwch;

mae "ymarferwr arweiniol" yn golygu athro mewn swydd sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu;

mae "ardal Llundain" yn cynnwys Ardal Llundain Fewnol, Ardal Llundain Allanol ac Ardal y Cyrion;

mae "aelod o'r grŵp arweinyddiaeth" yn golygu pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol;

mae "un o ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn" yn golygu sefydliad addysgol y mae ei brif bwrpas yn ymwneud â chynnig darpariaeth ar gyfer plant sydd â rhiant yn lluoedd arfog y Goron ac a weinyddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac eithrio'r sefydliadau addysgol a elwir yn Queen Victoria School, Dunblane a

(29) O.S. 1999/2166, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2704 a 2001/1391. Dirymwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2003/1662 a 2003/3139.
(30) O.S. 1999/2817. Dirymwyd Atodlen 2 gan O.S. 2004/1744.
(31) O.S. 2012/1115.
(32) O.S. 2005/1818 (W.146), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2811 ac O.S. 2012/1675.

Welbeck College, Loughborough;

mae “ysgol arferol” yn golygu ysgol ac eithrio ysgol arbennig;

mae “Ardal Llundain Allanol” yn golygu’r ardal sy’n cynnwys ardaloedd bwrdeistrefi Barnet, Bexley, Bromley, Croydon, Enfield, Harrow, Havering, Hillingdon, Hounslow, Kingston-uponThames, Redbridge, Richmond-upon-Thames, Sutton a Waltham Forest yn Llundain;

mae "athro ôl-drothwy" yn golygu athro ystafell ddosbarth sydd-

(a) (i) yn unol â Dogfen gynharach, wedi'i asesu fel ei fod yn cyrraedd y safonau trothwy perfformiad drwy gydol y cyfnod perthnasol; neu

(ii) yn unol ag unrhyw un o'r Dogfennau a gyhoeddwyd rhwng 2007 a 2011 wedi bodloni'r sawl y rhoddwyd y dasg iddo fod yr athro yn cyrraedd y safonau craidd ac wedi'i asesu gan yr unigolyn hwnnw fel ei fod wedi cyrraedd y safonau ar gyfer athro ôl-drothwy drwy gydol y cyfnod perthnasol;

(iii) yn unol â Dogfen 2012 wedi bodloni'r sawl y rhoddwyd y dasg iddo fod yr athro yn cyrraedd Safonau Athrawon a'r safonau ar gyfer athro ôl-drothwy. At ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "Safonau Athrawon" yn golygu: yn Lloegr y Safonau Athrawon a nodir yn Atodiad 1 i'r Ddogfen hon neu'r safonau craidd a nodwyd yn Atodiad 1 i Ddogfen 2011; ac yng Nghymru y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a nodir yn Atodiad 1 i'r Ddogfen hon;

(b) ar unrhyw adeg cyn cyflogi'r athro fel y cyfryw fe'i cyflogwyd fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth ac yn achos athro a benodwyd yn y rôl honno gyntaf ar neu ar ôl 1 Medi 2000, y bu mewn swydd neu swyddi o'r fath am flwyddyn neu fwy gyda'i gilydd;

(c) mae wedi bod mewn swydd athro sgiliau uwch;

(ch) fe'i hardystiwyd gan aseswr a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel ei fod yn cwrdd â'r safonau a nodwyd yn Atodiad 2 i Ddogfen 2006 neu'r safonau ar gyfer athro sgiliau uwch a nodwyd yn Atodiad 1 i Ddogfen 2012 ond nas penodwyd i rôl athro sgiliau uwch;

(d) mae wedi'i gyflogi fel athro cymwysedig ar unrhyw adeg:

(i) yn un o ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn;

(ii) gan Fforwm Gweithredu Addysg;

(iii) mewn Academi, coleg technoleg dinas neu goleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau;

(iv) mewn ysgol arbennig nas cynhelir;

(v) mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod lleol wrth arfer

swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol; neu

(vi) gan rywun a benodwyd yn unol â chyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 497A o Ddeddf Addysg 1996 i gyflawni swyddogaethau awdurdod ac a oedd yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw yn syth cyn y gyflogaeth hon;

a thra ei fod wedi'i gyflogi felly wedi'i asesu fel ei fod yn cwrdd â'r holl safonau trothwy drwy gydol y cyfnod perthnasol ar yr amod, ar ddyddiad y cais, fod yr athro wedi cwblhau pum mlynedd o gyflogaeth (a ddehonglir yn unol â pharagraff 1.8 o'r Atodiad hwn) fel athro cymwysedig;

(dd) wedi'i benodi felly mewn ysgol ac wedi'i gyflogi'n flaenorol, heb fod yn llai na blwyddyn, gan awdurdod lleol fel cynghorydd addysgol neu arolygydd a'i dalu ar golofn cyflog Soulbury;

(e) wedi'i asesu fel ei fod yn cyrraedd safonau proffesiynol colegau chweched dosbarth;

(f) wedi'i asesu fel ei fod yn cyrraedd safonau trothwy Gogledd Iwerddon; neu

(ff) wedi'i gyflogi fel athro cymwysedig heblaw am gan gorff perthnasol ac yn ystod cyflogaeth o'r fath wedi'i asesu fel ei fod yn cyrraedd yr holl safonau trothwy a bod yr asesiad wedi'i gymeradwyo gan aseswr a benodwyd o dan drefniadau a wnaed at y diben hwnnw gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

mae i “safonau ôl-drothwy” yr un ystyr ag a roddir yn Nogfen 2012;

mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr un ystyr ag a roddir i’r ymadrodd hwnnw yn adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996[(33)];

mae “athro cymwysedig” yn golygu rhywun sy’n bodloni gofynion a nodir yn y rheoliadau yn unol ag adran 132 o'r Ddeddf[(34)];

mewn perthynas â Lloegr, mae "athro cofrestredig" yn golygu athro sydd wedi cael awdurdod i addysgu yn unol â pharagraffau 12 i 18 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999[(35)] cyn 1af Medi 2002 neu, mewn perthynas â Chymru, yn unol â pharagraffau 12 i 18 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999[(36)] cyn 1 Medi 2004;

mae “corff perthnasol” yn golygu:

(33) 1996 (c.56.)
(34) O.S.2003/1662, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2782 (mewn perthynas â Lloegr) ac O.S. 2012/724 mewn perthynas â Chymru).
(35) O.S. 1999/2166, di-rymwyd gan O.S. 2003/3139.
(36) O.S. 1999/2817, Atodlen 2 y'i di-rymwyd gan O.S. 2004/1744.

(a) yn achos athro mewn ysgol heb gyllideb ddirprwyedig, yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol honno;

(b) yn achos athro mewn ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig, corff llywodraethu'r ysgol honno;

(c) yn achos athro digyswllt, yr awdurdod sy'n cyflogi'r athro;

mae "safonau perthnasol" yn golygu Safonau Athrawon wrth eu Gwaith yng Nghymru a Safonau Athrawon yn Lloegr, a nodir y ddau yn Atodiad 1 i'r Ddogfen hon;

mae "tâl" yn golygu, oni nodir fel arall, cyflog ac unrhyw lwfansau;

mae "ysgol" yn golygu, oni nodir fel arall, ysgol a gynhelir gan awdurdod;

mae "ysgol sy'n peri pryder" yn golygu ysgol y mae adran 15 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[37] yn gymwys iddi drwy rinwedd isadran (1) (ysgol sy'n destun rhybudd ffurfiol), (4) (ysgol sydd angen gwella'n sylweddol) neu (6) (ysgol sydd angen mesurau arbennig);

mae "ysgol â chyllideb ddirprwyedig" yn golygu ysgol sydd â chyllideb ddirprwyedig yn unol ag ystyr Pennod 1 yn Rhan 3 o'r Ddeddf, a dylid dehongli "ysgol heb gyllideb ddirprwyedig" yn unol â hynny;

mae "blwyddyn ysgol" yn golygu cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1af Medi oni bai bod blwyddyn academaidd yr ysgol yn dechrau ym mis Awst ac os felly, mae'n golygu cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Awst;

mae "lwfans AAA" yn golygu lwfans anghenion addysgol arbennig a roddir i athro dosbarth yn unol â pharagraff 26;

mae "ysgol arbennig" yn golygu ysgol a gynhelir gan awdurdod;

mae "athro" yn golygu, oni nodir fel arall, athro sy'n athro ysgol yn unol ag ystyr adran 122 o'r Ddeddf;

mae "athro mewn addysg bellach neu addysg uwch" yn golygu athro-

(a) a gyflogir mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch; neu

(b) a gyflogir fel arall gan awdurdod lleol at ddibenion ei swyddogaethau mewn perthynas ag addysg bellach ac addysg uwch;

ac eithrio athro wedi'i secondio i gorff sy'n ad-dalu swm cyflog yr athro i'r awdurdod cyflogi;

---

[37] 1998 (c.31), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau (c. 21), a chan adran 55 o'r Ddeddf, Deddf Addysg 2005 (c.18), Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (c.40) a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (c.22).

mae "Dogfen 2012" yn golygu'r ddogfen a gyhoeddwyd gan y Llyfrfa o dan y teitl "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2012" Rhif ISBN - ISBN 978-0-11-271201-5

mae “CAD” yn golygu taliad cyfrifoldeb addysgu a dysgu a roddir i athro dosbarth yn unol â pharagraff 24;

mae “athro digyswllt” yn golygu:

(a) athro nad yw ynghlwm wrth ysgol benodol;

(b) athro a gyflogir mewn man ac eithrio ysgol; neu

(c) yn Rhannau 2 i 7, athro mewn uned cyfeirio disgyblion (gan gynnwys athro sy’n gyfrifol);

mae “athro heb gymhwyso” yn golygu athro nad yw wedi cymhwyso ac a bennir drwy Orchymyn yn unol ag adran 122(5) o'r Ddeddf yn athro ysgol at ddibenion yr adran honno;[38]

mae “nam ar y golwg” yn golygu byddar neu rannol fyddar.

1.2 Mae Deddf Dehongli 1978[39] yn gymwys i ddehongliad y Ddogfen hon fel pe bai’n Orchymyn a wnaed yn unol â'r Ddeddf.

1.3 Os bydd awdurdod (“yr awdurdod sy’n trosglwyddo”), drwy newid strwythurol neu newid ffin neu o ganlyniad i newid o'r fath (neu'r ddau) fel y’i diffinnir yn adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992[40] ac a achosir gan orchymyn a wnaed yn unol ag adran 17 o'r Ddeddf honno (fel y’i diwygiwyd), yn rhoi’r gorau i arfer swyddogaethau awdurdod mewn perthynas ag ardal a bod awdurdod arall wedyn (“yr awdurdod trosglwyddedig”) yn gallu arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â’r ardal honno, rhaid ystyried mai’r un awdurdod yw’r awdurdod sy’n trosglwyddo a’r awdurdod trosglwyddedig yn y Ddogfen hon.

1.4 Os, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994[41], caiff swyddogaethau awdurdod a ddiddymwyd (“yr hen awdurdod”) yn unol â'r Deddfau Addysg mewn perthynas ag ardal eu trosglwyddo i awdurdod newydd mewn perthynas â’r ardal honno (“yr awdurdod newydd”), rhaid ystyried mai’r un awdurdod yw’r hen awdurdod a’r awdurdod newydd yn y Ddogfen hon.

1.5 Rhaid trin athro heb gymhwyso sy’n bennaeth fel athro cymwysedig at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddogfen hon.

1.6 Rhaid i awdurdodau a chyrff llywodraethu, wrth arfer swyddogaethau a disgresiwn a roddwyd iddynt yn unol â'r Ddogfen hon, ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Adran 127 o'r Ddeddf. Wrth gymhwyso darpariaethau'r Ddogfen hon, rhaid i awdurdodau a chyrff

(38) O.S. 2003/1709.
(39) 1978 (c.30.)
(40) 1992 (c.19.)
(41) 1994 (c.19.)

llywodraethu ystyried unrhyw ganllawiau ar y weithdrefn i'w dilyn a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Adran 127 o'r Ddeddf.

1.7 Mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi'i rifo yn cyfeirio at rif yr is-baragraff hwnnw yn y paragraff lle gwneir y cyfeiriad hwnnw, oni nodir fel arall.

1.8 Bydd unigolyn wedi cwblhau “blwyddyn o gyflogaeth" os bydd:

(a) wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy’n rhoi cyfanswm o chwe wythnos ar hugain o leiaf yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn achos paragraffau 16, 17 neu 21 neu yn ystod y deuddeg mis blaenorol yn achos paragraff 23. At y dibenion hyn, mae cyfnod o gyflogaeth yn rhedeg o ddechrau’r wythnos y mae’r gyflogaeth yn dechrau i ddiwedd yr wythnos y caiff y gyflogaeth ei therfynu ac mae’n cynnwys unrhyw gyfnodau o wyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o’r gwaith oherwydd salwch neu anaf, p'un a fu gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn amser neu'n rhan amser neu'n rheolaidd neu fel arall;

(b) pan fydd unigolyn yn absennol o'r gwaith:

(i) wrth arfer ei hawl i gyfnod mamolaeth yn unol ag adran 71 neu 73 o ERA 1996 neu ei chontract cyflogaeth a bod ganddi'r hawl i ddychwelyd i’r gwaith yn rhinwedd yr adrannau hynny neu ei chontract cyflogaeth; yr hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o ERA 1996; yr hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A, 80AA, 80B neu 80BB o ERA 1996; neu’r hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o ERA 1996; neu

(ii) oherwydd ei beichiogrwydd;

mae'r cyfnod o absenoldeb yn cyfrif tuag at y cyfnod o chwe wythnos ar hugain o wasanaeth o leiaf y cyfeirir ato ym mharagraff (a);

(c) pan fydd unigolyn yn absennol o’r gwaith am unrhyw reswm ac eithrio'r rhesymau a nodir yn is-baragraff (a) neu (b), gall y corff perthnasol bennu bod y cyfnod o absenoldeb yn cyfrif fel pe bai’r unigolyn mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw.

Atodiad 5 – Pwyntiau colofn presennol (2012) ac wedi'u huwchraddio (2013)

Colofn A (Presennol 2012) – yn nodi graddfeydd cyflog **presennol** 2012 cyn dyfarniad cyflog 2013.

Colofn B (Wedi'u huwchraddio 2013) – dylid defnyddio hon i bennu cyflogau athrawon presennol ym mis Medi 2013, gan gynnwys datblygiad yn seiliedig ar berfformiad yn 2012/13 a'r dyfarniad cyflog o 1%.

	Cymru a Lloegr (heb gynnwys Ardal Llundain)		Ardal y Cyrion		Ardal Llundain Allanol		Ardal Llundain Fewnol	
	A: Presennol 2012 £	B: Wedi'u huwchraddio 2013 £	A: Presennol 2012 £	B: Wedi'u huwchraddio 2013 £	A: Presennol 2012 £	B: Wedi'u huwchraddio 2013 £	A: Presennol 2012 £	B: Wedi'u huwchraddio 2013 £
Athro Heb Gymhwyso Graddfa Gyflog								
1	15,817	15,976	16,856	17,025	18,789	18,977	19,893	20,092
2	17,657	17,834	18,695	18,882	20,629	20,836	21,731	21,949
3	19,497	19,692	20,534	20,740	22,470	22,695	23,571	23,807
4	21,336	21,550	22,374	22,598	24,311	24,555	25,410	25,665
5	23,177	23,409	24,213	24,456	26,150	26,412	27,249	27,522
6	25,016	25,267	26,052	26,313	27,992	28,272	29,088	29,379
Prif Raddfa								
P1	21,588	21,804	22,626	22,853	25,117	25,369	27,000	27,270
P2	23,295	23,528	24,331	24,575	26,674	26,941	28,408	28,693
P3	25,168	25,420	26,203	26,466	28,325	28,609	29,889	30,188
P4	27,104	27,376	28,146	28,428	30,080	30,381	31,446	31,761
P5	29,240	29,533	30,278	30,581	32,630	32,957	33,865	34,204
P6	31,552	31,868	32,588	32,914	35,116	35,468	36,387	36,751
Uwch Raddfa Gyflog								
U1	34,181	34,523	35,218	35,571	37,599	37,975	41,497	41,912
U2	35,447	35,802	36,483	36,848	38,991	39,381	43,536	43,972
U3	36,756	37,124	37,795	38,173	40,433	40,838	45,000	45,450

Adran 3 - Canllawiau i Awdurdodau Lleol, Arweinwyr Ysgol, Athrawon Ysgol a Chyrff Llywodraeth Ysgolion a Gynhelir

1. Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Adran Addysg yn unol ag adran 127(1) o Ddeddf Addysg 2002[(1)]. Dylid ei ddarllen ar y cyd ag unrhyw baragraffau perthnasol yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol2013 ('y Ddogfen'). Rhaid i ALlau a chyrff llywodraethu ystyried canllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol am y weithdrefn i'w dilyn wrth gymhwyso darpariaethau'r Ddogfen. Caiff llys neu dribiwnlys ystyried unrhyw fethiant gan gyflogwr i wneud hynny mewn unrhyw achos. Mae'r canllaw hwn yn disodli canllaw Adran 3 2012.

2. Mae cyfeiriadau at baragraffau yn y canllaw hwn yn cyfeirio, oninodir fel arall, at rifau paragraff yn y Ddogfen. Mae'r term 'corff perthnasol' yn dynodi'r corff (naill ai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol ("ALl")) sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch cyflogau.

3. Mae'r Ddogfen yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i gyflog ac amodau athrawon, nid staff cymorth, y caiff eu cyflog a'u hamodau eu pennu'n lleol. Ni cheir cymhwyso unrhyw daliadau nac amodau cyflogaeth ac eithrio'r rheini a gwmpesir yn y Ddogfen i athrawon, ac eithrio'r amodau hynny a bennir yn lleol bob amser ac nad ydynt yn mynd yn groes i'r Ddogfen, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi caniatáu eithriadau yn unol â deddfwriaeth arall. **Nid yw'r Ddogfen yn cwmpasu taliadau bonws na 'honoraria' o dan unrhyw amgylchiadau.**

Polisi cyflog

4. Rhaid i bob corff – cyrff llywodraethau ac awdurdodau lleol os mai nhw yw'r corff perthnasol, gan gynnwys ar gyfer pob athro digyswllt – feddu ar bolisi cyflog. Dylai hwn fod yn gysylltiedig â'r system werthuso. Dylid ei adolygu bob blwyddyn a'i ddiweddaru o hyd, gan ystyried unrhyw newidiadau cyfreithiol neu newidiadau i'r strwythur staffio sy'n effeithio ar benderfyniadau dewisol ynghylch cyflog. Dylid ymgynghori ag athrawon a chynrychiolwyr undebau cydnabyddedig bob amser wrth lunio'r polisi a gwneud unrhyw newidiadau iddo. Dylai athrawon bob amser allu cael gafael ar gopïau o bolisi cyflog y corff perthnasol.

5. Rhaid i weithdrefnau pennu cyflog gydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth gwahaniaethu. Felly, dylai'r polisi cyflog nodi'n glir gydymffurfiaeth y corff perthnasol â'r ddeddfwriaeth ganlynol, fel y'u diwygiwyd: Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Gweithwyr Rhan amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Tymor Penodedig (Atal Triniaeth LaiFfafriol) 2002. Dylai gweithdrefnau pennu cyflog hefyd gyd-fynd ag egwyddorion bywyd cyhoeddus – gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.

6. Dylai'r polisi cyflog nodi sut y caiff pob penderfyniad ynghylch cyflog ei wneud, naill ai fel rhan o adolygiad rheolaidd neu o dan amgylchiadau eraill, gan roi digon o fanylion i alluogi unigolyn i werthfawrogi pa dystiolaeth a ffactorau eraill a ystyrir

(1) 2002(c.32)

wrth wneud penderfyniad ynghylch cyflog. Yn benodol, dylai'r polisi cyflog ddisgrifio'r wybodaeth i'w chynnwys ar ddatganiadau cyflog a roddir iathrawon fel rhan o'r broses adolygu reolaidd, neu pan wneir penderfyniadau ynghylch cyflog, a sut y gall athrawon gael gwybodaeth ychwanegol. Rhaid i'r polisi cyflog hefyd nodi'r weithdrefn sy'n gymwys pan fydd unrhyw athro yn gofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wnaed gan y pennaeth neu gorff perthnasol sy'n effeithio ar ei gyflog. Mae'r weithdrefn gwrandawiadau ac apeliadau cyflog yn cyflawni swyddogaeth y weithdrefn gwyno mewn perthynas â materion cyflog, felly ni ddylid ailagor penderfyniadau o dan weithdrefnau cwyno cyffredinol. Nid yw penderfyniadau apêl yn effeithio ar hawliau cyflogaeth statudol athrawon. Ceir rhagor o fanylion am weithdrefnau cwyno mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch cyflog yn y pecyn cymorth a chyngor drwy wefan yr Adran.

Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir

7. Dylai'r corff perthnasol sicrhau y caiff rhybudd priodol ei roi o unrhyw ddyletswyddau newydd a roddir i'r athro fel gwaith sy'n gymesur â'i swm neu symiau a ddiogelir. Dylid adolygu pob cyfrifoldeb ychwanegol o'r fath yn barhaus, gan gymryd unrhyw gyfryw gamau sydd eu hangen pan ddaw'r cyfnod diogelu i ben. Bydd penaethiaid am ystyried a oes angen y ddyletswydd ychwanegol o hyd; a ddylai bellach ddenu taliad ychwanegol (fel taliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD)); ac, os felly, pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i ymgymryd â'r ddyletswydd.

8. Dylai'r corff perthnasol sicrhau bod pob athro sy'n cael, neu a fydd yn cael, symiau a ddiogelir sy'n fwy na £500 yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y symiau a ddiogelir yn dod i ben os byddant yn gwrthod cyflawni'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol yn afresymol. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r athro o unrhyw benderfyniad i dynnu swm a ddiogelir yn ôl o leiaf fis cyn ei weithredu a dylid rhoi gwybod iddo am benderfyniad o'r fath cyn gynted ag y bo modd. Gellir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad o'r fath yn y ffordd arferol.

9. Dylai cyrff perthnasol fod yn ymwybodol o'r egwyddor gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff perthnasol ystyried a yw safle athro ar ystod cyflog neu lwfans newydd wedi cynyddu ei gyflog cymaint â gwerth ei gyflog blaenorol ac unrhyw swm a ddiogelir yr oedd yn ei gael, neu'n fwy na hynny (caiff newidiadau yng ngwerth lwfansau neu ystodau cyflog sy'n deillio o ddarpariaethau'r Ddogfen eu heithrio.)[(2)] Os telir amrywiaeth o elfennau a ddiogelir, nid yw 'swm a ddiogelir' yn golygu cyfanswm yr holl elfennau a ddiogelir, ond unrhyw elfen a ddiogelir sy'n rhan o'r cyfanswm.

10. Os bydd unrhyw gynnydd o'r fath yn fwy nag unrhyw swm a ddiogelir, rhaid i'r corff perthnasol roi'r gorau i dalu unrhyw swm neu symiau sy'n gyfwerth â'r cynnydd neu'n llai na hynny. Os bydd angen penderfynu pa swm neu symiau y dylid rhoi'r gorau i'w talu, dylai'r corff perthnasol bob amser roi'r gorau i dalu'r swm llai neu leiaf yn gyntaf, ac yna'r swm lleiaf nesaf, ar unrhyw adeg pan fydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod yr egwyddor yn cael ei chymhwyso'n gywir.

---

(2) Yn gyffredinol mae hyn yn golygu cynnydd o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog yn dilyn argymhellion y Corff Adolygu Athrawon Ysgol.

Cyflog y grŵp arweinyddiaeth (paragraffau 5-14)

11. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y broses o bennu tâl y pennaeth yn deg ac yn dryloyw. Dylid cadw cofnod priodol o'r rhesymeg dros y penderfyniad ynghylch yr ystod ysgol unigol ac unrhywdaliadau dewisol a wneir i'r pennaeth.

Ystod ysgol unigol

12. Dylai'r corff perthnasol neilltuo ysgol i grŵp pennaeth a phennu'r ystod ysgol unigol pryd bynnag y bydd yn cynnig penodi pennaeth newydd. Dylai hefyd ailbennu'r ystod ysgol unigol os bydd angen newid y grŵp pennaeth (gan gynnwyspan ddaw'r pennaeth yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn o dan drefniant parhaol) neu os bydd yn pennu ystod cyflog dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol sy'n gorgyffwrdd â'r ystod ysgol unigol. Caiff bennu'r ystod ysgol unigol o 1 Medi 2013 neu ar unrhyw adeg os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny. Ni ddylai'r corff perthnasol ystyried cyflog y pennaeth mewn swydd os bydd yn ailbennu'r ystod ysgol unigol.

13. Wrth bennu cyflog pennaeth newydd, dylai'r corff perthnasol ystyried cyfrifoldebau llawn y swydd. Dylai hyn gynnwys rôl lawn y pennaeth fel y'i nodir yn Rhan 6 o'r ddogfen a gallai fod angen cynnwys unrhyw benodiad parhaol sy'n gyfrifol am fwy nag un ysgol (gweler paragraffau 14-15 isod). Nid ystyrir y materion canlynol mwyach wrth bennu'r ystod ysgol unigol a chânt eu trin fel taliadau dewisol: ysgolion sy'n peri pryder, anawsterau wrth lenwi swydd wag pennaeth, anawsterau wrth gadw'r pennaeth cyfredol, a phenodiad dros dro fel pennaeth mwy nag un ysgol.

Penaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ystod o dan drefniant parhaol (paragraff 11.5)

14. Pan benodir pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r corff perthnasol bennu'r grŵp pennaeth ar sail cyfanswm nifer y disgyblion ym mhob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol â pharagraffau 8 neu 9. Yna, dylai'r corff perthnasol bennu'r ystod ysgol unigol saith pwynt a'r man cychwyn priodol yn yr ystod honno yn unol â pharagraffau 6-11.

15. Mae angen hefyd ystyried tâl athrawon eraill sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn sgil rôl y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Ni wneir hynny'n awtomatig.

Taliadau dewisol i benaethiaid

16. Dylai'r corff llywodraethu oruchwylio rôl gyfan pennaeth ac unrhyw gyfrifoldebau â thâl cysylltiedig. Dylai hyn sicrhau y gall y corff llywodraethu wneud penderfyniad cwbwl hyddysg ynghylch y tâl priodol ar gyfer y pennaeth ac unrhyw oblygiadau dilynol o ran cyflog staff a all fod yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn absenoldeb y pennaeth.

17. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud taliadau dewisol sy'n werth mwy na'r terfyn o 25% o'r swm sy'n cyfateb i bwynt y pennaeth ar yr ystod ysgol

unigol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Os ystyrir bod amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu taliad sy'n fwy na'r terfyn, rhaid i'r pwyllgor perthnasol gyflwyno achos busnes dros y taliad i'r corff llywodraethu llawn. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol a all ystyried darpariaethau'r Ddogfen a ph'un a ydynt wedi'u cymhwyso'n briodol i gyflog y pennaeth cyn penderfynu a ellir cyfiawnhau mynd y tu hwnt i'r terfyn ym mhob achos penodol. Rhaid bod llwybr archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir i'r corff llywodraethu a chofnod llawn a manwl o'r holl benderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu a'r rhesymeg drostynt.

18. Lle y caiff athro daliad yn unol â pharagraff 39 mewn perthynas â dyletswyddau preswyl sy'n ofynnol fel rhan o'r swydd, nid yw'r swm hwnnw yn cyfrif tuag at y terfyn o 25%. Pan roddir budd anariannol i bennaeth yn unol â pharagraff 41 nad yw'n fudd adleoli sy'n ymwneud yn gyfan gwbl ag amgylchiadau personol y pennaeth hwnnw, bydd gwerth ariannol y budd yn cyfrif tuag at y terfyn o 25%.

Penaethiaid sy'n atebol dros dro am fwy nag un ysgol

19. Weithiau, pan fydd swydd pennaeth yn wag ac nad yw'n bosibl penodi dirprwy bennaeth neu aelod arall o'r staff addysgu i gyflawni swydd pennaeth dros dro, gellir penodi pennaeth ysgol arall i fod yn gyfrifol ac yn atebol, yn ychwanegol at ei rôl barhaus fel pennaeth ei ysgol ei hun.

20. Dylid ystyried y rôl hon fel prifathrawiaeth dros dro cyhyd â bod trefniadau'n cael eu gwneud i recriwtio pennaeth parhaol neu wneud trefniadau parhaol amgen, fel cyfuno'r ysgolion neu greu ffederasiwn caled. Disgwylir i'r trefniadau dros dro hyn fod am gyfnod penodol o amser ac yn destun adolygiad rheolaidd, ac ni ddylent bara mwy na dwy flynedd.

21. Dylai'r corff perthnasol fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran llwyth gwaith y pennaeth a chyfrifoldebau ychwanegol aelodau eraill o staff yn sgil y trefniant dros dro hwn fel rhan o'r ystyriaethau cyffredinol wrth gytuno i'r pennaeth ymgymryd â'r rôl ychwanegol dros dro.

22. Er mwyn cynorthwyo pennaeth sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol dros dro, dylai cyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw egluro sut y bydd y trefniadau hyn yn gweithio yn ymarferol a sut y cânt eu terfynu. Dylai ysgolion sy'n ystyried y trefniant hwn nodi mai trefniant dros dro yn unig yw hwn.

23. Yn achos trefniadau dros dro o'r fath, rhaid i'r cyflogwr sy'ncontractio gyhoeddi amrywiad contract tymor penodol. Bydd hwn yn nodi bod y pennaeth, yn ychwanegol at ei swyddbarhaol, yn cael ei gyflogi fel pennaeth yr ysgol(ion) ychwanegol am gyfnod penodol. Ar ddiwedd yr amrywiad tymor penodol, bydd y pennaeth yn dychwelyd i'w swydd wreiddiol.

24. O dan Reoliadau Cydweithio[(3)], caiff y cyrff llywodraethu drefnu i gydbwyllgor gael ei sefydlu yn cynnwys llywodraethwyr o'r holl ysgolion dan sylw er mwyn goruchwylio'r trefniadau tymor penodol. Dylai fod gan y cydbwyllgor hwn bŵer

(3) Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cydlafurio) (Lloegr) 2003 OS 2003/1962; a Rheoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 (2012/2655) (W.287).

dirprwyedig i ddelio â materion yn ymwneud â chyflog a rheoli perfformiad y pennaeth yn ogystal â materion staffio perthnasol eraill. Dylai hefyd fod gan y cydbwyllgor hwn bŵer dirprwyedig o ran y trefniadau ariannol a fydd yn gymwys yn ystod y cyfnod cydweithio. Er enghraifft, dylai'r cydbwyllgor bennu unrhyw daliad ar sail cyfrifoldeb ychwanegol dros dro i athrawon, ac eithrio'r pennaeth, ym mhob ysgol, a'r trefniadau ar gyfer adolygu'r taliadau hynny a'u terfynu.

25. Dylai'r cydbwyllgor hefyd ystyried amgylchiadau pob ysgol a'r goblygiadau o ran llwyth gwaith, gan gynnwys i ba raddau y mae'r pennaeth yn debygol o fod yn absennol o'r ysgolion unigol. Dylai unrhyw daliadau dewisol a wneir yn unol â pharagraff 12.1 i 12.4 ystyried cyfrifoldebau llawn y swydd. Os oes dirprwy bennaeth yn yr ysgol, gall fod yn fwy priodol cynyddu ei ystod cyflog dros dro er mwyn ystyried y cyfrifoldebau cynyddol yn absenoldeb y pennaeth. Gellir hefyd benodi athro dros dro, yn absenoldeb deiliad y swydd barhaol, i swydd o fewn y strwythur staffio sy'n denu taliad CAD; ac yn achos athro dosbarth, os nad yw unrhyw un o'r rhain yn briodol, gall y cydbwyllgor ystyried defnyddio taliadau ychwanegol ym mharagraff 40.1(ch)*.* Dylai'r cydbwyllgor sicrhau bod unrhyw daliad am gyfrifoldebau ychwanegol yn unol â darpariaethau'r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol.

26. Pan fydd y trefniant ar gyfer y pennaeth yn un dros dro, bydd unrhyw newid i'w gyflog a chyflog athrawon eraill yn drefniant dros dro hefyd, ac ni fydd darpariaethau diogelu yn gymwys pan ddaw'r trefniadau i ben.

Gwasanaethau allanol

27. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio eu cynlluniau ardal lleol. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, gallant ddewis gofyn i ysgol a fyddai'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn barod i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau estynedig ar ei safle i blant a phobl ifanc o'r ardal. Os bydd y pennaeth a'r corff llywodraethu yn cytuno i ymgymryd â chyfrifoldeb ychwanegol sylweddol y mae'r pennaeth yn uniongyrchol atebol amdano i'r awdurdod lleol neu'r Ymddiriedolaeth Plant a bod y pennaeth wedi'i benodi'n bennaeth parhaol yn yr ysgol honno, gall y corff perthnasol ystyried hyn wrth bennu ystod ysgol unigol y pennaeth. Dylai unrhyw gynnydd mewn cyflog fod yn gyfystyr â lefel y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd yr ymgymerir ag ef. Sut bynnag, mae angen ystyried tâl athrawon eraill sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn sgil rôl y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Ni wneir hynny'n awtomatig.

28. Fodd bynnag, pan fydd gan bennaeth fudd yn ansawdd gwasanaeth a gydleolir ar safle'r ysgol, er enghraifft, canolfan therapi lleferydd sy'n helpu i ddatblygu pobl ifanc yn yr ysgol neu ar draws nifer o ysgolion, ond nid yw'n gyfrifol nac yn atebol am y gwasanaeth hwnnw, mae hyn yn rhan o gyfrifoldebau craidd pennaeth, felly ni fyddai'n cael ei ystyried wrth bennu ystod ysgol unigol y pennaeth.

Cyflog dirprwy benaethiaid/penaethiaid cynorthwyol

29. Dylai'r corff perthnasol bennu ystod cyflog dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol pan fydd: yn cynnig gwneud penodiadau newydd; neu pan fydd cyfrifoldebau

dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol gweithredol yn newid yn sylweddol; neu pan fydd uchafswm ystod cyflog y dirprwy neu bennaeth cynorthwyol hwnnw yn cyfateb ag isafswm yr ystod ysgol unigol neu'n fwy na hynny. Dylai ystyried cyfrifoldebau'r swydd, cefndir y disgyblion yn yr ysgol ac a yw'r swydd yn un anodd ei llenwi.

Datblygiad

30. Dylai'r corff perthnasol sicrhau ei fod yn adolygu perfformiad aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, gan ystyried meini prawf datblygiad grŵp arweinyddiaeth, unrhyw argymhellion o ran datblygiad cyflog a gofnodwyd yn adroddiad gwerthuso diweddaraf yr athro ac unrhyw ystyriaethau ym mholisi cyflog y corff perthnasol ei hun. Os nad yw aelodau'r grŵp arweinyddiaeth yn destun Rheoliadau 2011 na 2012, dylid adolygu eu perfformiad yn unol â pharagraff 6.

Symud i'r uwch raddfa gyflog (paragraff 18)

31. Mae paragraff 18 yn nodi trefniadau newydd ar gyfer symud i'r uwch raddfa gyflog. Nid yw'r trefniadau blaenorol o ran trothwy yn gymwys mwyach, heblaw yn achos yr athrawon hynny sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Addysg (Dyfarnu Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012. Rhaid gwneud cais am asesiad trothwy ar gyfer yr athrawon hyn erbyn 31 Hydref 2013. Caiff athrawon yng Nghymru ac athrawon nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoliadau Addysg (Arfarnu Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012, lle mai 31 Awst 2013 oedd y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais, ac a fu'n llwyddiannus, eu talu o 1 Medi 2013 yn unol â Dogfen 2012.

32. O dan y trefniadau newydd, bydd ceisiadau'n llwyddiannus lle mae'r corff llywodraethu yn fodlon o ran y canlynol:

- bod yr athro yn dra chymwys ym mhob elfen o'r safonau perthnasol;
- bod cyflawniadau'r athro a'i gyfraniad at y sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol ac yn barhaus.

Dylai ysgolion nodi'n glir yn eu polisïau cyflog sut y byddant yn dehongli'r meini prawf hynny a pha dystiolaeth a ystyrir ganddynt.

33. Mae gan y corff perthnasol gyfrifoldeb cyfreithiol am y broses er y gall ddirprwyo'r broses o dderbyn ac asesu ceisiadau i'r pennaeth (neu rywun â chyfrifoldeb rheoli yn achos athrawon digyswllt), yn unol â pholisi cyflog yr ysgol. Mae paragraff 18.1 yn ei gwneud yn glir, lle mae athrawon yn ddarostyngedig i reoliadau arfarnu 2011 neu 2012, y bydd cyrff perthnasol yn ystyried yr asesiadau a'r argymhellion yn adroddiadau arfarnu athrawon. Bydd angen iddynt edrych ar adroddiadau arfarnu athrawon, ystyried pob asesiad ac argymhelliad ynddynt, a phennu p'un a yw'r dystiolaeth - gyda'i gilydd - yn dangos bod yr athrawon yn bodloni'r meini prawf - h.y. bod yr athrawon yn hynod gymwys ymhob agwedd ar y safonau perthnasol a bod eu cyflawniadau a'u cyfraniad at sefydliad neu sefydliadau addysgol yn sylweddol ac yn barhaus.

34. Mae paragraffau 17.2 (a) ac (c) yn cyfeirio at amharu ar gyfnod cyflogaeth. Ni fyddai amharu o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, gyfnod mamolaeth na throsglwyddiad TUPE wrth newid i academi.

Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) (paragraffau 24 - 25)

35. Rhaid i'r corff perthnasol barhau i adolygu sawl swydd grŵp arweinyddiaeth a swyddi eraill (gan gynnwys swyddi ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol) sydd eu hangen o fewn ei strwythur staffio ac a yw CAD1 neu CAD2 yn rhan briodol o'r strwythur sydd ei angen i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel parhaus. Os yw CAD1 neu CAD2 yn rhan briodol o'r strwythur hwnnw, rhaid i'r corff perthnasol benderfynu sawl swydd y dylid neilltuo'r CAD hwn iddynt ynghyd â'r gwerthoedd arian parod priodol yng ngoleuni'r meini prawf a'r ffactorau ar gyfer dyfarnu CAD1 a CAD2 a'r paramedrau y gellir pennu gwerthoedd arian parod yn unol â hwy. Dylid nodi'r cyfrifoldeb neu gyfres o gyfrifoldebau y dyfernir CAD1 neu CAD2 ar eu cyfer yn glir yn swydd-ddisgrifiad deiliad y swydd. Rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth cyflog cyfartal wrth ddyfarnu unrhyw CAD i athrawon unigol a dylai cyrff perthnasol fod yn ymwybodol y gall unrhyw benderfyniadau nad ydynt yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol arwain at wneud ceisiadau i dribiwnlysoedd cyflogaeth.

36. Disgwylir i athrawon gyfrannu, ar lafar ac yn ysgrifenedig fel sy'n briodol, at ddatblygu'r cwricwlwm drwy rannu eu harbenigedd proffesiynol â chydweithwyr a rhoi cyngor ar arfer effeithiol. Nid yw hyn yn golygu y gellir disgwyl iddynt fod yn gyfrifol nac yn atebol am faes pwnc neu reoli athrawon eraill heb gael taliad ychwanegol priodol. Dylai cyfrifoldebau o'r fath fod yn rhan o swydd o fewn y grŵp arweinyddiaeth neu'n gysylltiedig â swydd sy'n denu CAD1 neu CAD2 ar y sail a nodir ym mharagraff 24.

37. Dylai cyrff perthnasol bennu gwerth CAD sy'n briodol i'r swydd, o fewn y terfynau a bennwyd ac yn unol â phwys y swydd. Dylid neilltuo'r un gwerth i swyddi o'r un pwys. Dylai fod modd cyfiawnhau penderfyniadau i wneud taliadau uwchlaw'r lefel ofynnol cymwys mewnperthynas â lefel y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd. Ni ddylai cyrff perthnasol ystyried materion recriwtio na chadw, a dim ond yn unol â darpariaethau paragraff 41 ac yn unol â pholisi cyflog y corff perthnasol y dylid gwneud taliadau ar gyfer y rhain. Unwaith y caiff gwerth CAD ei bennu gan y corff perthnasol, dim ond am ddau reswm y dylid ei newid: (a) mae'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol yn argymell y dylid gwneud newid cyffredinol i werthoedd CAD, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn ac yn cyflwyno hyn; neu (b) mae'r corff perthnasol yn adolygu ei strwythur staffio ac yn pennu bod cyfrifoldebau'r swydd wedi newid mewn ffordd sylweddol.

38. Dim ond i athrawon mewn swyddi a nodwyd o fewn y strwythur staffio y dylid dyfarnu CAD1au a CAD2au iddynt a hynny'n unol â'r gwerth arian parod a nodir yn y polisi cyflog. Lle caiff CAD eu dyfarnu i athrawon rhan amser, rhaid iddynt gael eu talu ar sail pro rata ar yr un gyfran â chontract rhan amser yr athro.

39. Mae CAD1 a CAD2 yn barhaol tra bydd deiliad y swydd yn parhau yn yr un swydd o fewn y strwythur staffio. Mae'r meini prawf cyffredinol ar gyfer dyfarnu CAD1au a CAD2au yn cynnwys darpariaethau bod yn rhaid i'r cyfrifoldeb y dyfernir CAD ar ei

gyfer fod yn 'barhaus' a bod yn rhaid dyfarnu CAD ‘yng nghyd-destun strwythur staffio’r corff perthnasol’. Dim ond ar gyfer prosiectau gwella ysgol â chyfyngiad amser clir iddynt neu gyfrifoldebau allanol untro y gellir dyfarnu CAD3au. Dim ond dros dro y gellir dyfarnu CAD1au a CAD2au os yw’r athro yn cyflawni swydd wahanol o fewn y strwythur staffio dros dro a bod taliad CAD ynghlwm wrth y swydd honno (er enghraifft, cyflenwi ar gyfer secondiadau, cyfnod mamolaeth neu absenoldeb oherwydd salwch neu swyddi gwag sy’n disgwyl penodiad parhaol) ac am hyd y cyfrifoldeb hwnnw. Rhaid cynnwys y dyddiad y daw’r dyfarniad dros dro i ben, neu’r amgylchiadau lle y daw i ben, yn hysbysiad yr athro o benderfyniad cyflog diwygiedig, fel y nodir ym mharagraff 3.4(c)(iii). Ni chaiff athro sy'n cael CAD1 neu CAD2 a ddyfarnwyd dros dro neu sydd ar gontract tymor penodol swm a ddiogelir pan ddaw’r CAD i ben, oni bai bod y CAD yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl a bod ei gontract yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad y daw’r CAD hwnnw i ben.

40. Os caiff athro swydd newydd neu gyfrifoldebau diwygiedig, rhaid i’r corff perthnasol benderfynu a yw CAD gwahanol (os o gwbl) yn berthnasol i’r swydd, ac a oes gan yr athro’r hawl i gaelunrhyw swm a ddiogelir os nad yw CAD yn berthnasol, neu os rhoddir CAD is ar gyfer y swydd newydd/cyfrifoldebau diwygiedig. Ni chaiff athro fwy nag un CAD1 neu CAD2 ar yr un pryd. Nid yw CAD3au yn cael eu diogelu.

41. Os dyfernir CAD i athro sy’n cael taliad diogelu CAD yn ystod absenoldeb dros dro deiliad y swydd honno, neu sy'n gweithio fel aelod o’r grŵp arweinyddiaeth, neu fel athro ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn ystod absenoldeb dros dro deiliad y swydd honno neu fel arall sy'n cael cyflog uwch am ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol, caiff y taliad diogelu CAD ei leihau neu ei derfynu (fel y bo'n gymwys) yn ystod y cyfnod hwn, ond caiff ei adfer ar ddiwedd y cyfnod dros dro oni fyddai wedi dod i ben fel arall yn unol â darpariaethau paragraff 25.

Lwfans anghenion addysgol arbennig (AAA) (paragraff 26)

Egwyddorion cyffredinol

42. Gellir meddu ar lwfansau AAA a CAD ar yr un pryd. Fodd bynnag, dylai cyrff perthnasol, wrth adolygu eu strwythurau staffio, wneud y canlynol:

    (a) sicrhau, yng ngoleuni ailfodelu a throsglwyddo tasgau gweinyddol o athrawon i staff cymorth, nad yw deiliaid lwfansau AAA yn cyflawni tasgau y byddai'n fwy priodol i staff cymorth eu cyflawni;

    (b) ystyried, os oes gan athrawon gyfrifoldebau sy’n bodloni’r holl feini prawf ar gyfer dyfarnu taliadau CAD, oni fyddai’n fwy priodol dyfarnu taliad CAD yn lle lwfans AAA o werth is;

    (c) peidio â pharhau i ddyfarnu taliadau AAA newydd at ddibenion recriwtio a chadw yn unig;

    (ch) sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau AAA yn cael eu nodi’n glir mewn swydd-ddisgrifiadau athrawon unigol.

43. Os bodlonir y meini prawf ar gyfer talu lwfans AAA, rhaid i’r corff perthnasol

ddyfarnu lwfans a dylai hysbysiad ysgrifenedig yr athro a roddir adeg dyfarnu nodi'r swm a'r rheswm dros y dyfarniad.

Asesu gwerthoedd lwfans priodol

44. Wrth bennu gwerthoedd priodol ar gyfer eu lwfansau AAA, dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi ystyried ystod lawn y taliadau sydd ar gael a bod y gwerthoedd a ddewiswyd wedi'u pennu'n briodol rhwng yr isafswm a'r uchafswm a nodir y fframwaith cenedlaethol. Er enghraifft, byddai athro sy'n addysgu dosbarth arbennig sy'n gofyn am gymhwyster gorfodol ac sy'n meddu ar brofiad perthnasol sylweddol (ac a ystyrir felly yn un o weithwyr proffesiynol arweiniol yr ysgol yn y maes hwnnw) yn fwy tebygol o gael lwfans tuag at frig yr ystod genedlaethol. Dylid pennu gwerthoedd gwahaniaethol mewn perthynas â rolau AAA yn yr ysgol er mwyn adlewyrchu gwahaniaethau sylweddol o ran natur a her y gwaith dan sylw yn briodol, fel bod moddcyfiawnhau'r lefelau talu gwahanol mewn modd gwrthrychol.

45. Yn yr un modd, bydd awdurdodau lleol am sicrhau y caiff asesiad gwrthrychol ei gynnal o natur a her y gwaith dan sylw i athrawon yn eu gwasanaethau AAA canolog, er mwyn pennu lefelau perthynol priodol ar gyfer lwfansau rhwng y gwerthoedd cenedlaethol isaf ac uchaf a nodir yn y fframwaith cenedlaethol.

46. Dylai ysgolion ystyried y ffordd y caiff darpariaeth AAA ei threfnu a'i chyflenwi'n lleol ac efallai y byddant am ymgynghori â'u hawdurdod lleol am gyngor ynghylch sefydlu taliadau priodol.

Newidiadau mewn darpariaeth AAA a diogelu darpariaethau

47. Os bydd y corff perthnasol yn newid y ffordd y trefnir ei ddarpariaeth AAA neu'n newid ei bolisi cyflog mewn ffordd sy'n golygu nad yw'r meini prawf a'r ffactorau yn cael eu bodloni mwyach neu sydd bellach yn golygu y gellir talu lwfans is, gallai hyn arwain at leihau gwerth y lwfans neu ei ddiddymu. Mewn achosion o'r fath, bydd y rheolau diogelu cyffredinol yn unol â pharagraff 34 (ac yn unol â pharagraff 4) yn gymwys.

Athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

Creu swydd sy'n talu cyflog uwch nag uchafswm yr ystod cyflog uwch

48. Mae gan ysgolion y disgresiwn i greu swyddi ar gyfer athrawon cymwysedig sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain y broses o wella sgiliau addysgu. Nid oes meini prawf cenedlaethol ar gyfer penodi i swyddi o'r fath. Dylai ysgolion hysbysebu unrhyw swyddi gwag a phenodi ymgeiswyr fel y byddent ar gyfer swyddi gwag eraill, gan fodloni eu hunain bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu arddangos sgiliau addysgu rhagorol ac y byddant yn gallu helpu i arwain y gwaith o wella sgiliau addysgu.

49. Cyfrifoldeb penaethiaid yw penderfynu a ddylai unrhyw swyddi o'r fath gynnwys elfen o allgymorth. Nid oes unrhyw ofyniad canolog iddynt wneud hynny.

Pennu ystod swydd unigol o fewn yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

50. Wrth bennu'r ystod swydd unigol ar gyfer athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol (paragraff 19), dylai'r corff perthnasol ystyried heriau a gofynion y swydd unigol a pherthynoledd cyflog mewnol.

51. Os bydd ysgol yn creu mwy nag un swydd o'r fath, dylid pennu'r ystodau swydd unigol ar gyfer pob swydd ar wahân a gallant wahaniaethu er mwyn adlewyrchu gofynion a heriau gwahanol pob swydd.

Athrawon heb gymhwyso

52. Yng Nghymru a Lloegr, caiff y categorïau canlynol o athrawon heb gymhwyso[4] eu cynnwys yn y Ddogfen os ydynt yn darparu addysg gynradd neu uwchradd o dan gontract cyflogaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau gydag awdurdod lleol neu gorff llywodraethu sy'n gofyn iddynt gyflawni gwaith penodol[5] mewn ysgol:

(a) athrawon a hyfforddwyd dramor;

(b) unigolion y rhoddwyd trwydded iddynt yn unol â darpariaethau Rhan II o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Athrawon) 1993;[6]

(c) athrawon dan hyfforddiant nad ydynt wedi pasio'r prawf sgiliau eto a'r rheini sy'n dilyn hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth sy'n arwain at SAC;

(ch) athrawon cynorthwyol mewn ysgol feithrin neu athrawon dosbarth meithrin, a gyflogwyd fel athrawon yn unol â Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1982 cyn 1 Medi 1989;

(d) yn Lloegr, unigolion sy'n cynnig cyfarwyddyd mewn unrhyw gelfyddyd,sgil, pwnc neu grŵp o bynciau (gan gynnwys unrhyw fath o hyfforddiant galwedigaethol), y mae ganddynt gymwysterau a/neu brofiad arbennig;

(dd) yng Nghymru, unigolion sy'n cynnig cyfarwyddyd mewn unrhyw gelfyddyd, sgil, pwnc neu grŵp o bynciau (gan gynnwys unrhyw fath o hyfforddiant galwedigaethol), y mae ganddynt gymwysterau a/neu brofiad arbennig, a lle nad oes unrhyw athro cymwys, athrograddedig, athro cofrestredig neu athro sy'n dilyn cynllun hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth addas ar gael.

Lwfans athrawon heb gymhwyso (paragraff 27)

53. Lle caiff gwerth lwfans athro heb gymhwyso ei ostwng, bydd trefniadau diogelu yn gymwys yn unol â pharagraffau 3-6 uchod.

54. Ni chaiff athrawon heb gymhwyso CAD na lwfansau AAA.

---

(4) I weld rhestr gyflawn y categorïau hyn, trowch at Orchymyn Addysg (Cymwysterau Rhagnodedig Athrawon Ysgol, ac ati) 2003.

(5) Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig) (Lloegr) 2012 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010.

(6) Fel yr oeddent yn cael eu gweithredu cyn y diwygiad gan Reoliadau Addysg (Athrawon) (Diwygio) (rhif 2) 1997.

Athrawon digyswllt (paragraff 32)

55. Rhaid i ALlau ystyried eu polisi cyflog a'u strwythur staffio wrth bennu tâl athrawon digyswllt. Felly, dylai ALlau sicrhau y caiff y polisi cyflog a'r strwythur staffio eu diweddaru'n gyson o ran eu hathrawon digyswllt.

Diogelu cyffredinol sy'n berthnasol i athrawon sy'n dechrau swydd ar 31 Rhagfyr 2005 neu cyn hynny (paragraff 33)

56. Mae paragraff 33 yn berthnasol i athrawon sy'n destun trefniadau diogelu cyffredinol ac a ddechreuodd weithio mewn swydd newydd cyn 1af Ionawr 2006. Yn ogystal â'r hen ddarpariaethau ynghylch terfynu trefniadau diogelu cyffredinol ym mharagraff 33.10 (gan gynnwys os bydd yr athro yn gwrthod derbyn swydd amgen o fewn yr un awdurdod), bydd trefniadau diogelu cyffredinol athrawon yn dod i ben os byddant yn newid swydd yn wirfoddol.

Diogelu cyffredinol sy'n berthnasol i athrawon sydd wedi dechrau swydd ar 1af Ionawr 2006 neu ar ôl hynny (paragraff 34)

57. Mae trefniadau diogelu ar wahân yn berthnasol i athrawon (gan gynnwys athrawon digyswllt) y dechreuodd eu cyfnod diogelu cyffredinol ar 1 Ionawr 2006 neu ar ôl hynny. Caiff athrawon mewn achosion o'r fath swm ariannol, sef y gwahaniaeth rhwng eu cyflog blaenorol a'u cyflog newydd, a ddiogelir am hyd at dair blynedd. Gweler paragraffau 26-30 uchod.

Diogelu ar gyfer aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, ac athrawon a gyflogwyd yn flaenorol fel athrawon sgiliau uwch neu athrawon rhagorol (paragraff 35)

58. Dylai cyrff perthnasol sicrhau y caiff y trefniadau diogelu gorfodol eu cymhwyso ar gyfer aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, ac athrawon a gyflogwyd yn flaenorol fel athrawon sgiliau uwch neu athrawon rhagorol sy'n colli cyflog.

59. Rhaid i daliadau diogelu i'r rheini a gyflogwyd yn flaenorol fel athrawon sgiliau uwch neu athrawon rhagorol barhau i gael eu talu'n unol â thelerau Dogfen 2012.

60. Os bydd athro sy'n cael taliad diogelu yn unol â pharagraff 35 yn gweithio fel aelod o'r grŵp arweinyddiaeth, neu fel athro ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn ystod absenoldeb dros dro deiliad y swydd honno, caiff y taliad diogelu ei atal yn ystod y cyfnod hwn, ond caiff ei adfer ar ddiwedd y cyfnod dros dro oni fyddai wedi dod i ben fel arall yn unol â darpariaethau paragraff 35.

Tâl athrawon rhan amser

61. Rhaid i'r holl drefniadau cytundebol yr ymrwymir iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Gweithwyr Rhan amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000 (fel y'u diwygiwyd), a Deddf Cydraddoldeb 2010.

62. Rhaid talu canran o'r cyflog cyfwerth ag amser cyflawn priodol i athrawon rhan amser, fel y'i cyfrifir ym mharagraff 65 isod. Rhaid gweithredu'r un ganran i unrhyw lwfansau a ddyfernir i athro rhan amser.

63. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon rhan amser weithio na mynychu diwrnodau, neu rannau o ddiwrnodau, heb ddisgyblion, ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio, ond dylai fod modd i'r athro fynychu drwy gytuno ar hynny â'r pennaeth (gweler paragraff 87 isod), a dylid cymhwyso'r cyfrifiad cyflog ym mharagraff 65 isod ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol a weithiwyd o ganlyniad i hynny.

64. Mae amserlen yr wythnos addysgu yn cyfeirio at oriau sesiwn ysgol a amserlennir ar gyfer addysgu, **gan gynnwys** amser CPA ac amser digyswllt arall ond **heb gynnwys** amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau. Defnyddir amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser fel sail i gyfrifo canran pro rata amserlen wythnos addysgu'r ysgol y cyflogir athro rhan amser ar ei chyfer yn yr un ysgol. Defnyddir y ganran hon i bennu cyfran pro rata tâl athro cyfwerth ag amser cyflawn y mae gan athro rhan amser yr hawl i'w chael. Mae'r ganran yn aros yr un fath p'un a yw'r ysgol yn gweithredu cylch amserlen wythnosol, bob pythefnos neu unrhyw fath arall o gylch amserlen.

65. Mae'r cyfrifiad hwn yn benodol ar gyfer pennu cyfran y tâl (paragraffau 36-37) ac oriau gwaith (paragraffau 51.17-51.27) ar gyfer athrawon rhan amser ac fe'i defnyddir fel y meincnod i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe byddai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser o fewn yr un sefydliad.

Er enghraifft, os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn rhedeg rhwng 9.00am a 12.15pm ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y prynhawn, byddai amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro llawn amser yn 25 awr. Pe byddai athro rhan amser yn cael ei gyflogi ar gyfer sesiynau'r bore yn unig gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, canran yr athro hwnnw o'r amserlen wythnos addysgu fyddai 15 awr. Dangosir y cyfrifiadau manwl yn y tabl isod:

	Sesiwn y Bore (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	+	Sesiwn y Prynhawn (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	x	Nifer y diwrnodau yn yr amserlen (h.y. 5 neu 10 diwrnod)	=	Amserlen wythnos addysgu'r Ysgol (AWAY)	% o AWAY
Llawnamser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan amser	3 awr	+		x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn rhedeg rhwng 9.00am a 12.00pm ac eto rhwng 1.00pm a 3.30pm gydag un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn ystod sesiwn y prynhawn, byddai amserlen wythnos addysgu'r ysgol yn 25 awr. Pe byddai athro rhan amser yn cael ei gyflogi ar gyfer sesiynau'r bore yn unig gan weithio rhwng 9.00am a 12.00pm bob dydd, canran yr athro hwnnw o amserlen wythnos addysgu'r ysgol fyddai

13.75 awr. Dangosir y cyfrifiadau manwl yn y tabl isod:

	Sesiwn y Bore (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	+	Sesiwn y Prynhawn (heb egwyl, cofrestru, gwasanaeth)	x	Nifer y diwrnodau yn yr amserlen (h.y. 5 neu 10 diwrnod)	=	Amserlen wythnos addysgu'r Ysgol (AWAY)	% o AWAY
Llawn amser	2.75 awr	+	2.25 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan amser	2.75 awr	+		x	5 diwrnod	=	13.75 awr	55%

66. Dylai'r corff perthnasol bennu cyfran amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer pob athro rhan amser fel canran o amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser, gan ddefnyddio'r un dull cyfrifo ag uchod.

Athrawon sy'n gweithio mewn mwy nag un ysgol neu mewn ysgol ag amserlenni wythnos addysgu amrywiol

67. Byddai'r un cyfrifiadau'n cael eu gwneud gan bob corff perthnasol unigol neu, os yw athro'n gweithio mewn rhannau gwahanol o ysgol ag amserlenni wythnos addysgu ysgol gwahanol, byddai'n rhaid gwneud dau gyfrifiad (neu fwy) er mwyn pennu tâl pro rata cyfunol ar gyfer yr athro.

Athrawon digyswllt

68. Yn achos athrawon rhan amser digyswllt, dylai cymharydd 'amserlen wythnos addysgu'r ysgol' fod yn athro llawn amser o fewn yr un gwasanaeth yn yr awdurdod lleol.

Grŵp arweinyddiaeth/athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

69. Mae'r egwyddor a nodir ym mharagraffau 58 a 63 uchod hefyd yn berthnasol i aelodau'r grŵp arweinyddiaeth ac athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol. Cyfeiriwch hefyd at baragraff 83 isod ynghylch oriau gwaith (paragraffau 51.17-51.27 o'r Ddogfen).

Taliadau ychwanegol

70. Mae unrhyw daliad i bennaeth yn unol â pharagraff 40 yn destun y terfyn cyffredinol ar daliadau dewisol ym mharagraff 12.1.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

71. Dylai cyrff perthnasol benderfynu pa weithgareddau DPP y gellir talu athrawon amdanynt a phennu lefel briodol o dâl o'r fath yn eu polisi cyflog. Dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu fod yn ymwybodol na fydd rhai athrawon yn dymuno, nac yn gallu, mynychu cyrsiau hyfforddi gyda'r nos, ar benwythnosau neu yn ystod gwyliau o bosibl, a dylent barchu hawl unigolion i wneud eu dewis eu hunain, gan ystyried cyfle cyfartal a gofynion cytundebol er mwyn sicrhau

cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith. Dylai taliadau i athrawon ystafell ddosbarth ond gael eu gwneud mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny a wneir y tu allan i'r amser cyfeiriedig o 1265 awr ar gyfer athrawon llawn amser; neu'r gyfran briodol o'r 1265 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon rhan amser.

Gweithgareddau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)

72. Dylai cyrff perthnasol benderfynu a ddylid gwneud taliadau ychwanegol i unrhyw athro am weithgareddau sy'n ymwneud â darparu HCA. Dim ond ar gyfer HCA a ddarperir fel digwyddiad arferol yn nhrefn yr ysgol y gellir gwneud taliadau o'r fath. Dylai cyrff perthnasol bennu lefel briodol o dâl ar gyfer gweithgareddau HCA yn eu polisi cyflog.

73. Ac eithrio'r rheini a gyflogir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, y gall fod yn ofynnol iddynt gyflawni'r ddyletswydd hon, mae athrawon sy'n ymgymryd â gweithgareddau HCA yn yr ysgol yn gwneud hynny'n gwbl wirfoddol. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys goruchwylio ac arsylwi arfer addysgu; rhoi adborth i fyfyrwyr ar eu perfformiad a bod yn fentoriaid proffesiynol; cynnal seminarau neu diwtorialau ar agweddau ar y cwrs; a chynnal asesiad ffurfiol o gymhwysedd myfyrwyr.

74. Ni ellir ystyried agweddau eraill ar weithgareddau HCA fel digwyddiad arferol yn nhrefn yr ysgol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys gofynion ychwanegol HCA Mewn Ysgol (HCAMY), lle maeysgolion yn arwain y gwaith o ddarparu cyrsiau HCA. Gallant gynnwys cynllunio a pharatoi deunyddiau ar gyfer cwrs HCA, a bod yn gyfrifol am les a hyfforddiant myfyrwyr HCA.

75. Dylid cyhoeddi contractau cyflogaeth ar wahân, nad ydynt yn gontractau addysgu, i ymdrin â'r agweddau ar HCA sy'n ei gwneud yn ofynnol i athro arfer ei farn neu sgiliau proffesiynol ond sy'n mynd y tu hwnt i weithgareddau y gellir eu disgrifio'n ddigwyddiad arferol yn nhrefn yr ysgol. Ni ddylai unrhyw athro gyflawni gweithgareddau gweinyddol a chlerigol rheolaidd sy'n gysylltiedig â HCA. Mae paragraffau 5-12 o Adran 4 yn nodi canllawiau ar hyn, gan gysylltu â pharagraff 52.12 ac Atodiad 3 o'r Ddogfen.

Gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol

76. Dylai cyrff perthnasol benderfynu a ddylid gwneud taliadau i athrawon sy'n cytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol. Dylai polisi cyflog yr ysgol bennu lefel y taliad. Dim ond ar gyfer y gweithgareddau hynny a gyflawnir y tu hwnt i'r 1265 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon llawn amser; neu'r gyfran briodol o'r 1265 awr o amser cyfeiriedig ar gyfer athrawon rhan amser. Dylid cadw cofnod o'r holl gytundebau a'r taliadau sy'n ddyledus. Dylai'r athro ddefnyddio ei sgiliau neu'i ddoethineb proffesiynol wrth gynnal unrhyw weithgareddau o'r fath.

Darparu gwasanaethau

77. Os yw pennaeth mewn un ysgol yn darparu gwasanaeth i ysgol arall, er enghraifft fel Arweinydd Cenedlaethol Addysg (ACA), nid yw'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw yn atebol yn y pen draw am y canlyniadau yn yr ysgol, ond am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dylai'r corff perthnasol y mae ei bennaeth yn darparu'r gwasanaeth bennu faint o dâl ychwanegol, os o gwbl, sy'n ddyledus

i’r unigolyn dan sylw, yn unol â darpariaethau’r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol, er enghraifft os yw’r contract yn gofyn am waith y tu allan i sesiynau ysgol.

78. Mae angen ystyried tâl athrawon eraill sy’n ysgwyddo cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol o ganlyniad i rôl ychwanegol y pennaeth. Bydd hyn yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr athro), y dylid eu cofnodi. Dim ond pan fydd swydd yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i ehangu rôl y pennaeth y dylid cytuno i gynyddu tâl. Nid yw’n awtomatig, a dylai fod yn unol â darpariaethau’r Ddogfen a pholisi cyflog yr ysgol.

79. Pan fydd y trefniant ar gyfer y pennaeth yn un dros dro, bydd unrhyw newid i gyflog athrawon eraill yn drefniant dros dro hefyd, ac ni fydd darpariaethau diogelu yn gymwys pan ddaw’r trefniadau i ben. Dylai’r corff perthnasol ystyried defnyddio lwfansau dros dro a thaliadau dros dro eraill mewn ffordd briodol. Os oes dirprwy bennaeth yn yr ysgol, gall fod yn fwy priodol cynyddu ei ystod cyflog dros dro er mwyn ystyried y cyfrifoldebau cynyddol yn absenoldeb y pennaeth. Gellir hefyd benodi athro dros dro, yn absenoldeb deiliad y swydd barhaol, i swydd o fewn y strwythur staffio sy’n denu taliad CAD; ac os nad yw unrhyw un o’r rhain yn briodol, gall y corff perthnasol ddefnyddio taliadau ychwanegol ym mharagraff 40.1(ch).

80. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r egwyddorion a gofynion gweithredu sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Mae'r holl gyfeiriadau isod at y corff llywodraethu yn cyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol y mae ei phennaeth yn darparu gwasanaethau i ysgol arall.

DARPARU GWASANAETHAU I YSGOLION ERAILL – EGWYDDORION A GOFYNION GWEITHREDU

a. Rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir gan bennaeth un ysgol i ysgol arall gael eu hawdurdodi'n ffurfiol gan y corff llywodraethu ac, os yw'r gwaith yn para mwy na 12 mis, rhaid adolygu cytundeb y corff llywodraethu'n ffurfiol unwaith y flwyddyn, neu'n gynt os yw'n briodol. Dylai'r corff llywodraethu hefyd gytuno ar drefniadau ar gyfer terfynu gwaith o'r fath.

b. Cyn ymgymryd â gwaith o'r fath, rhaid i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried y canlynol:

- anghenion yr ysgol a'i disgyblion;
- y manteision y byddai'r gweithgarwch yn eu cynnig i'r ysgol;
- effaith unrhyw absenoldeb ar aelodau eraill o staff, gan gynnwys eu llwyth gwaith;
- llwyth gwaith a chydbwysedd gwaith-bywyd yr holl unigolion dan sylw.

c. Yn benodol, cyn llunio barn, dylai'r corff llywodraethu fodloni ei hun bod y materion hyn wedi'u hystyried yn llawn o fewn tîm arweinyddiaeth yr ysgol.

ch. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer talu am waith allanol, gan gynnwys tâl personol, gael eu nodi'n glir a'u hymgorffori'n ffurfiol mewn protocol gan y corff llywodraethu (neu'r pwyllgor cyllid), a dylid cofnodi penderfyniadau'n briodol.

d. Dylai'r pennaeth a'r corff llywodraethu fonitro gweithrediad y trefniadau a'u heffaith ar staff a disgyblion, gan gymryd camau lle bo'r trefniadau'n anfoddhaol.

e. Rhaid cytuno ar drefniant unrhyw daliad, gan gynnwys tâl personol, am wasanaethau allanol ymlaen llaw yn unol â phenderfyniadau'r corff llywodraethu. Rhaid nodi telerau cytundeb o'r fath mewn memorandwm a lofnodir gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth, ac unrhyw aelodau eraill o staff dan sylw.

ff. Dylai unrhyw incwm sy'n deillio o ffynonellau allanol ar gyfer gwaith staff ysgol gronni i'r ysgol. Dylai'r corff llywodraethu benderfynu a fyddai'n briodol i aelodau unigol o staff gael tâl ychwanegol am y gweithgareddau hyn ac os felly, bennu'r swm priodol.

g. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau y caiff unrhyw dreuliau y bydd yr unigolyn yn mynd iddynt o ganlyniad i ymgymryd â gwaith ychwanegol eu had-dalu, oni ellir cyfrif amdanynt fel arall.

Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff

8.1 Gall cyrff perthnasol wneud taliadau neu gynnig buddiannau eraill yn unol â pharagraff 41 fel cymhelliad i recriwtio a chadw athrawon, gan gynnwys penaethiaid ac aelodau eraill o'r grŵp arweinyddiaeth. Dim ond at ddibenion recriwtio a chadw y gellir gwneud taliadau yn unol â'r paragraff hwn, ac nid am

gyflawni cyfrifoldebau penodol neu er mwyn ychwanegu at dâl am resymau eraill, a dylent fod yn unol â pholisi cyflog y corff perthnasol. Mae cyrff perthnasol yn rhydd i bennu gwerth unrhyw ddyfarniad. Fodd bynnag, bydd unrhyw ddyfarniad i bennaeth yn unol â pharagraff 41, gan gynnwys buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (y mae'n rhaid pennu gwerth ariannol tybiannol ar eu cyfer), yn ddarostyngedig i'r terfyn cyffredinol ar daliadau dewisol ym mharagraff 12.2; ac ni ddylai arwain at sefyllfa lle caiff y pennaeth swm yn unol â pharagraff 41 a pharagraff 12.1 mewn perthynas â'r un amgylchiadau neu reswm.

82. Dim ond am gyfnod penodol y gellir rhoi dyfarniadau newydd yn unol â pharagraff 41. Dylai'r corff perthnasol nodi'n glir o'r cychwyn hyd disgwyliedig unrhyw gymhellion a buddiannau o'r fath, a dyddiad yr adolygiad sy'n dynodi pryd y gellir eu dileu.

83. Dylai pob corff perthnasol ystyried y canlynol fel rhan o'u hystyriaethau ynghylch polisi cyflog:

(a) a ddylid cynnig cymhellion a buddiannau recriwtio a chadw i athrawon newydd neu bresennol;
(b) os felly, eu natur, eu gwerth, eu hyd ac o dan ba amgylchiadau y cânt eu talu.

84. Os caiff athro gymhelliad neu fudd yn unol â pharagraff 41, dylai hysbysiad ysgrifenedig a roddir adeg y dyfarniad nodi:

(a) a yw'r dyfarniad ar gyfer recriwtio neu gadw;
(b) natur y dyfarniad (symiau arian parod, costau teithio neu gostau tai ac ati);
(c) pryd/sut y caiff ei dalu (fel y bo'n gymwys);
(ch) oni bai mai dyfarniad 'untro' ydyw, dyddiad dechrau a chyfnod disgwyliedig y cymhelliad;
(d) dyddiad yr adolygiad sy'n dynodi pryd y gellir ei ddileu;
(dd) y sail ar gyfer unrhyw godiadau a gymhwysir (fel y bo'n gymwys).

Trefniadau aberthu cyflog (paragraff 43)

85. Gall cyflogwyr gynnig y trefniadau aberthu cyflog a ddisgrifir ym mharagraff 5 i'w cyflogeion os byddant yn dewis gwneud hynny, ac fe'u hanogir i wneud hynny oherwydd dylai'r trefniadau fod yn niwtral o ran cost. Mae paragraff 43 yn caniatáu i athrawon wirfoddoli ar gyfer trefniadau o'r fath, yn unol â'r cyfyngiadau a nodir yn y paragraff. Dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol am drefniadau o'r fath yn unol â pharagraff 43 yn cael ei throsglwyddo i athrawon yn eu hysgolion, er mwyn galluogi'r athrawon i fod yn rhydd i benderfynu a yw aberthu cyflog yn ddewis priodol ai peidio. Mae cymryd rhan mewn trefniadau aberthu cyflog yn ddewis gwirfoddol i athrawon. Ni all cyflogwyr wneud cymryd rhan mewn trefniant aberthu cyflog yn rhag-amod ar gyfer cynnig swydd i ddarpar gyflogai, nac yn rhag-amod ar gyfer dyrchafiad neu fantais arall i gyflogai presennol, ac ni chânt atal y rhai sy'n dymuno cymryd rhan rhag gwneud hynny ychwaith.

Oriau gwaith (paragraffau 51.17-51.27)

Athrawon rhan amser

86. Mae amodau cyflogaeth athrawon rhan amser yn adlewyrchu amodau cyflogaeth athrawon llawn amser (gweler Rhan 6 o'r Ddogfen). Er mwyn osgoi honiadau o wahaniaethu yn erbyn athrawon rhan amser, dylai ysgolion, o leiaf, sicrhau nad yw eu trefniadau ar gyfer defnyddio athrawon rhan amser yn torri'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol ynghylch cyfle cyfartal a gwahaniaethu anghyfreithlon (gweler paragraff 61 uchod).

87. Mae'r cyfrifiad ym mharagraff 65 uchod yn benodol ar gyfer pennu cyfran y tâl (paragraff 36-37 y Ddogfen) ac oriau gwaith (paragraffau 51.17-51.27 o'r Ddogfen) ar gyfer athrawon rhan amser, a dylid ei ddefnyddio fel y meincnod i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe byddai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser. Nid yw'r cyfrifiad, nad yw'n cynnwys dyletswydd egwyl, cofrestru a gwasanaethau, yn golygu na ellirgofyn i athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau o'r fath (gweler Rhan 6 o'r Ddogfen). Nid yw hyn yn pennu'r cymysgedd o addysgu, CPA ac amser digyswllt a gyflawnir gan bob athro rhan amser. Felly, bydd yn bosibl i ddau athro rhan amser yn yr un ysgol fod ar gontract 50%, ond gyda chyfnodau gwahanol o amser addysgu, CPA ac amser digyswllt.

88. Dylai'r corff perthnasol bennu amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer pob athro rhan amser fel canran o amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro dosbarth llawn amser, gan ddefnyddio'r un cyfrifiad ag a ddisgrifir ym mharagraff 65 uchod (paragraffau 36-37 o'r Ddogfen).

89. Bydd athrawon rhan amser yn cael oriau 'amser cyfeiriedig' yn unol â'r ganran hon o 1265 awr; sef nifer yr oriau sy'n gymwys i athro llawn amser mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Felly, rhaid i athrawon rhan amser fod ar gael i gyflawni dyletswyddau o'r fath a nodir gan y pennaeth ar gyfer eu canran rhan amser o 1265 awr ('amser cyfeiriedig') mewn unrhyw flwyddyn ysgol a ddyrennir yn rhesymol yn ystod y diwrnodau a'r sesiynau a weithir fel arfer.

90. Er enghraifft os oes gan athro llawn amser mewn ysgol amserlen wythnos addysgu (h.y. mae gan yr ysgol honno gyfanswm amser sesiwn ysgol) o 25 awr a bod amserlen wythnos addysgu'r ysgol ar gyfer athro rhan amser yn rhychwantu pob bore rhwng 9.00 a 12.15 (h.y. tair awr ac eithrio egwyl o 15 munud), y ganran rhan amser yw 15 dros 25, wedi'i lluosi â 100 i roi 60%. Mae'r ganran yn deillio o'r cyfrifiad ar gyfer tâl athro rhan amser, a ddefnyddir fel y **meincnod** i bennu tâl ac oriau gwaith athro rhan amser mewn perthynas â thâl ac oriau gwaith yr athro pe byddai'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ar sail llawn amser o fewn yr un sefydliad. Felly, byddai'n golygu bod yn rhaid i'r athro rhan amser yn yr enghraifft fod ar gael i weithio 759 awr o amser cyfeiriedig (1265 x 60%).

91. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon rhan amser weithio na mynychu diwrnodau, neu rannau o ddiwrnodau, heb ddisgyblion, ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, dylai fod modd i athro fynychu diwrnodau heb ddisgyblion neu weithio ar ddiwrnodau eraill drwy gytuno ar hynny â'r pennaeth. Fodd bynnag, gellir ei gwneud yn ofynnol iddo gyflawni gwaith sydd o fewn ei

ddyraniad o amser cyfeiriedig y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn amserlen wythnos addysgu'r ysgol, a ddyrennir yn rhesymol ar unrhyw ddiwrnod neu ran o unrhyw ddiwrnod y mae'n ofynnol iddo weithio.

92. Dylai'r corff perthnasol fod wedi sicrhau, yn weithredol o 1 Medi 2008, fod pob athro a gyflogir yn rhan amser yn cael datganiad ysgrifenedig y cytunwyd arno sy'n nodi disgwyliadau'r ysgol, a'r athro rhan amser, ynghylch trefnu oriau gwaith. Dylai hyn gynnwys amser addysgu ar yr amserlen ac amser arwain a rheoli lle y bo'n gymwys. Dylai'r datganiad hefyd nodi disgwyliadau'r ysgol o ran amser cyfeiriedig a ddefnyddir y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

93. Ni ddylid dyrannu cyfran fwy o amser cyfeiriedig i athro rhan amser y tu allan i'w sesiynau arferol nag a wneir ar gyfer athrawon llawn amser, oherwydd gallai hyn fod yn gyfystyr â gwahaniaethu. Wrth drefnu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill y tu allan i sesiynau ysgol, dylai penaethiaid geisio osgoi sefyllfaoedd lle dyrennir amser cyfeiriedig i athrawon rhan amser y naill ochr neu'r llall i gyfnod pan nad yw'n ofynnol iddynt fod ar gael i weithio ar unrhyw ddiwrnod penodol, drwy lunio amserlenni cyn belled ag y bo'n bosibl yn unol â phatrymau gwaith.

Grŵp arweinyddiaeth/athrawon ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol

94. Nid yw aelodau'r grŵp arweinyddiaeth na'r rheini ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn gweithio o dan gontract tymor penodol ac nid ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau oriau gwaith paragraffau 51.17-51.27 o'r Ddogfen. Serch hynny, mae dyletswydd ar y pennaeth (neu'r corff perthnasol yn achos y pennaeth) o hyd i ystyried cydbwysedd gwaith-bywyd staff o'r fath, a dylai sicrhau bod llwyth gwaith aelodau rhan amser o'r grŵp arweinyddiaeth a'r rheini ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol yn rhesymol a'u bod yn cael eu trin yn deg o gymharu â staff cyfwerth ag amser llawn cyfatebol (gweler paragraff 44.2 o'r Ddogfen).

Ffynonellau gwybodaeth bellach

Adnoddau cysylltiedig

Mae'r dolenni canlynol yn cynnig gwybodaeth fanylach am:

- Rheoliadau Amser Gwaith 1998
- Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000
- Rheoliadau Gweithio Hyblyg (Cymhwysedd, Cwynion a Rhwymedïau) 2002
- Canllaw Acas ar Weithio Hyblyg
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2012
- Cyngor adrannol - Adolygu a diwygio dull eich ysgol o dalu athrawon
- Bydd gwefan yr adran yn cynnwys amrywiaeth o gyngor a chanllawiau i helpu ysgolion ac ALlau i roi prosesau newydd ar waith ar gyfer cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad a threfniadau'n ymwneud â'r ystod cyflog uwch a'r ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol.

Adran 4 - Canllawiau ar Newidiadau i'r Ddogfen o Ganlyniad i'r Cytundeb Cenedlaethol[7]

1. Mae'r adran hon o'r canllaw yn ymwneud â'r newidiadau i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (y Ddogfen) sy'n deillio o'r Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Baich Gwaith (y Cytundeb Cenedlaethol). Mae llofnodwyr y Cytundeb hwnnw wedi cytuno arno a'i gymeradwyo, ac maent o'r farn bod y newidiadau'n helpu i leihau llwyth gwaith athrawon a chodi safonau drwy ryddhau athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae'r llofnodwyr wedi ymrwymo i adolygu'r gwaith o weithredu pob agwedd ar y Cytundeb Cenedlaethol.

2. Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at newidiadau cytundebol i'r Ddogfen a ddaeth i rym ym mis Medi 2003, mis Medi 2004 a mis Medi 2005, a'r rhai a ddaw i rym ym mis Medi 2009. Mae canllaw manwl ar gael yn: **http://www.tda.gov.uk/remodelling.aspx**.

Newidiadau 2003

Tasgau Gweinyddol a Chlerigol

Diben y darpariaethau

3. Mae angen cymorth ar athrawon i'w galluogi i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu, ac maent yn disgwyl i waith prosesu gweinyddol a chlerigol fel arfer gael ei wneud gan staff cymorth a/neu drwy ddefnyddio TGCh mewn modd mwy effeithiol. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau na ellir gofyn i athrawon gyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol fel mater o drefn.

4. Mae'r newidiadau cytundebol yn gymwys i bob athro mewn ysgol, gan gynnwys athrawon ar y golofn arweinyddiaeth ac athrawon uwch sgiliau, p'un a ydynt ar gontractau parhaol, tymor penodol neu dros dro, ac i athrawon ar gontractau rhan amser.

5. Nid oedd y contract ar gyfer penaethiaid byth yn cynnwys dyletswydd i gyflawni'r math hwn o dasg. Fodd bynnag, arferai rhai penaethiaid deimlo bod rheidrwydd arnynt yn aml i gyflawni gwaith o'r fath. Roedd hynny'n tynnu eu sylw oddi wrth eu rôl arwain. Dylent bellach fod wedi nodi unrhyw dasgau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach a dirprwyo'r tasgau hynny y byddai'n fwy priodol iddynt gael eu cyflawni gan aelodau o staff cymorth yr ysgol.

Diffinio tasgau gweinyddol a chlerigol

6. Mae rhai tasgau gweinyddol yn syml – ffeilio cofnodion disgyblion, cofnodi data absenoldeb a chasglu arian. Mae angen mwy o arbenigedd er mwyn cyflawni tasgau eraill, fel gweinyddu arholiadau, archebu offer a llunio a chyflwyno cynigion, ond nid arbenigedd athro o reidrwydd.

7. Mae llawer o weithgareddau mewn ysgolion yn galw am gymysgedd o gyfraniad

---

[7] *Efallai na fydd canllaw ychwanegol y cyfeirir ato yn yr adran hon, ar gael mwyach.*

proffesiynol a gweinyddol. Er enghraifft, mae angen arbenigedd athro er mwyn ysgrifennu adroddiadau ar gynnydd disgyblion. Ond **nid** oes angen yr arbenigedd hwnnw ar gyfer llawer o'r prosesau dan sylw wrth lunio'r adroddiad – er enghraifft, "cwtogi" adroddiadau neu eu coladu naill ai â llaw neu gan ddefnyddio system TGCh. Ni ddylai athrawon gyflawni'r elfennau hyn fel mater o drefn.

8. At ddibenion paragraff 52.12 a 52.13 dylai'r profion allweddol ar gyfer unrhyw dasg fod fel a ganlynol:

   a) A oes angen ei gwneud o gwbl?

   b) A yw'r dasg o natur weinyddol neu glerigol?

   c) A yw'n galw am farn neu sgiliau proffesiynol athro?

9. Os mai'r ateb i a) a b) yw ydy, ond mai'r ateb i c) yw nac ydy, ni ddylai'r dasg gael ei chyflawni gan athro. Mae'r rhestr yn Atodiad 3 i'r Ddogfen yn cynnwys nifer o enghreifftiau. Ni fwriedir iddo fod yn rhestr hollgynhwysfawr.

"Yn ofynnol fel mater o drefn"

10. Nid oes rhaid i dasgau gael eu cyflawni bob dydd er mwyn iddynt gael eu hystyried yn dasgau a gyflawnir fel mater o drefn. Efallai mai dim ond unwaith y flwyddyn y caiff llawer o dasgau eu cyflawni, fel coladu adroddiadau - ond byddai'r dasg hon yn dal i gael ei hystyried yn un a gyflawnir fel mater o drefn.

11. Dylai ysgolion sicrhau bod eu systemau gweinyddol yn rhoi cymorth priodol i athrawon. Mae'n bwysig bod athrawon yn manteisio ar y cymorth hwnnw. Mae hyn yn golygu bod angen i holl staff yr ysgol drefnu gweithgareddau gweinyddol yn dda – byddai'n afresymol, er enghraifft, i athro ofyn i waith llungopïo swmp mawr gael ei wneud yn syth cyn gwers. Rhaid i ysgolion sicrhau bod y system weinyddol sydd ar waith yn ddigon cadarn i ddiwallu anghenion parhaus yr agenda ailfodelu, a bod y rheini sy'n ei defnyddio a'r rheini sy'n ei darparu yn ei deall yn dda.

12. Nid yw'r newidiadau a adlewyrchir yn y darpariaethau cyfreithiol hyn yn fecanistig nac yn ymwneud â materion cul o ran pennu ffiniau swyddi. Maent yn ceisio sicrhau bod athrawon yn gallu neilltuo mwy o amser i gyflawni tasgau addysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

13. O ganlyniad, ni ddylai fod modd i athrawon "ddewis" gwneud gwaith gweinyddol a chlerigol. Nid yw hynny'n gwneud defnydd priodol o amser athro. Dylai penaethiaid sicrhau nad yw athrawon yn cyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu cyfnod anodd o addasu i rai athrawon. Mae cyfrifoldebau proffesiynol athrawon yn hollbwysig ac er mwyn cyflawni'r amcan o godi safonau a mynd i'r afael â llwyth gwaith, rhaid iddynt dreulio cyfran fwy o'u horiau gwaith yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Athrawon â lwfansau rheoli a ddiogelir ar gyfer tasgau gweinyddol a chlerigol

14. Weithiau bydd gan athrawon lwfansau rheoli a ddiogelir, a roddwyd yn wreiddiol er mwyn cyflawni tasgau a drosglwyddwyd bellach i aelodau o staff cymorth yr ysgol. Yn unol â'r darpariaethau diogelu ym mharagraff 4.2, rhaid i'r corff perthnasol adolygu'r dyletswyddau a neilltuwyd i'r athro a dyrannu dyletswyddau ychwanegol o'r fath fel y gwêl yn briodol ac yn gymesur â'r swm a ddiogelir, cyhyd ag y telir y

swm a ddiogelir i'r athro. Yng nghyd-destun yr agenda ailfodelu, dylai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol o'r fath ganolbwyntio ar addysgu a dysgu. Nid oes gofyniad ffurfiol i gytuno ar natur y dyletswyddau ychwanegol, er bod ceisio gwneud hynny yn arfer rheoli da.

15. Dylai aelodau'r grŵp arweinyddiaeth, yr oedd eu cyfrifoldebau blaenorol yn cynnwys tasgau o natur weinyddol a chlerigol a drosglwyddwyd i staff cymorth ers hynny, bellach allu canolbwyntio'n fwy ar addysgu a dysgu, a chyflawni eu rôl gytundebol, fel y'i diffinnir ym mharagraff 49.1 y Ddogfen. Mae hyn yn cynnwys: llunio nodau ac amcanion yr ysgol; sefydlu'r polisïau er mwyn eu cyflawni; rheoli staff ac adnoddau i'r perwyl hwnnw; a monitro cynnydd tuag at eu cyflawni.

16. Dylai penaethiaid sicrhau bod y trefniadau hyn yn gweithredu'n ffeithiol.

Adolygu systemau gweinyddol

17. Dylai systemau gweinyddol, a'r tasgau a restrir yn Atodiad 3 yn benodol, gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn pennu a oes ffyrdd gwahanol y gellir cyflawni tasgau, neu a oes angen eu cyflawni o gwbl. Ni ddylai athro fod yn cyflawni unrhyw dasg weinyddol, nad yw'n gofyn am ei farn neu sgiliau proffesiynol.

18. Wrth roi tasgau gweinyddol a chlerigol i staff cymorth, dylai penaethiaid ystyried pa mor addas yw'r dasg i rôl gyfredol yr aelod o staff cymorth; a oes digon o amser ar gael neu a ellid rhyddhau amser; a oes angen hyfforddiant ychwanegol; ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cyflog a graddio; Dylai'r pennaeth a'r aelod o staff fel arfer gytuno ar unrhyw ddiwygiadau i swydd-ddisgrifiadau. Rhaid i unrhyw estyniad i oriau gwaith fod drwy gytundeb.

19. Lle y nodir bod angen staff ychwanegol, efallai y bydd penaethiaid am fanteisio ar y cyfle i ystyried a allai'r swydd newydd gynnwys nifer o'r agweddau ar rolau staff cymorth estynedig a nodir yn y Cytundeb Cenedlaethol. Mae nifer o ysgolion hefyd wedi cael budd o greu rolau arbenigol penodol, fel swyddogion iechyd a diogelwch, swyddogion arholi ac amserlennu, clercod presenoldeb a staff cymorth technegol. Ar gyfer tasgau penodol, efallai y bydd ysgolion bach am ystyried a fyddai modd rhannu swydd (er enghraifft, Bwrsar) gydag ysgol neu ysgolion cyfagos.

20. Mae profiad yn awgrymu y bydd staff cymorth yn cyflawni tasgau gweinyddol yn fwy effeithlon nag athrawon, nid yn unig am fod y gweithlu wedi'i neilltuo'n well, ond hefyd am mai'r tasgau hyn fydd eu prif swyddogaeth, yn hytrach na gorchwyl digroeso sy'n tynnu eu sylw oddi wrth addysgu a dysgu.

Rheoli

21. Ni ddylai rheoli gwaith staff eraill (paragraff 51.10 - 51.14) gynnwys ceisio neu roi cyngor rheolaidd ar faterion cytundebol megis cyflog ac amodau cyflogaeth. Nid oes gofyniad yn y Ddogfen i athrawon roi cyngor o'r fath. Dylid cyfeirio'r materion hyn at yr unigolyn sy'n gyfrifol yn benodol am faterion personél a/neu'r cyflogwr.

22. Mae gan athrawon ddyletswydd i gyfarwyddo a goruchwylio gwaith staff cymorth, gan gynnwys yn benodol y rheini sy'n cyflawni gweithgareddau addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ni ddylai olygu'n awtomatig ei bod yn ofynnol iddynt gyflawni agweddau ffurfiol ar eu trefniadau rheoli llinell. Mae nifer o ysgolion o'r farn ei bod

yn briodol ac yn arfer da i uwch aelod o staff cymorth gyflawni'r rôl hon.

Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith

Diben y darpariaethau

23. Dylai pob athro a phennaeth fwynhau cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith. Diwygiwyd y Ddogfen er mwyn adlewyrchu hyn. O ran penaethiaid, rhoddwyd darpariaethau penodol ar waith drwy reoliadau a wnaed yn unol ag adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff perthnasol (corff llywodraethu ysgol neu ALl fel arfer) ystyried cydbwysedd gwaith-bywyd y pennaeth.

24. Yn Lloegr, roedd Rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Lloegr) 2005 (2005/1910) yn nodi dyletswydd y corff perthnasol o ran rheoli'r pennaeth. Ymgorfforwyd y ddyletswydd hon yn Rheoliadau Staffio Ysgolion (Lloegr) (Cydgrynhoi) 2009, sy'n cyfeirio at gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn yr adran ar ddyletswyddau a hawliau penaethiaid. Yng Nghymru, mae Rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1910 (W.153)) yn nodi dyletswydd y corff perthnasol o ran rheoli'r pennaeth. Ymgorfforwyd y ddyletswydd hon yn Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2009 ac mae'n cyfeirio at gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn yr adran ar ddyletswyddau a hawliau penaethiaid.

Gweithredu a monitro cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

25. Mae cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn ymwneud â helpu athrawon i gyfuno eu gwaith a'u diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Gall helpu i recriwtio a chadw staff uchel eu cymhelliant drwy roi mwy o reolaeth iddynt dros eu bywydau gwaith ac ymdeimlad cryfach o berchenogaeth. Mae ysgol sy'n ymrwymedig i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn gwneud y canlynol:

    a) cydnabod y bydd arferion effeithiol i hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o fudd i athrawon a disgyblion;

    b) amlygu'r cydgyfrifoldeb i drafod atebion ymarferol ac annog partneriaeth rhwng athrawon unigol a'u rheolwyr llinell;

    c) datblygu, monitro a gwerthuso polisïau priodol ac ymatebion ymarferol sy'n diwallu anghenion penodol yr ysgol, gan ystyried tegwch a chysondeb; a gwerthfawrogi athrawon am eu cyfraniad at godi safonau, nid eu patrwm gwaith;

    ch) cyfleu ei hymrwymiad i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'w staff;

    d) arddangos arweinyddiaeth ac annog uwch reolwyr i arwain yn ôl esiampl.

26. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i gyflogeion yn unol â chyfraith gwlad a dyletswydd gyfreithiol yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan gynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig, a Rheoliadau Oriau Gwaith 1998. Yn ogystal, rhoddwyd pedair darpariaeth ar waith i annog ysgolion i ddatblygu strategaethau effeithiol i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith:

a) rhaid i nifer yr oriau ychwanegol ar gyfer athrawon dosbarth y tu hwnt i'r 1265 o oriau blynyddol fod yn rhesymol:

b) dylai cyfanswm oriau'r athrawon hynny (dirprwy benaethiaid, penaethiaid cynorthwyol ac athrawon sgiliau uwch) nad yw'r uchafswm blynyddol o 1265 awr mewn perthynas ag amser cyfeiriedig yn gymwys iddynt, fod yn rhesymol;

c) rhaid i benaethiaid ystyried pa mor ddymunol ydyw i holl athrawon yr ysgol (gan gynnwys eu hunain ac aelodau eraill o'r grŵp arweinyddiaeth) allu sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol a'r amser sydd ei angen i ddilyn eu diddordebau personol y tu allan i'r gwaith;

ch) i'r graddau bod penaethiaid yn cyfarwyddo eu gwaith eu hunain, fe'u cwmpesir gan y ddarpariaeth uchod. Fodd bynnag, rhoddwyd darpariaethau penodol ar waith drwy reoliadau a wnaed yn unol ag adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff perthnasol (boed yn gorff llywodraethu'r ysgol neu ALl) ystyried cydbwysedd gwaith-bywyd ei bennaeth, a sicrhau nad yw'n ofynnol iddo weithio oriau afresymol ac y gall sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith.

27. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o ymrwymiad ehangach ers mis Medi 2003 i geisio gostwng nifer yr oriau gwaith gormodol sy'n cael eu gweithio mewn ysgolion dros y blynyddol, gyda gostyngiadau cynyddol o flwyddyn i flwyddyn o tua 52 awr yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Yn gyffredinol, bydd oriau athrawon yn parhau i gael eu monitro.

28. Mae gwahanol ysgolion yn wynebu heriau o raddau amrywiol wrth gyflawni'r amcan hwn. Mae nifer o strategaethau eraill yn cynorthwyo penaethiaid a chyrff llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) diwygio cylchlythyrau 2/98 a 22/98 er mwyn ymdrin â darpariaethau nad ydynt yn rhai cytundebol, fel cynnal cyfarfodydd ac amlder cyfarfodydd. Mae'r rhain yn helpu i fynd i'r afael â llwyth gwaith athrawon a biwrocratiaeth ddianghenraid ar lefel ysgol;

b) y rhaglenni rheoli newid yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys cyngor a chanllawiau gan yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion (TDA) yn Lloegr, lle y mae modd i ysgolion fanteisio ar gymorth rhwydwaith o hwyluswyr/cynghorwyr lleol;

c) gweithredu'r Uned Adolygu Gweithredu (yn Lloegr) a'r Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (yng Nghymru), sy'n mynd i'r afael â phrosesau biwrocrataidd a gwaith papur dianghenraid i athrawon, penaethiaid a phawb sy'n gweithio mewn ysgolion.

29. Mae gwaith paratoi effeithiol yn hanfodol wrth gyflwyno a monitro polisïau cydbwysedd bywyd a gwaith. Dylai penaethiaid ystyried y ffordd orau o sicrhau eu bod yn monitro cydbwysedd bywyd a gwaith eu staff. Yn ogystal, gallai ymgynghori gyda staff a chynrychiolwyr undebau llafur geisio datblygu strategaethau a gweithdrefnau cytyn ar gyfer monitro. Mae'n hanfodol bod polisïau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyfleu mewn ffordd effeithiol, efallai drwy gyfrwng diwrnodau digyswllt neu thrwy gynnwys cydbwysedd bywyd a gwaith

mewn adolygiadau a gwerthusiadau staff.

30. Mae cynnal cydbwysedd bywyd a gwaith effeithiol yn gofyn am weithgarwch parhaus er mwyn monitro a gwerthuso pwysau gwaith. Efallai y bydd rhai athrawon yn ei chael hi'n anodd rhyddhau eu gafael ar waith – os felly, bydd angen i benaethiaid barhau i gymryd camau er mwyn sicrhau bod materion o'r fath yn cael sylw a'u bod yn cael eu datrys gyda'r athrawon dan sylw. Ni fydd y disgyblion yn elwa os bydd athrawon yn gweithio oriau rhy hir.

Amser Arwain a Rheoli

Diben y darpariaethau

31. Mae angen amser ar aelodau'r grŵp arweinyddiaeth er mwyn iddynt ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau arwain a chael cymorth wrth arwain yr agenda ddiwygio a rheoli newid yn eu hysgolion.

32. Mae gan nifer o athrawon y tu allan i'r grŵp arweinyddiaeth ryw fath o gyfrifoldeb arwain a rheoli hefyd, gan gynnwys cydgysylltwyr ac arweinwyr pwnc, penaethiaid adran neu gyfadran, Athrawon Sgiliau Uwch, cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig a mentoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon.

33. Bellach, mae gan athrawon y mae ganddynt gyfrifoldebau arwain a rheoli, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yr hawl i gael amser rhesymol o fewn sesiynau ysgol[8] er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn ychwanegol i'r darpariaethau cytundebol ynghylch cydbwysedd bywyd a gwaith ac amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), a gyflwynwyd ar 1af Medi 2005.

34. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser arwain a rheoli yn berthnasol i bob athro yn yr ysgol lle mae ganddo gyfrifoldebau arwain a rheoli, p'un a yw wedi'i gyflogi o dan gontract parhaol, contract cyfnod penodol neu gontract dros dro. Mae'n berthnasol i athrawon ar gontractau rhan amser hefyd.

35. Yn ogystal, mae gan benaethiaid hawl gyfreithiol i ddyraniad rhesymol o amser arwain a rheoli o ganlyniad i hwn a diwygiadau eraill. Mae'r rhain yn egluro bod arweinyddiaeth yn un o ddyletswyddau craidd pennaeth ac y dylent fod yn ymwneud â gweithgarwch addysgu i'r graddau sy'n briodol o ystyried ei arweinyddiaeth a'i swyddogaethau a'i ddyletswyddau eraill. Yn ogystal, cyflwynwyd darpariaeth ar gyfer amser prifathrawiaeth pwrpasol ar 1af Medi 2005.

Gweithredu

36. O ystyried natur a graddau amrywiol y cyfrifoldebau sydd gan athrawon, mae'n anodd nodi fformiwla ynghylch faint o amser sy'n briodol ar gyfer pob cyfrifoldeb. Mater i'r ysgol yw hyn. Dylai ysgolion gadw llygad ar ddyraniadau amser arwain a rheoli.

---

(8) Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Lloegr) 1999 (1999/3181) yn nodi "y bydd pob diwrnod y bydd ysgol yn cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn, a fydd yn cael eu gwahanu gan egwyl yng nghanol y dydd" ac y bydd "o leiaf 380 o sesiynau'n cael eu cynnal mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol". O dan Reoliadau Addysg (Sesiynau Ysgol a Pholisïau Newidiadau a Dileadau) (Gwybodaeth) 1999 (1999/2255), mae gofyn i benaethiaid hysbysu rhieni o'r "amseroedd y bydd pob sesiwn yn yr ysgol yn dechrau ac yn gorffen ar ddiwrnod ysgol".

37. Bwriad darparu amser arwain a rheoli yw cyfrannu at yr amser sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau perthnasol. Yn unol â'r cymhwyster hwnnw, rhaid dyrannu rhywfaint o amser ar gyfer arwain a rheoli o fewn sesiynau ysgol, gan ystyried natur a graddau cyfrifoldebau pob aelod o staff a strwythur rheoli'r ysgol. Er mwyn i'r amser fod yn ystyrlon, ni ddylid ei neilltuo mewn blociau byrion, er enghraifft deng i ugain munud yma ac acw.

38. Mae'r Ddogfen yn ei gwneud yn ofynnol i waith cyflenwi yn cael ei neilltuo mewn ffordd deg. Er bod modd defnyddio amser arwain a rheoli at ddibenion cyflenwi, prin iawn y dylai hynny ddigwydd, ac mewn amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld.

39. Mae modd nodi amser arwain a rheoli gan ddefnyddio un o'r strategaethau canlynol, neu gyfuniad ohonynt:

    a) amser digyswllt sy'n bodoli eisoes, a neilltuwyd yn benodol at y diben hwnnw yn barod;

    b) ailbennu rhywfaint neu'r holl amser digyswllt a neilltuwyd yn flaenorol er mwyn cynorthwyo amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gofyn am arbenigedd proffesiynol athro cymwysedig (ac y dylai staff cymorth priodol eu cyflawni felly);

    c) rhyddhau athrawon o amser cyswllt gyda disgyblion nad yw'n cynnwys addysgu. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio disgyblion, cofrestru, mynychu gwasanaethau a thasgau tebyg eraill y mae modd i staff cymorth priodol eu cyflawni. Pan fo hynny'n briodol, dylai hyn fod yn unol â darpariaethau'r rheoliadau a'r canllawiau a wnaed yn unol ag adran 133 o Ddeddf Addysg 2002.

40. Dylai pob ysgol sicrhau bod yr amser arwain a rheoli sy'n cael ei neilltuo yn rhesymol.

41. Dylai ysgolion fod wedi sicrhau bod beth bynnag a wnaed eisoes mewn perthynas â darparu amser arwain a rheoli, yn gynaliadwy yng nghyd-destun amser CPA.

Dim colled

42. Os oedd gan athrawon eisoes amser digyswllt ar yr amserlen ar gyfer cyfrifoldebau arwain a rheoli, nad oedd y newid cytundebol mewn perthynas â thasgau gweinyddol a chlerigol yn effeithio arno, ni ddylai'r amser fod wedi cael ei leihau o ganlyniad i weithredu'r newidiadau cytundebol mewn perthynas ag amser arwain a rheoli.

Athrawon a Neilltuir

Diben y darpariaethau

43. Roedd y newidiadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 133 o Ddeddf Addysg 2002 a chanllawiau ategol. Fe'u cynlluniwyd er mwyn diogelu rôl yr athro cymwysedig ac er mwyn atal dirprwyo swyddi. Dylid darllen y darpariaethau ar y cyd â rheoliadau adran 133 a'r canllawiau ategol.

44. Mae rheoliadau adran 133 yn egluro rolau priodol athrawon cymwysedig a staff

eraill mewn ysgolion, gan nodi amgylchiadau lle y gall mathau penodol o staff heb statws athro cymwysedig (staff cymorth fel arfer) wneud “gwaith penodedig” sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu, gan gynnwys gofynion ynghylch athro yn cyfarwyddo ac yn goruchwylio staff cymorth mewn ffordd briodol.

45. Mae’r newidiadau i’r Ddogfen yn gosod dyletswydd ar benaethiaid i sicrhau bod athro yn cael ei neilltuo i addysgu pob dosbarth neu grŵp ar yr amserlen ar gyfer pynciau craidd a sylfaen, ac ar gyfer addysg grefyddol, a phob dosbarth neu grŵp yn y cyfnod sylfaen. Mae’r athro a neilltuir yn gyfrifol am gynnydd y disgyblion yn y dosbarth/grŵp yn ystod y flwyddyn academaidd. Gall athrawon a neilltuir gael cymorth gan athrawon eraill a/neu staff cymorth, y gall rhai ohonynt wneud “gwaith penodedig”, a gaiff eu hamserlennu i gymryd y dosbarth/grŵp hwnnw ar gyfer gweithgareddau neu wersi penodol.

46. Mae Paragraff 4 Atodlen 2 y rheoliadau yn ymwneud â phenodi hyfforddwyr - rhywun y mae ganddynt gymwysterau neu brofiad arbennig neu’r ddau. Mewn amgylchiadau pan na fydd athro cymwysedig ar gael i'w benodi, na hyfforddai ar y Rhaglenni Athrawon Graddedig, Athrawon Cofrestredig neu Athrawon a Hyfforddwyd Dramor, mae modd i'r corff sy'n penodi staff yn yr ysgol berthnasol fel arfer, naill ai’r ALl neu’r corff llywodraethu, benodi hyfforddwr, ar yr amod ei fod wedi ffurfio'r farn angenrheidiol ynghylch cymwysterau a phrofiad yr hyfforddwr.

Newidiadau 2004 a 2009

Cyflenwi

Cefndir

47. Rhoddodd y Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i’r Afael â Llwyth Gwaith a lofnodwyd ym mis Ionawr 2003 y sail ar gyfer gwaith gan ysgolion i alluogi athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio mwy o’u hamser ar addysgu, ac arwain addysgu a dysgu, gan gynnwys drwy gyfrwng:

    a) gostyngiadau cynyddol yng nghyfanswm oriau cyffredinol athrawon;

    b) newidiadau i gontractau athrawon, er mwyn lleddfu’r baich ar bob athro a phennaeth o ran cyflenwi ar gyfer cydweithwyr sy’n absennol;

    c) defnyddio staff cymorth er mwyn galluogi athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu.

Diben y darpariaethau

48. Mae cynnydd o ran codi safonau i ddisgyblion yn dibynnu ar ysgolion yn gweithredu polisïau a systemau er mwyn rhyddhau athrawon a phenaethiaid o lwyth gwaith gormodol ac amhriodol.

49. Nid yw cyflenwi yn absenoldeb rhywun yn ffordd effeithiol o ddefnyddio amser athrawon.

50. Yn y gorffennol, mae nifer o athrawon wedi ysgwyddo baich trwm wrth gyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol. Fodd bynnag, yn unol â’r darpariaethau a nodir yn y

Ddogfen, dim ond mewn amgylchiadau prin, nad oes modd eu rhagweld, y bydd modd i athrawon gyflenwi.

51. I'r ysgol, mae “amgylchiadau y mae modd eu rhagweld” yn cynnwys digwyddiadau y mae modd eu rhagweld ar sail profiad hanesyddol; digwyddiadau y mae modd eu rhagweld o ran y profiad lleol arferol; a digwyddiadau y mae modd eu disgwyl fel rhan o batrwm esblygol y ddarpariaeth.

Gweithredu

52. O 1af Medi 2009, mae gofyn i ysgolion a'r pennaeth sicrhau bod yr adegau y bydd gofyn i athrawon a'r pennaeth gyflenwi, yn adegau prin.

53. Mae'r ddarpariaeth gytundebol yn berthnasol i bob athro a'r pennaeth mewn ysgol, gan gynnwys athrawon ar y golofn arweinyddiaeth ac athrawon sgiliau uwch, os ydynt ar gontractau parhaol, contractau cyfnod penodol neu gontractau dros dro a pro rata i athrawon ar gontractau rhan amser.

54. Yr unig eithriadau yw athrawon a gyflogir yn llwyr neu'n bennaf er mwyn cyflawni dyletswyddau cyflenwi.

55. Mae'r Ddogfen yn cynnwys dyletswydd i benaethiaid sicrhau bod gwaith cyflenwi yn cael ei rannu mewn ffordd deg ymhlith yr holl athrawon yn yr ysgol (gan gynnwys y pennaeth), gan ystyried eu dyletswyddau addysgu a'u dyletswyddau eraill, a'r angen i sicrhau mai dim ond ar adegau prin y bydd modd gofyn i athrawon a'r pennaeth gyflenwi, yn achos amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld.

56. Mae amser CPA athrawon mewn ysgol yn rhan o'r amodau cyflogaeth cyfreithiol ac nid oes modd ei ddefnyddio er mwyn cyflenwi.

Diffinio absenoldeb

57. Mae absenoldeb yn digwydd pan fydd y sawl a nodwyd yn yr amserlen i gymryd dosbarth neu grŵp penodol yn absennol. Gallai'r math o absenoldeb fod am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys gweithgareddau mewnol ac allanol yn ogystal â salwch. Gallai fod yn absenoldeb tymor byr neu dymor hir. Dylid rheoli pob math o absenoldeb mewn ffordd ofalus er mwyn lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu ar gyfer y disgybl gymaint ag y bo modd.

58. Rhoddir y pwys mwyaf ar safonau disgyblion.

59. Absenoldeb y sawl a nodwyd yn yr amserlen i gymryd dosbarth neu grŵp penodol sy'n sbarduno'r trefniant cyflenwi.

60. Dim ond ar adegau prin y dylai athrawon, gan gynnwys y pennaeth, gyflenwi yn ystod absenoldebau nad oes modd eu rhagweld.

Rheoli

61. Dylai pob ysgol feddu ar bolisi eglur a system gadarn, lle na fynnir bod athrawon neu'r pennaeth yn cyflenwi, oni bai ar adegau prin.

62. Dim ond yn ystod absenoldebau tymor byr y dylid defnyddio goruchwylwyr

cyflenwi a chynorthwywyr addysgu lefel uwch, ac ni ddylid eu defnyddio fel datrysiad ar gyfer absenoldeb tymor canolig neu dymor hir athro.

63. Dylai absenoldebau tymor canolig a thymor hir gael eu cyflenwi gan athro, trwy gyfrwng penodiad am gyfnod penodol neu athro cyflenwi o bosibl.

64. Bydd angen i bob ysgol ystyried defnyddio athro cyflenwi mewn ffordd briodol ar gyfer absenoldeb tymor hir ac efallai y bydd yn dymuno diwygio'r amserlen y cytunwyd arni os ceir sail addysgol dda dros wneud hynny. Dylai diwygiadau o'r fath i'r amserlen y cytunwyd arni fod yn destun gweithgarwch ymgynghori gyda'r staff a'u cynrychiolwyr undeb.

65. Dylai'r ysgol fonitro a dadansoddi patrymau absenoldeb (wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio) a lefelau cyflenwi, gan reoli'r rhain mewn ffordd briodol.

66. Dylai'r aelod o staff cymorth sy'n gweinyddu'r trefniadau cyflenwi gadw cofnod o gyfanswm y gwaith cyflenwi a gyflawnwyd gan bob athro. Yn ogystal, mae'n ddoeth cadw cofnodion am y gwaith cyflenwi a gyflawnwyd gan staff eraill os yw eu contract a'u swydd ddisgrifiad yn nodi bod/y bydd cyfran o'u hamser ar gael er mwyn darparu goruchwyliaeth gyflenwi.

Calendr ac amserlen ysgol

67. Er mwyn sicrhau bod y system i reoli gwaith cyflenwi yn gadarn, dylai pob ysgol gyhoeddi calendr ac amserlen ar gyfer pob blwyddyn ysgol, yn unol â darpariaethau paragraff 94 adran 3, a dylai:

    a) ymgynghori gyda staff a'u cynrychiolwyr undeb;

    b) cynllunio unrhyw newidiadau ymhell ymlaen llaw;

    c) defnyddio staff mewn ffordd briodol, yn unol â'u sgiliau, eu profiad a'u cymwysterau.

68. Mae'r calendr ysgol yn nodi gweithgareddau'r ysgol a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd, er enghraifft: dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, cyfarfodydd, nosweithiau ymgynghori â rhieni a diwrnodau HMS.

69. Mae'r amserlen yn nodi darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu yn ystod amserlen wythnos addysgu'r ysgol (fel y'i diffinnir yn is-baragraff 36.1 y Ddogfen).

70. Gall patrwm amserlen yr ysgol amrywio ar draws y flwyddyn. Er enghraifft, mae modd i ysgol gynnig gweithgareddau yn ystod y flwyddyn drwy gael amserlen sy'n dilyn yr un patrwm am 36 wythnos a gwahanol batrwm am bythefnos. Enghraifft yw hyn, a bydd ysgolion yn creu eu patrymau eu hunain.

71. Nid yw amserlenni addysgu yn derfynol, ac efallai y bydd modd eu hamrywio o un flwyddyn i'r llall.

72. Mae modd gwneud newidiadau i'r calendr a'r amserlen yn ystod y flwyddyn, ond mae'n rhaid bod rhesymau addysgol cadarn dros wneud hyn – er enghraifft, absenoldeb tymor hir neu ddatblygiad addysgol arwyddocaol. Ni ddylai newidiadau o'r fath fod yn ddigwyddiadau aml yn ystod y flwyddyn.

Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

73. Mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn rhan bwysig o'r cwricwlwm a dylid cynnwys darpariaeth o'r fath mewn calendrau ac amserlenni ysgolion. Dylid cynnwys trefniadau priodol yn yr amserlen ar gyfer y staff a'r disgyblion a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac ar gyfer y rhai na fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath.

74. Beth bynnag fo'r patrwm amserlennu a weithredir, absenoldeb y sawl a nodwyd yn yr amserlen i gymryd y dosbarth neu'r grŵp fydd yn sbarduno'r trefniant cyflenwi.

75. Mae'r rolau estynedig i staff cymorth, sy'n rhan annatod o'r agenda ailfodelu, yn cynnig y cyfle i ysgolion ystyried defnyddio oedolion priodol, ac eithrio athrawon, er mwyn cynnal ymweliadau addysgol.

Amser a enillir

76. Yn ystod y flwyddyn academaidd, ac yn arbennig yn ystod tymor yr haf, bydd athrawon sy'n cymryd dosbarthiadau/grwpiau arholiad yn aml yn cael eu rhyddhau o rai o'u hymrwymiadau addysgu ar yr amserlen o ganlyniad i'r ffaith bod disgyblion yn absennol er mwyn astudio neu oherwydd arholiadau. Gelwir amser o'r fath yn amser a enillir.

77. Ceir gweithgareddau sy'n berthnasol i addysgu a dysgu mewn ffordd uniongyrchol, y byddai'n briodol ac yn ddymunol defnyddio amser a enillir ar eu cyfer, ac y byddai'n rhesymol i bennaeth roi cyfarwyddyd i athrawon ymgymryd â nhw. Isod, gweler rhestr o'r gweithgareddau hyn, y cytunwyd arni:

    a) datblygu/diwygio deunyddiau cwricwlwm pynciol/adrannol, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwers a pholisïau er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Gallai hyn gynnwys nodi deunyddiau priodol i'w defnyddio gan staff cyflenwi a/neu oruchwylwyr cyflenwi;

    b) cynorthwyo cydweithwyr gyda gweithgareddau addysgu tîm priodol, wedi'u cynllunio;

    c) cymryd grwpiau o ddisgyblion er mwyn darparu cymorth dysgu ychwanegol;

    ch) cynorthwyo disgyblion dethol gyda'u gwaith cwrs;

    d) cyflawni gweithgareddau a gynlluniwyd gyda disgyblion sy'n trosglwyddo rhwng grwpiau blwyddyn neu o ysgolion cynradd;

    dd) os oes gan yr ysgol bolisi ar gyfer yr holl staff, i'w rhyddhau ar gyfer DPP yn ystod sesiynau ysgol, mae modd defnyddio amser a enillir ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

Dim colled

78. Nid bwriad gweithredu'r gofyniad mai dim ond ar adegau prin y dylid disgwyl i athrawon gyflenwi o 1af Medi 2009, yw arwain at sefyllfa lle mae amodau gwaith cyffredinol athro yn gwaethygu.

79. Mae cyflenwi ar adegau prin yn rhan annatod o becyn cyffredinol y darpariaethau cytundebol a gynlluniwyd i godi safonau drwy ryddhau athrawon a phenaethiaid o dasgau nad ydynt yn gofyn am eu sgiliau a'u harbenigedd proffesiynol, a'u

galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith addysgu a dysgu a rheoli addysgu a dysgu. Dylai strategaethau ysgolion er mwyn rheoli'r gofyniad ynghylch cyflenwi ar adegau prin, sicrhau bod llwyth gwaith yn ysgafnhau, gan gynorthwyo i sicrhau nad oes gofyn i athrawon a phenaethiaid weithio oriau afresymol a bod modd iddynt sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith rhesymol.

Strategaethau er mwyn rheoli gwaith cyflenwi

80. Mae gan ysgolion amrywiaeth o strategaethau er mwyn cynnig gwasanaeth cyflenwi pan fydd rhywun yn absennol, gan gynnwys athrawon cyflenwi, 'athrawon fel y bo'r angen' a gyflogir at ddibenion cyflenwi, cynorthwywyr addysgu/cynorthwywyr addysgu lefel uwch sy'n gallu gwneud 'gwaith penodedig' (sy'n cynnwys cyflwyno gwersi i ddisgyblion), ar yr amod eu bod yn bodloni darpariaethau Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Lloegr) 2003[(9)] a goruchwylwyr cyflenwi. Nid yw goruchwylio yn ffordd dda o ddefnyddio amser athro ac fel arfer, dylid disgwyl bod athrawon sy'n cyflenwi yn addysgu yn hytrach na goruchwylio disgyblion.

Athrawon cyflenwi

81. Gellir defnyddio athrawon cyflenwi ar gyfer pob math o absenoldeb. Pan fo athrawon cyflenwi yn cyflenwi, rhaid iddynt dreulio'r amser yn addysgu ac nid yn goruchwylio disgyblion yn bennaf, i'r graddau ag y bo modd yn rhesymol.

82. Yn ogystal, mae'n bwysig bod athrawon cyflenwi yn cael eu rheoli mewn ffordd briodol ac effeithiol, o ran eu hanghenion datblygiadol ac addysgu. Dylai fod modd iddynt fanteisio ar DPP mewn ffordd briodol, er mwyn cynnal eu safonau o ran gwybodaeth am bwnc, addysgeg a sgiliau rheoli ymddygiad.

83. Anogir ysgolion i fabwysiadu arfer da wrth ddefnyddio athrawon cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys:

    a) darpariaeth ymsefydlu ofalus yn yr ysgol gan ddefnyddio deunyddiau sy'n gweddu i'w cyfnod cyflogaeth;

    b) darparu cynlluniau tymor byr a thymor canolig syml a chlir sy'n diffinio'r disgwyliadau addysgu, yr adnoddau i'w defnyddio, yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan y dosbarth a'r gwaith cartref y dylid ei osod;

    c) darparu gwybodaeth am allu a chyrhaeddiad blaenorol y disgyblion yn y dosbarth;

    ch) rheolaeth effeithiol fel bod pawb dan sylw yn deall yr hyn sy'n ofynnol a'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid eu bodloni.

84. Yn ogystal, mae angen i ysgolion ystyried y Rheoliadau Gweithwyr Rhan Amser, y gallant fod yn berthnasol i athrawon cyflenwi mewn rhai amgylchiadau. Yn unol â'r rheoliadau hyn, mae gan y sawl nad ydynt yn weithwyr achlysurol (h.y. nad ydynt yn cael eu cyflogi o ddydd i ddydd), yr hawl i amodau a thelerau pro rata y mae athrawon eraill yn yr ysgol yn eu mwynhau. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i fanteisio ar DPP, y mae modd i athrawon yn yr ysgol fanteisio arno.

[(9)] *O.S. 2003/1663, fel y'i diwygiwyd gan S.I.2007/2117, ac O.S. 2008/1883, sydd ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/20031663.htm*

Goruchwyliaeth gyflenwi

85. Caiff pobl nad ydynt yn athrawon cymwysedig wneud gwaith cyflenwi yn ystod absenoldebau tymor byr. Yn ystod y cyfnod cyflenwi, i'r graddau y bydd pobl o'r fath yn ymwneud â gwaith penodedig, rhaid iddynt weithredu yn unol â'r rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 133 o Ddeddf Addysg 2002 a chanllawiau ategol.

86. Mae modd i'r rhai sy'n darparu goruchwyliaeth gyflenwi fod yn aelodau o staff presennol neu'n staff newydd a benodir ar gontractau sy'n cynnwys ystod ddiffiniedig o dasgau cymorth neu weinyddol priodol, ond sy'n cynnwys cyflenwi fel un o'u swyddogaethau allweddol. Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â neilltuo staff cymorth at y diben hwn, dylai ysgolion ystyried Atodiad A Canllawiau Proses Gweithredu Trefniadau Cyflenwi ar Adegau Prin (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009[10].

87. Mae angen i'r pennaeth sicrhau bod unrhyw bobl a ddefnyddir yn y modd hwn wedi cael hyfforddiant priodol, yn arbennig ym maes rheoli ymddygiad disgyblion. Mae hyfforddiant o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth gyflenwi yn gwneud cyfraniad go iawn i'r ymdrech i leddfu baich athrawon.

88. Mae goruchwyliaeth gyflenwi yn arbennig o ddilys mewn rhai lleoliadau, lle mae gwaith wedi cael ei osod, neu lle mae disgyblion yn gallu ymgymryd â dysgu effeithiol hunangyfeiriedig, er enghraifft mewn Canolfan Ddysgu TGCh mewn ysgol. Dylid llunio strategaethau er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau ar gyfer darparu gwaith priodol i ddisgyblion sy'n cael eu goruchwylio yn rhoi baich ychwanegol gormodol ar athrawon o ran cynllunio, paratoi ac asesu. Gallai hyn gynnwys datblygu cronfeydd o ddeunydd priodol a/neu osod goruchwyliwr cyflenwi ynghlwm wrth gyfadran, adran neu fand blwyddyn i'w galluogi, er enghraifft, i gynorthwyo'r athrawon wrth iddynt gyflawni tasgau gweinyddol ac i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a pharatoi gwaith cyflenwi yn ôl yr angen.

Cynorthwywyr addysgu lefel uwch

89. Prif swyddogaeth cynorthwywyr addysgu lefel uwch yw cefnogi a chynorthwyo athrawon. Mae modd eu defnyddio er mwyn rhyddhau athrawon ar gyfer amser CPA, ar yr amod eu bod yn gwneud gwaith a nodir yn y rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 133 o Ddeddf Addysg 2002, dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro.

90. Yn ogystal, mae modd defnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch ar gyfer cyflenwi tymor byr, ond dylid cydbwyso eu defnyddio yn y ffordd hon yn erbyn dymunoldeb addysgol eu tynnu allan yn rheolaidd o weithgareddau a gynlluniwyd gyda'r athrawon y'u neilltuwyd ar eu cyfer fel arfer.

---

[10] *http://www.socialpartnership.org/wamg_guidance.aspx*

Newidiadau 2005

Goruchwylio Arholiadau

Diben y darpariaethau

91. Nid yw goruchwylio arholiadau yn ddefnydd cynhyrchiol o amser athrawon. Ers mis Medi 2005, ni fu'n ofynnol mwyach i athrawon oruchwylio arholiadau allanol yn rheolaidd (e.e. profion Cwricwlwm Cenedlaethol, arholiadau TGAU ac UG/A2). Dylai ysgolion fod wedi gweithio tuag at y newidiadau hyn a defnyddio staff cymorth gymaint ag y bo modd fel goruchwylwyr arholiadau allanol, cyn y newid cytundebol.

92. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ofynnol i athrawon gynnal arholiadau ymarferol a llafar yn eu maes pwnc eu hunain a pharatoi disgyblion a'r agweddau hynny ar asesu, cofnodi ac adrodd sy'n gysylltiedig ag arholiadau allanol sy'n gofyn am fewnbwn proffesiynol athro cymwysedig.

93. Yn ogystal, efallai y bydd yn ofynnol i athrawon oruchwylio arholiadau a phrofion allanol pan fydd y rhain yn digwydd yn ystod eu hamser addysgu arferol ar yr amserlen. Fodd bynnag, os bydd ysgol yn ad-drefnu'r amserlen ar gyfer 'ffug' arholiadau er mwyn dynwared y broses arholi allanol, ni ddylai fod yn ofynnol i athrawon oruchwylio.

94. Mae'r newid yn seiliedig ar yr egwyddor nad yw goruchwylio yn gofyn am arbenigedd proffesiynol athro. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ddisgwyliad rhesymol, yn unol â chytundeb pennaeth y ganolfan (y pennaeth fel arfer), y dylai athro fod yn bresennol ar ddechrau arholiad allanol yn eu maes pwnc i archwilio'r papur a sicrhau nad oes unrhyw broblemau gydag ef. Dylai'r sawl sy'n goruchwylio'r arholiad fod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer delio ag argyfyngau ac ar gyfer cysylltu ag athro'r maes pwnc sy'n destun yr arholiad, os bydd unrhyw ymgeisydd yn codi pryder neu broblem gyda'r papur, sy'n galw am ei farn broffesiynol. Efallai hefyd y bydd yn briodol i athro fod yn bresennol ar ddiwedd arholiad allanol er mwyn sicrhau ei fod yn dod i ben yn effeithlon.

95. Nid oes unrhyw un o'r tasgau a amlinellir ym mharagraff 94 uchod yn golygu goruchwylio ac mae pob un ohonynt yn galw am arbenigedd proffesiynol athro. Wrth gyflawni tasgau o'r fath, ni ddylid disgwyl i athrawon aros yn y neuadd/ystafell arholi am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol er mwyn eu cyflawni.

Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu

Diben y darpariaethau

96. Diben amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) yw lleddfu rhywfaint ar y pwysau llwyth gwaith presennol ar athrawon a chodi safonau drwy gynnig rhywfaint o amser ar gyfer CPA yn ystod amserlen y diwrnod addysgu.

97. Ers 1af Medi 2005, mae gan bob athro mewn ysgol (gan gynnwys penaethiaid) y mae ganddynt ymrwymiadau addysgu ar yr amserlen, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi o dan gontract parhaol, contract tymor penodol, contract dros dro neu

gontract rhan amser, yr hawl cytundebol i fanteisio ar CPA yn ystod amserlen y diwrnod addysgu.

Egwyddorion sy'n sail ar gyfer neilltuo a defnyddio amser CPA

98. Dylid neilltuo o leiaf 10% o amser addysgu athro ar yr amserlen ar gyfer amser CPA. Dim ond amser addysgu o fewn 1,265 awr yr athro dan gontract sy'n cyfrif at y dibenion hyn, ac nid mathau eraill o gyswllt gyda disgyblion.

99. Dylid darparu amser CPA fel rhan o amserlen wythnosol neu bob pythefnos arferol athro. Rhaid iddo ddigwydd, felly, yn ystod y diwrnod addysgu ar yr amserlen (h.y. yn ystod yr amser pan addysgir disgyblion yn yr ysgol) ac ni cheir ei ychwanegu cyn nac ar ôl sesiynau disgyblion. Er mwyn i'r athro ddefnyddio'r amser mewn modd ystyrlon, rhaid ei ddyrannu yn flociau heb fod yn llai na 30 munud o hyd.

100. Rhaid defnyddio amser CPA er mwyn cynllunio, paratoi ac asesu – mae'r dyletswyddau hyn yn ymddangos ym mharagraffau perthnasol y Ddogfen. Ni ddylid tarfu ar yr amser, hyd yn oed er mwyn cyflenwi ar ran cydweithwyr absennol. Yr athro fydd yn pennu'r blaenoriaethau CPA penodol ar gyfer pob bloc o amser CPA, er nad yw hynny'n ei atal rhag dewis defnyddio rhywfaint o'r amser er mwyn cynorthwyo gweithgareddau cydweithredol.

Dim colled

101. Isafswm yw'r 10% o amser CPA. Os oedd unrhyw athro eisoes yn cael mwy na'r cyfanswm hwn o amser ar gyfer CPA cyn y cyflwynwyd y newid hwn, ni ddylid fod wedi lleihau ei ddyraniad presennol i 10%.

Gweithredu

102. Ar gyfer athrawon nad oeddent yn cael amser digyswllt rheolaidd ar yr amserlen o'r blaen, bydd eu hamser addysgu wedi cael ei leihau er mwyn rhoi amser CPA iddynt.

103. Efallai y bydd athrawon eraill wedi cael amser digyswllt o'r blaen, ac efallai y bydd rhywfaint ohono neu'r holl amser hwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau CPA. Os oedd angen amser ychwanegol er mwyn bodloni'r dyraniad lleiaf ar gyfer athrawon o'r fath, efallai y bu un o'r strategaethau canlynol yn angenrheidiol, neu gyfuniad ohonynt:

    a) lleihau amser addysgu;

    b) newidiadau i'r ffordd y defnyddir amser digyswllt presennol;

    c) ail-ddynodi ac ailddosbarthu amser digyswllt a gaiff ei neilltuo ar hyn o bryd i athrawon yn yr ysgol ar gyfer tasgau eraill, y byddant yn cael eu trosglwyddo i staff cymorth priodol, fel gweinyddu gwaith cyflenwi, trefnu profiad gwaith a gweinyddu arholiadau.

104. Er enghraifft, rhaid i athro sydd ar yr amserlen i addysgu 20 awr mewn wythnos addysgu 25 awr, gael o leiaf dwy awr o amser CPA. Rhaid i'r amser hwn ymddangos ar amserlen yr athro. Rhaid i unrhyw amser digyswllt a ddyrennir ar gyfer gweithgareddau eraill (e.e. amser CPA nad yw'n cael ei warantu, cyfarfodydd, ac amser ar gyfer cyfrifoldebau arwain a rheoli) fod yn ychwanegol i'r amser CPA.

105. Mewn rhai achosion, dylid nodi ei bod yn bosibl y bydd ymrwymiadau addysgu yn cynyddu o ganlyniad i weithgarwch ailfodelu. Er enghraifft, efallai y bydd mwy o amser gan athro i addysgu ar ôl i'r trosglwyddo ddigwydd, os oedd ei lwyth addysgu yn is yn flaenorol, i'w alluogi i gyflawni cyfrifoldebau sydd bellach yn cael eu cyflawni gan staff cymorth.

Defnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch

106. Efallai y bydd rhai ysgolion yn dewis defnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch fel un o'r strategaethau er mwyn rhyddhau athrawon ar gyfer amser CPA, ar yr amod bod y pennaeth yn fodlon bod y cynorthwywyr hyn yn bodloni holl ddarpariaethau'r rheoliadau a'r canllawiau a wnaed yn unol ag adran 133 o Ddeddf Addysg 2002. Os defnyddir cynorthwywyr addysgu lefel uwch yn y modd hwn, ni ddylid tarfu ar amser CPA yr athro. Os bydd problemau gyda dosbarth, dylai'r cynorthwyydd ddefnyddio system gyfeirio arferol yr ysgol, yn yr un modd ag y byddai athro'n ei wneud mewn argyfwng neu os byddai anhawster yn codi.

107. Mewn rhai achosion, caiff cynorthwywyr addysgu lefel uwch eu defnyddio i ryddhau athrawon y maent yn gweithio gyda hwy'n rheolaidd ac sy'n gyfarwydd â rhaglen waith y dosbarth. Bydd hyn yn helpu i gynnal parhad, gan olygu y gellir cynnwys gwaith y cynorthwywyr yng nghylch CPA arferol yr athrawon.

108. Efallai y bydd ysgolion eraill yn defnyddio cynorthwywyr addysgu lefel uwch mewn rolau arbenigol os oes ganddynt arbenigedd a/neu os ydynt wedi cael hyfforddiant perthnasol (er enghraifft, ym maes chwaraeon neu ieithoedd tramor modern), yn unol â chyfarwyddyd a goruchwyliaeth un athro yn yr ysgol. Yn y naill achos neu'r llall, dylai'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r cynorthwywyr hyn anelu at leihau llwyth gwaith cyffredinol yr athrawon y maent yn eu cynorthwyo.

Athrawon newydd gymhwyso

109. Yn ogystal â'u hamser CPA a warentir, caiff athrawon newydd gymhwyso fudd o ddarpariaethau cytundebol paragraff 52.15 hefyd. Mae hwn yn nodi na fydd athrawon sydd ar gyfnodau ymsefydlu yn unol â'r rheoliadau ymsefydlu, yn addysgu am fwy na 90% o'r amser y byddai disgwyl i athro yn yr ysgol honno, nad yw'n cael taliadau am ddyletswyddau neu gyfrifoldebau ychwanegol, ei addysgu.

Amser Prifathrawiaeth Penodedig

Diben y darpariaethau

110. Rhaid i benaethiaid gael amser penodedig i arwain eu hysgolion, yn ogystal â'u rheoli. Felly, o fis Medi 2005, bu angen i gyrff llywodraethu sicrhau bod penaethiaid yn cael amser prifathrawiaeth penodedig, gan ystyried yr adnoddau yn yr ysgol a chanllawiau cenedlaethol pellach sy'n cael eu datblygu.

Cyd-destun

111. Mae problemau'n parhau lle na fydd penaethiaid y mae ganddynt lwythi addysgu sylweddol (er enghraifft y rhai sy'n addysgu am fwy na 50% o'r amserlen ysgol) yn cael digon o amser yn ystod sesiynau ysgol er mwyn cyflawni eu rôl arwain a rheoli. Mae'r momentwm y tu ôl i ailfodelu gweithlu'r ysgol a nifer o ddarpariaethau penodol eraill a gyflwynwyd wedi helpu yn hyn o beth. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) y darpariaethau cydbwysedd bywyd a gwaith;

b) cyflwyno amser arwain a rheoli a chyfeirio at y swyddogaeth arwain ym mharagraff 51 y Ddogfen, a fydd yn cyfyngu i bob pwrpas faint o addysgu y gellir disgwyl i bennaeth ei wneud;

c) y cyfyngiadau ynghylch cyflenwi;

ch) amser CPA, yn gymesur â'u llwyth addysgu.

Department for Education

(h) Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2 neu anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn http://www.education.gov.uk/contactus.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon yn http://www.gov.uk/education.gov.uk

Reference: DFE-00162-2013